



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2006
Tuesday, 10 January 2006**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 30 Cwestiwn Brys: Diogelwch ar Ffordd yr A547
Urgent Question: Road Safety on the A547
- 35 Datganiad Busnes
Business Statement
- 39 Datganiad am Gyngor Celfyddydau Cymru
Statement on the Arts Council of Wales
- 57 Pwynt o Drefn
Point of Order
- 58 Cymeradwyo Rheoliadau o dan Reol Sefydlog Rhif 24.25
Approval of Regulations under Standing Order No. 24.25
- 60 Cymeradwyo Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006
Approval of the Tir Cynnal (Wales) Regulations 2006
- 66 Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru): Tlodi Tanwydd
Minority Party Debate (Plaid Cymru): Fuel Poverty
- 95 Cynnig Trefniadol
Procedural Motion
- 97 Deintyddiaeth y GIG
NHS Dentistry

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Teithio ar y Trên yng Nghymru Rail Travel in Wales

Q1 Laura Anne Jones: Will the First Minister make a statement on rail travel in Wales? OAQ1093(FM)

C1 Laura Anne Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am deithio ar y trêrn yng Nghymru? OAQ1093(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Thank you for your question, Laura Anne, and I take this opportunity to wish *blwyddyn newydd dda*—a happy new year—to all Assembly Members.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Diolch am eich cwestiwn, Laura Anne, a charwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno *blwyddyn newydd dda* i holl Aelodau'r Cynulliad.

We want to encourage more rail services and more use of those services in our transport policies to reduce dependency on the car and to improve accessibility generally. From 1 April 2006, the Assembly Government will have increased responsibility for rail services in Wales as co-signatory to the Wales and borders franchise.

Mae arnom eisiau annog rhagor o wasanaethau rheilffordd a rhagor o ddefnydd o'r gwasanaethau hynny yn ein polisïau trafndiaeth er mwyn lleihau dibyniaeth pobl ar y car a gwella hygyrchedd yn gyffredinol. O 1 Ebrill 2006 ymlaen, bydd gan Lywodraeth y Cynulliad fwy o gyfrifoldeb dros wasanaethau rheilffordd yng Nghymru fel cyd-lofnodydd i fasnachfaint Cymru a'r gororau.

Laura Anne Jones: Happy new year to you too, First Minister.

Laura Anne Jones: A blwyddyn newydd dda i chithau, Brif Weinidog.

Affordability, reliability and high standards should be a given if we are to encourage more people to use our rail system in Wales. It is vital that trains turn up on time and that costs are kept down. What action are you taking, First Minister, to ensure that trains in Wales are competitive, reliable and of the same standard as trains in England? What are you doing to ensure that we have a joined-up and integrated transport system, and when will work finally start on the Ebbw Vale to Cardiff rail link? It was meant to start in 2004-05 but it has still not begun. That is disgusting.

Rhaid i wasanaethau fod yn fforddiadwy, yn ddibynadwy ac o safon uchel, os ydym am annog rhagor o bobl i ddefnyddio ein system reilffordd yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod trenau'n cyrraedd yn brydlon a bod costau'n cael eu cadw'n isel. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd, Brif Weinidog, i sicrhau bod trenau yng Nghymru yn gystadleuol, yn ddibynadwy ac o'r un safon â threnau yn Lloegr? Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod gennym system drafnidiaeth gydgyssylltiedig ac integredig, a phryd y bydd y gwaith yn dechrau, o'r diwedd, ar y cyswllt rheilffordd rhwng Glynebwy a Chaerdydd? Yr oedd disgwyl iddo ddechrau yn 2004-05, ond mae heb ddechrau byth. Mae hynny'n warth.

The First Minister: I note and agree with what you say in general. Train service operators serving Wales are not at the right

Y Prif Weinidog: Nodaf yr hyn a ddywedwch, a chytunaf â hynny ar y cyfan. Nid yw rheolwyr gwasanaethau trenau sy'n

end of the league tables of reliability and efficiency. We want to see them move from being well below average to being above average, and when we take over our responsibilities on 1 April we will put a lot of effort into that. However, I reject your final comment, given that it is our party that is in the process of reopening two lines. The Vale of Glamorgan line is already open. A contract has already been let, and it is now for the contractor—Amey Rail Ltd, I think—to deliver the opening in a year or 15 months' time of the Ebbw Vale railway. That is the second major new investment in rail services. You must admit that it was your Government that closed rail services down, and that we are now opening them up.

Christine Chapman: What influence will the Welsh Assembly Government exert on Arriva Trains Wales to provide later services from Cardiff to the Valleys? The last train from Cardiff to the Cynon valley on weekdays and Saturdays is before 10 p.m. and, on Sundays, is not long after 8 p.m.. Given that passenger take-up along the Valleys lines has increased considerably—which, obviously, we welcome—should we not be capitalising on that by offering a broader range of services and giving people the option of travelling home by train from a night out in the capital? This is also about improving the links between our capital and Valley areas.

The First Minister: I agree entirely about the attractions of a night out in the capital, though it has been many decades since I was able to enjoy such a thing. Linking up that potential customer base in the Valleys with what happens in the centre of Cardiff is important, but we cannot do it all at once. The big achievement recently has been the introduction of the half-hourly service on the Cynon valley line, and the later service is perhaps the next logical step. I will have to look at the franchise document to see whether there is any provision for later return trains to Mountain Ash, Aberdare and so on. I will either write to you myself or arrange for Andrew Davies to do so on that issue.

gwasanaethu Cymru ar y pen cywir i'r tablau cynghrair o ran bod yn ddibynadwy ac effeithiol. Mae arnom eisiau eu gweld yn symud o fod ymhell o dan y cyfartaledd i fod yn uwch na'r cyfartaledd, a phan ysgwyddwn ein cyfrifoldebau ar 1 Ebrill, fe wnawn ein gorau glas i sicrhau hynny. Fodd bynnag, gwrthodaf eich sylw olaf, gan mai ein plaid ni sydd ar ganol ailagor dwy linell. Mae llinell Bro Morgannwg eisoes wedi agor. Mae contract eisoes wedi'i osod, a gwaith y contractwr yn awr—Amey Rail Ltd, fe gredaf—yw sicrhau bod rheilffordd Glynebwy yn agor ymhen blwyddyn neu 15 mis. Hwnnw yw'r ail fuddsoddiad newydd sylweddol mewn gwasanaethau rheilffordd. Rhaid ichi gyfaddef mai eich Llywodraeth chi a gaeodd wasanaethau rheilffordd, a'n bod ninnau yn awr yn eu hagor.

Christine Chapman: Pa bwysau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi ar Drenau Arriva Cymru i redeg gwasanaethau hwyrach o Gaerdydd i'r Cymoedd? Yn ystod yr wythnos, ac ar ddydd Sadwrn, mae'r trê olaf o Gaerdydd i Gwm Cynon cyn 10 p.m. ac, ar ddydd Sul, mae fymryn ar ôl 8 p.m. Gan fod nifer y teithwyr ar linellau'r Cymoedd wedi cynyddu'n sylweddol—ffaith sydd, yn amlwg yn cael croeso mawr gennym—oni ddylem fod yn manteisio ar hynny drwy gynnig ystod helaethach o wasanaethau a chynnig i bobl y dewis o deithio adref ar drên ar ôl noson allan yn y brifddinas? Mae hyn hefyd yn ymwneud â gwella'r cysylltiadau rhwng ein prifddinas ac ardaloedd y Cymoedd.

Y Prif Weinidog: Cytunaf yn llwyr â chi ynglŷn ag atyniadau noson allan yn y brifddinas, er i lawer degawd fynd heibio ers i mi allu mwynhau profiad o'r fath. Mae cysylltu'r sylfaen gwsmeriaid bosibl honno yn y Cymoedd â'r hyn sy'n digwydd yng nghanol Caerdydd yn bwysig, ond ni allwn gyflawni popeth ar unwaith. Y llwyddiant sylweddol diweddar fu cyflwyno gwasanaeth bob hanner awr ar linell Cwm Cynon, ac mae'n bosibl mai'r gwasanaeth hwyr yw'r cam rhesymegol nesaf. Bydd yn rhaid imi astudio dogfen y fasnachfaint i weld a oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trenau dychwelyd hwyrach i Aberpennar, Aberdâr ac yn y blaen. Ysgrifennaf atoch fy hun ynglŷn â'r mater hwnnw, neu fe drefnaf fod

Andrew Davies yn gwneud hynny.

Janet Davies: First Minister, you will be pleased to know that I have a briefer, more focused question on rail travel. You will be aware of the slam doors on high-speed trains, which are quite a problem, particularly for elderly people who have arthritis or who are frail. The refurbishment of these trains will preserve these slam doors for another 15 years, which I think may be the last ones in the United Kingdom. Do you agree that this is a matter of great concern, and could you make interventions on this, please?

Janet Davies: Brif Weinidog, byddwch yn falch o glywed mai cwestiwn mwy cryno a mwy penodol sydd gennyf ynglŷn â theithio ar y trêen. Byddwch yn gyfarwydd â drysau clep ar drenau cyflym, sy'n dipyn o broblem, yn enwedig i hen bobl sydd ag arthritis, neu sy'n fregus eu hiechyd. Bydd y broses o ailwampio'r trenau hyn yn cadw'r drysau clep hyn am 15 mlynedd arall, a chredaf mai'r rhain fydd y rhai olaf yn y Deyrnas Unedig o bosibl. A ydych yn cytuno bod hwn yn fater sy'n peri pryder mawr, ac a allech gynnig eich sylwadau ar hyn, os gwelwch yn dda?

The First Minister: I think that all of us who use the Swansea to London First Great Western inter-city service have noticed that slam doors are still used, but their design is very different from what it was a few years ago. Although we all enjoyed the excitement of running along the platform alongside the train before opening the door—in our younger days, of course—which was part of rail travel in the 1950s, 1960s and 1970s, you cannot do that anymore, as the doors are locked just before the train leaves. That makes them much safer, which is a major step forward.

Y Prif Weinidog: Credaf fod pob un ohonom sy'n defnyddio gwasanaeth First Great Western rhwng dinasoedd Abertawe a Llundain wedi sylwi bod drysau clep yn dal i gael eu defnyddio, ond mae'r modd y maent wedi eu cynllunio yn dra gwahanol i'r hyn ydoedd rai blynyddoedd yn ôl. Er i bob un ohonom fwynhau'r cyffro o redeg ar hyd y plattform ochr yn ochr â'r trêen cyn agor y drws—pan oeddem yn ifanc, wrth gwrs—a oedd yn rhan o deithio ar drêen yn y 1950au, y 1960au a'r 1970au, ni allwch wneud hynny mwyach gan fod y drysau'n cael eu cloi cyn i'r trêen adael. Mae hynny'n eu gwneud yn fwy diogel, sy'n gam pwysig ymlaen.

Leighton Andrews: Are you aware that in the Rhondda, Arriva Trains Wales is rapidly gaining the nickname 'never Arriva'? When you next have the opportunity, will you take up with Arriva, under the terms of the franchise, a range of issues relating to punctuality, to the quality of the rolling stock and to the ability of Arriva to collect fares from passengers? At present, in the Rhondda, and, I suspect in many other Valley constituencies, Arriva Trains is rapidly becoming something of a music hall joke.

Leighton Andrews: A ydych yn sylweddoli bod Trenau Arriva Cymru, yn y Rhondda, yn prysur fagu'r glasenw 'never Arriva'? Y tro nesaf y cewch gyfle, a wnewch godi nifer o faterion gydag Arriva, dan delerau'r fasnachfaint, yn ymwneud â phrydlondeb, cyflwr y cerbydau a gallu Arriva i gasglu arian tocynnau gan deithwyr? Ar hyn o bryd, yn y Rhondda ac, fe dybiaf, mewn nifer o etholaethau eraill yn y Cymoedd, mae Trenau Arriva yn prysur ddod yn jôc noson lawen.

The First Minister: As I said to Laura Anne five minutes ago, it is the case that the rail service companies that service Wales, Arriva included, are at the bottom of the league table for reliability, or near the bottom. I think that Arriva's position has been improving recently.

Y Prif Weinidog: Fel y dywedais wrth Laura Anne bum munud yn ôl, y gwir yw bod y cwmnïau gwasanaethau rheilffordd sy'n gwasanaethu Cymru, gan gynnwys Arriva, ar waelod, neu wrth waelod, y tabl cynghrair am fod yn ddibynadwy. Credaf fod safle Arriva wedi bod yn gwell a'n ddiweddar.

The issue of overfull trains and, therefore, the

Mae problem trenau gorlawn ac, yn sgîl

impossibility of collecting the appropriate amount of revenue, has been raised with me on many occasions. This becomes a vicious circle: you cannot collect the revenue because the trains are overfull and, therefore, your response is, 'We are making a loss on this rail service, so why should we put on an extra carriage?'. The reason for putting on an extra carriage is so that passengers can sit down and so that you can collect their fares. That might seem obvious, but it is not necessarily done. There is a programme to lengthen trains from two to four carriages, and this requires platform areas to be lengthened in order to accommodate the four-car trains. This enables you to collect the revenue and to start spending the money that is appropriate, because it is a revenue-earning service. However, it will still require subsidy.

Your point about Arriva is right, because it is not at the right end of the league table. When we take over responsibility on 1 April, we will be pushing it in that direction.

Eleanor Burnham: Blwyddyn newydd dda, Brif Weinidog.

As a regular rail traveller, I am aware of the vagaries of travelling across Wales. Do you agree that the recent above-inflation increases in rail fares send out completely the wrong message to commuters when we are trying to get more people out of cars and onto public transport? Across much of north Wales, rail is the only viable form of public transport, yet there has been an increase of 5.4 per cent above inflation in unregulated fares. Do you not think that this is unacceptable?

The First Minister: If the fares are unregulated, it does not matter whether we think they are unacceptable or not. It is for regulated services that we have some hold over what rail service operators are able to do. I will write to you on the issue of fare increases in Wales and how they relate to inflation and improvement in services.

hynny, y ffaith ei bod yn amhosibl casglu'r refeniw priodol, wedi ei godi gyda mi lawer gwaith. Mae hyn yn mynd yn gylch dieflig: ni allwch gasglu'r refeniw am fod y trenau'n orlawn ac, o'r herwydd, eich ymateb yw: 'Yr ydym yn gwneud colled ar y gwasanaeth rheilffordd hwn, felly pam y dylem ddarparu cerbyd ychwanegol?'. Y rheswm dros ddarparu cerbyd ychwanegol yw er mwyn i deithwyr allu eistedd i lawr ac er mwyn i chi allu casglu eu taliadau. Er bod hynny'n ymddangos yn amlwg, nid yw'n rhywbeth sydd, o reidrwydd, yn digwydd. Ceir rhaglen i ymestyn trenau o ddau gerbyd i bedwar, ac mae hyn yn peri bod gofyn i blatfformau gael eu hwyhau er mwyn ymdopi â threnau pedwar cerbyd. Bydd hyn yn golygu y gallwch gasglu'r refeniw a dechrau gwario'r arian sy'n briodol, oherwydd ei fod yn wasanaeth sy'n cynhyrchu refeniw. Fodd bynnag, bydd angen cymhorthdal arno o hyd.

Mae'r pwynt a godwch am Arriva yn gywir, oherwydd nid yw yn y pen cywir i dabl y gynghrair. Pan ysgwyddwn y cyfrifoldeb ar 1 Ebrill, dyna'r trywydd y byddwn yn ei ddilyn.

Eleanor Burnham: Happy new year, First Minister.

Fel teithiwr trê'n rheolaidd, yr wyf yn ymwybodol o nodweddion anwadal teithio ledled Cymru. A ydych yn cytuno bod y cynnydd sy'n fwy na chwyddiant yn ddiweddar ym mhris tocynnau trê'n yn cyfleu neges gwbl amhriodol i gymudwyr, a ninnau'n ceisio perswadio mwy o bobl i gefnu ar eu ceir a defnyddio cludiant cyhoeddus? Mewn rhannau helaeth o'r gogledd, y trê'n yw'r unig ddull ymarferol o gludiant cyhoeddus, ond eto, gwelwyd cynnydd o 5.4 y cant yn fwy na chwyddiant ym mhris tocynnau nas rheoleiddir. Oni chredwch fod hyn yn annerbyniol?

Y Prif Weinidog: Os nad yw'r pris wedi ei reoleiddio, nid oes gwahaniaeth a gredwn ei fod yn annerbyniol ai peidio. Gyda gwasanaethau sydd wedi'u rheoleiddio y mae gennym ryw fath o ddylanwad dros yr hyn y mae rheolwyr gwasanaethau rheilffordd yn gallu ei wneud. Ysgrifennaf atoch ynglŷn â'r cynnydd ym mhris tocynnau yng Nghymru a'r berthynas rhwng hynny a chwyddiant a

gwella gwasanaethau.

Jeff Cuthbert: I experienced difficulties with Arriva Trains over the Christmas and new year period and will be taking up the issue on my own behalf and that of constituents who experienced severe delays. Nevertheless, looking at the bigger picture, do you agree that the level of investment in the Rhymney valley lines means that, sooner or later, the service provided will be far better, and that we have to do all that we can to encourage people to leave their cars at home and to use public transport, particularly rail? Furthermore, do you, like me, find it rather rich that we are criticised by the Conservative Party, when it was responsible for dividing up the former British Rail into train operating companies and rail infrastructure companies and for creating much of the chaos that it claims exists?

The First Minister: No-one on the Conservative side now boasts about the success of rail privatisation, and I agree with you on that point. [*Interruption.*]

I am trying to draw this out as best I can, as you can hear, Jeff, from the various farmyard noises being made.

Investment inevitably causes temporary disruption, and I do not doubt that that will have applied over the Christmas and new year period. Major investment is being made in the Cardiff west junction, just west of Cardiff Central station. The only time that the work could be done was over the quiet period of Christmas and the new year. This caused major disruption, but it had to be done. Once it is done, you get a massively improved service. This investment was long overdue because the Cardiff west junction has been roughly of the same design since the early 1950s, therefore it is 50 years old. It has now been renewed. The same applies to the £400-million-investment programme from Port Talbot, Baglan and through to Newport, which has now been commenced. This amounts to the biggest investment ever in improvements to rail infrastructure, which includes lines, signalling and points, in Wales. This must be welcomed.

Jeff Cuthbert: Cefais broblemau gyda Threnau Arriva yn ystod cyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd a byddaf yn gweithredu ynglŷn â hyn ar fy rhan fy hun ac ar ran etholwyr a wynebodd oedi difrifol. Fodd bynnag, o edrych ar y darlun ehangach, a gytunwch fod lefel y buddsoddiad yn llinellau Cwm Rhymni yn golygu y bydd y gwasanaeth a ddarperir, yn hwyr neu'n hwyrach, yn llawer gwell, a bod rhaid i ni wneud hynny a allwn i annog pobl i adael eu ceir gartref a defnyddio cludiant cyhoeddus, yn enwedig rheilffyrdd? Hefyd, a dydych chi, fel finnau, yn rhyfeddu ein bod yn cael ein beirniadu gan y Blaid Geidwadol, yr union blaid a fu'n gyfrifol am rannu'r Rheilffyrdd Prydeinig gynt yn gwmnïau rhedeg trenau a chwmnïau seilwaith rheilffyrdd ac am greu llawer o'r llanastr yr honnir ganddi ei fod yn bodoli?

Y Prif Weinidog: Nid oes neb ar yr ochr Geidwadol yn brolio'n awr am lwyddiant preifateiddio'r rheilffyrdd, a chytunaf â chi ynglŷn â'r pwynt hwnnw. [*Torri ar draws.*]

Yr wyf yn ceisio esbonio hyn orau y gallaf, fel y gallwch glywed, Jeff, oddi wrth y synau buarth fferm amrywiol sy'n cael eu gwneud.

Mae buddsoddi bob amser yn esgor ar darfu ar y gwasanaeth dros dro, ac nid oes gennyf amheuaeth na ddigwyddodd hynny dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Ceir buddsoddi helaeth yng nghyffordd gorllewin Caerdydd, ychydig i'r gorllewin o orsaf Canol Caerdydd. Yr unig adeg y gellid gwneud hynny oedd yn ystod cyfnod tawel y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Achosodd hyn darfu sylweddol ar y gwasanaeth, ond yr oedd yn rhywbeth yr oedd yn rhaid ei wneud. Wedi iddo gael ei orffen, bydd gennyh wasanaeth llawer gwell. Yr oedd yn hen bryd i'r buddsoddiad hwn ddigwydd, gan nad yw cynllun cyffordd gorllewin Caerdydd wedi newid fawr ddim ers dechrau'r 1950au, felly mae'n 50 oed. Fe'i hadnewyddwyd bellach. Mae'r un peth yn wir am y rhaglen fuddsoddi £400 miliwn o Bort Talbot, Baglan a thrwodd i Gasnewydd, sydd wedi dechrau yn awr. Hwn yw'r buddsoddiad mwyaf a welwyd yng Nghymru erioed mewn gwella'r seilwaith rheilffyrdd, ac mae hynny'n cynnwys

llinellau, signalau a phwyntiau. Rhaid croesawu hynny.

2.10 p.m.

Gofal Iechyd i Bobl Cymru Healthcare for the People of Wales

Q2 Glyn Davies: What proposals does the First Minister have to improve the delivery of healthcare to the people of Wales? OAQ1079(FM)

The First Minister: Improved delivery of healthcare will build on the transformed waiting times position achieved over the last 12 months. You will have seen the figures published in December for the year to November, showing a 93 per cent year on year reduction in the number of people waiting over 12 months for in-patient treatment. That is the lowest figure since records began. It will fall further during 2006.

Glyn Davies: Over the next year or two, most district general hospitals over the border in England will adopt foundation trust status, whereby a council of governors will take over the management from the Department of Health. Between 30 and 40 per cent of patients at some of these hospitals—such as the Robert Jones and Agnes Hunt Hospital—come from Wales. What steps are you taking to protect Welsh interests, and what discussions are you having to ensure appropriate representation on the governing councils running these hospitals?

The First Minister: You are right about the famous hospital at Gobowen—I have only ever visited it to see a friend from Wales who was an in-patient there. We must discuss whether there is a need for separate Welsh representation as a result of the implications of foundation hospital status. I will arrange for Brian Gibbons to write to you on that.

Carl Sargeant: As the Conservatives have now gone back to thinking that the passport scheme was a bad idea in England, do you believe that it is appropriate for our opposition colleagues to apologise to the

C2 Glyn Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i wella'r ddarpariaeth gofal iechyd i bobl Cymru? OAQ1079(FM)

Y Prif Weinidog: Bydd gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd yn adeiladu ar y trawsnewid a welwyd yn sefyllfa amseroedd aros dros y 12 mis diwethaf. Byddwch wedi gweld y ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr am y flwyddyn hyd at Dachwedd, sy'n dangos gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn o 93 y cant yn nifer y bobl a fu'n disgwyl dros 12 mis am driniaeth fel claf mewnol. Hwnnw yw'r ffigur isaf ers dechrau cadw cofnodion. Bydd yn gostwng eto yn 2006.

Glyn Davies: Dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, bydd y rhan fwyaf o ysbytai cyffredinol dosbarth dros y ffin yn Lloegr yn mabwysiadu statws ymddiriedolaeth sefydledig, lle y bydd cyngor o lywodraethwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau rheoli yn lle'r Adran Iechyd. Mae rhwng 30 a 40 y cant o'r cleifion yn rhai o'r ysbytai hyn—megis Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt—yn dod o Gymru. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i warchod buddiannau pobl Cymru a pha drafodaethau yr ydych yn eu cynnal i sicrhau cynrychiolaeth briodol ar y cyngorau llywodraethu sy'n rhedeg yr ysbytai hyn?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn llygad eich lle am yr ysbyty enwog yng Ngobowen—dim ond unwaith y bûm i yno, a hynny i weld ffrind o Gymru a oedd yn glaf yno. Mae'n rhaid inni drafod a oes angen cynrychiolaeth ar wahân i Gymru yn sgîl goblygiadau statws ysbyty sefydledig. Trefnaf fod Brian Gibbons yn ysgrifennu atoch ynghylch hynny.

Carl Sargeant: Gan fod y Ceidwadwyr bellach yn credu mai syniad gwael oedd y cynllun pasport yn Lloegr, a gredwch ei bod yn briodol i'n cyd-Aelodau yn yr wrthblaid ymddiheuro i bobl Cymru am geisio cynnig

people of Wales for trying to offer them a passport scheme? Are you thinking what I am thinking?

The Presiding Officer: Order. I do not believe that the First Minister's extensive responsibilities extend to Conservative Party policies.

Helen Mary Jones: I am sure that you are aware of how serious the problem of eating disorders is in Wales. More young people are dying as a result of having an eating disorder than as a result of any other mental health problem. Do you agree that there is a serious gap in services in Wales, as we have no special in-patient services available? Given that mental health services are allegedly one of your Government's health priorities, what plans do you have to address this serious gap in health provision?

The First Minister: It is my understanding that such an unit is, for the first time, under construction at Glanrhyd in Bridgend. If I am wrong, I will write to you, but, as I understand it, it will be open later this year.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): You will have heard the recent criticisms made by Jonathan Osborne, the outgoing chair of the Welsh consultants committee, about the structure of the NHS, and specifically about the 22 local health boards. He says that they should be merged into three regional offices. He blames NHS reorganisation for a considerable amount of the additional pressure on waiting lists. What is your response to those criticisms?

The First Minister: I read Jonathan Osborne's article, which was pretty much a curate's egg. The first half was an attack on the management of the NHS in Wales, and the second half was an attack on the management of the NHS in England, saying 'Thank God I live in Wales'. It was pretty mixed. His point about the structure of LHBS was interesting. The bureaucracy that he referred to is, by and large, brigaded into three regional offices in the way in which he commends. That has already happened. Yes,

cynllun pasport iddynt? A ydych yn meddwl yr un peth â mi?

Y Llywydd: Trefn. Ni chredaf fod cyfrifoldebau helaeth y Prif Weinidog yn cynnwys polisiau'r Blaid Geidwadol.

Helen Mary Jones: Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol o ddifrifoldeb problem anhwylderau bwyta yng Nghymru. Mae mwy o bobl ifanc yn marw yn sgîl anhwylder bwyta nag yn sgîl dim un broblem arall o ran iechyd meddwl. A gytunwch fod bwllch difrifol mewn gwasanaethau yng Nghymru, gan nad oes gennym yr un gwasanaeth arbennig ar gyfer cleifion mewnol? Gan eich bod yn honni bod gwasanaethau iechyd meddwl yn un o flaenoriaethau iechyd eich Llywodraeth, pa gynlluniau sydd gennych i fynd i'r afael â'r bwllch difrifol hwn yn y ddarpariaeth iechyd?

Y Prif Weinidog: Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae uned o'r fath, am y tro cyntaf, yn cael ei hadeiladu yng Nglan-rhyd, ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Os wyf yn cyfeiliorni, ysgrifennaf atoch ond, yn ôl a ddeallaf, bydd yn agor yn ddiweddarach eleni.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Byddwch wedi clywed y feirniadaeth ddiweddar a wnaed gan Jonathan Osborne, y cadeirydd sy'n gadael pwyllgor ymgynghorwyr Cymru, ynglŷn â strwythur y GIG ac, yn benodol, y 22 bwrdd iechyd lleol. Dywed y dylid eu huno yn dair swyddfa ranbarthol. Mae'n beio ad-drefnu'r GIG am gyfran sylweddol o'r pwysau ychwanegol ar restrau aros. Sut yr ydych yn ymateb i'r beirniadaethau hynny?

Y Prif Weinidog: Darllenas erthygl Jonathan Osborne, ac yr oedd yn gymysgedd o'r da a'r drwg. Yr oedd yr hanner cyntaf yn ymosod ar reolaeth y GIG yng Nghymru a'r ail hanner yn ymosod ar reolaeth y GIG yn Lloegr, gan ddweud 'Diolch i Dduw fy mod yn byw yng Nghymru'. Yr oedd yn bur gymysg. Yr oedd ei bwynt ynglŷn â strwythur BILlau yn ddi-ddorol. Mae'r fiwrocratiaeth y cyfeiria ati, ar y cyfan, wedi ei chronni i'r tair swyddfa ranbarthol yn y modd a argymhellir ganddo. Mae hynny

there are 22 chief executives, but there are not 22 bureaucratic set-ups to administer the LHBs. The personnel and finance functions are merged into three regional offices. That makes a great deal of sense, and we have already done what he commends.

Nick Bourne: The point that he was making is that we have 22 bloated bureaucracies rather than three. I disagree with your analysis. He was making the point that there is too much bureaucracy, and I have not heard you respond to that part of his argument. Given that the English health service is now expanding at a quicker rate than the Welsh health service, he was saying that we can expect problems in the future.

He mentioned unacceptable waiting lists. I refer you to a letter that I received this morning from a constituent from Ystradgynlais, in my area, who received a letter over Christmas from Singleton Hospital saying that it has a four-year wait for a bone density scan. Do you not think that that is totally unacceptable? It is not the sort of thing that people face in England.

The First Minister: To go back to the first point, I maintain what I said earlier. Perhaps you did not listen carefully enough. There are 22 local health boards, but there are not 22 bloated bureaucracies, because the LHBs are brigaded into three regional offices. As regards bone densitometry waiting lists at Singleton, I am not in position to comment about the letter that you have. If you pass it on to Brian Gibbons or me, I will make sure that you have an answer on that. It is true, in relation to a wait for scanners to provide information on bone density, that waiting lists for some forms of scanning in some areas of Wales and England are unacceptably long. We have to make a major investment in the training of staff and in the provision of different kinds of scanners to bring those waiting times down. Waiting list information for scanners has never been collected before, but will be collected in England from the end of 2008, and in Wales from the end of 2009, for the first time ever.

eisoes wedi digwydd. Ydyw, mae'n wir bod 22 o brif weithredwyr, ond nid oes 22 o systemau biwrocraidaidd i weinyddu'r BILlau. Mae'r swyddogaethau personél ac ariannol wedi eu huno'n dair swyddfa ranbarthol. Y mae hynny'n gwbl gall, ac yr ydym eisoes wedi gwneud llawer o'r hyn a argymhellir ganddo.

Nick Bourne: Y pwynt a wnaed ganddo yw bod gennym 22 o fiwrocraetiaethau blonegog yn hytrach na thair. Ni chytunaf â'ch dadansoddiad. Ei bwynt ef oedd bod gormod o fiwrocraetiaeth, ac nid wyf wedi eich clywed yn ymateb i'r rhan honno o'i ddadl. Gan fod gwasanaeth iechyd Lloegr yn ehangu yn awr yn gynt na gwasanaeth iechyd Cymru, dweud yr ydoedd y gallem ddisgwyl problemau i'r dyfodol.

Cyfeiriodd at amseroedd aros annerbyniol. Carwn eich cyfeirio at lythyr a dderbyniais y bore yma gan un o'm hetholwyr o Ystradgynlais, yn fy ardal, a dderbyniodd lythyr dros y Nadolig gan Ysbyty Singleton yn dweud bod gan yr ysbyty gyfnod aros o bedair blynedd am sgan dwysedd yr esgyrn. Oni chredwch fod hyn yn gwbl annerbyniol? Nid yw pobl yn Lloegr yn gorfod wynebu'r math hwn o beth.

Y Prif Weinidog: A dychwelyd at fy mhwynt cyntaf, yr wyf yn dal at yr hyn a ddywedais yn gynharach. Efallai na wnaethoch wrando'n ddigon astud. Mae 22 o fyrddau iechyd lleol, ond nid oes 22 biwrocraetiaeth flonegog, oherwydd y mae'r byrddau wedi'u cronni i dair swyddfa ranbarthol. O ran rhestrau aros am fesur dwysedd yr esgyrn yn Singleton, nid wyf yn gallu cyflwyno sylwadau ar y llythyr sydd yn eich meddiant. Os trosglwyddwch ef i Brian Gibbons neu i mi, gwnaf yn siŵr y cewch ateb ynghylch hynny. Mae'n wir, o ran aros am sganwyr i roi gwybodaeth am ddwysedd yr esgyrn, fod rhestrau aros am rai mathau o sganio mewn rhai rhannau o Gymru a Lloegr yn annerbyniol o hir. Rhaid inni wneud buddsoddiad mawr mewn hyfforddi staff ac mewn darparu gwahanol fathau o sganwyr i leihau'r amserau aros hynny. Nid aethpwyd ati erioed o'r blaen i gasglu gwybodaeth am restrau aros am sganwyr, ond fe'i cesglir yn Lloegr o ddiwedd 2008 ymlaen, ac yng Nghymru o ddiwedd 2009, a hynny am y tro

cyntaf erioed.

Nick Bourne: I appreciate the point about the First Minister not having seen this letter yet. It came in this morning and is on the way to you, First Minister, and the Minister for Health and Social Services. I will not name the constituent concerned, but with regard to the wait, she informs me in the letter that if she were prepared to go private, it would be two weeks. Does this not illustrate the problem that we have been highlighting time and again? People under your administration are being forced to go private, because they do not want to wait four years for a bone scan—they would much rather pay the money, and have it in two weeks' time.

The First Minister: Indeed, and in contrast to Conservative administrations, we are proposing a shift to a system from 2009—and clearly, there will have to be improvements before then—in which we will include the time a patient waits for scans and therapies in the total wait. There will be only one waiting list, which will include the wait for scanners, other diagnostic equipment or therapies. That will be a first. The Conservatives did not do that. It has not happened yet in England or Wales, but it will. I agree that we need to make major investments in MRI and PET scanners and other forms of scanning equipment so that we can cut down on the outrageously long waits for diagnostics.

Nick Bourne: It is cold comfort to the constituent concerned that you are about to include all these different ways of assessing the waiting list. What matters to her is getting treated. How you calculate the wait is not the issue. You should address that point, which is the one that I put to you. What comfort can you offer a constituent who is faced, under a Labour administration, with a four-year wait for a bone scan unless she goes privately?

The First Minister: Without the letter in front of me, I do not know what kind of scanner is involved, as I am not a medical professional. I appreciate that you did not have the chance to get the letter to me in time for me to be able to answer that question, but

Nick Bourne: Sylweddolaf nad yw'r Prif Weinidog wedi gweld y llythyr hwn eto. Daeth y bore yma ac mae ar ei ffordd atoch chi, Brif Weinidog, ac at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid enwaf yr etholwraig dan sylw, ond o ran yr aros, dywed wrthyf yn y llythyr mai pythefnos fyddai'r amser aros pe bai hi'n barod i fynd yn breifat. Onid yw hyn yn dangos y broblem yr ydym wedi bod yn ei phwysleisio dro ar ôl tro? Dan eich gweinyddiad chi caiff pobl eu gorfodi i fynd yn breifat, am nad oes arnynt eisiau aros am bedair blynedd am sgan ar yr esgyrn—byddai'n llawer gwell ganddynt dalu'r arian, a'i gael ymhen pythefnos.

Y Prif Weinidog: Felly'n wir, ac yn wahanol i weinyddiaethau Ceidwadol, yr ydym yn cynnig newid i system o 2009 ymlaen—ac yn amlwg, bydd yn rhaid cael gwelliannau cyn hynny—lle y byddwn yn cynnwys yr amser y mae claf yn aros am sganiau a therapïau yng nghyfanswm yr amser aros. Dim ond un rhestr aros fydd, a honno'n cynnwys yr aros am sganwyr, cyfarpar diagnostig arall neu therapïau. Bydd hynny'n gam arloesol. Ni wnaeth y Ceidwadwyr hynny. Nid yw wedi digwydd eto yng Nghymru na Lloegr, ond fe wnaiff. Cytunaf fod angen inni wneud buddsoddiadau mawr mewn sganwyr MRI a PET a mathau eraill o gyfarpar sganio er mwyn gallu lleihau'r amserau aros ofnadwy o hir am ddiagnosteg.

Nick Bourne: Nid yw'n fawr o gysur i'r etholwraig dan sylw eich bod yn bwriadu cynnwys yr holl wahanol ffyrdd hyn o asesu'r rhestr aros. Yr hyn sy'n bwysig iddi hi yw cael triniaeth. Nid sut y mesurir yr aros yw'r broblem. Dylech roi sylw i'r pwynt hwnnw, sef y pwynt a wneuthum i chi. Pa gysur y gallwch ei gynnig i etholwraig sydd, dan weinyddiaeth Lafur, yn wynebu aros am bedair blynedd am sgan esgyrn os nad aiff yn breifat?

Y Prif Weinidog: Heb y llythyr o'm blaen, ni wn pa fath o sganiwr sydd dan sylw, gan nad wyf yn weithiwr proffesiynol ym maes meddygaeth. Sylweddolaf na chawsoch y cyfle i roi'r llythyr i mi mewn pryd imi allu ateb y cwestiwn hwnnw, ond ni allaf ddweud

I cannot say whether a particular scanner is on the way to Singleton that will respond to that issue, because I have not seen the letter. A huge investment in MRI, PET and other forms of scanners is on its way in Wales, and that will enable us—and the same is true in England—to cut down the waiting list for diagnostics. It is very important, and the missing element in waiting list data. As it has been missing from the waiting list data, it has been neglected. It has been neglected in England and Wales, under the Conservatives and now, but that will not be the case shortly.

a oes sganiwr penodol ar ei ffordd i Singleton a wnaiff ateb y broblem honno, gan nad wyf wedi gweld y llythyr. Mae buddsoddiad enfawr mewn sganwyr MRI, PET ac eraill ar ddod yng Nghymru, a bydd hynny'n ein galluogi—ac mae'r un peth yn wir yn Lloegr—i gwtogi'r rhestr aros am ddiagnosteg. Mae hyn yn bwysig iawn, a dyma'r elfen goll yn y data ar restrau aros. Gan ei fod wedi bod yn elfen goll yn y data ar restrau aros, cafodd ei esgeuluso. Fe'i hesgeuluswyd yng Nghymru a Lloegr, dan y Ceidwadwyr ac yn awr, ond ni fydd hynny'n wir cyn bo hir.

Gwasanaethau'r GIG yn y Canolbarth a'r Gorllewin NHS Services in Mid and West Wales

Q3 Lisa Francis: Will the First Minister make a statement on the provision of NHS services in Mid and West Wales? OAQ1083(FM)

C3 Lisa Francis: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau'r GIG yn Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ1083(FM)

The First Minister: I will concentrate on dentistry. Measures taken to implement the personal dental services scheme are having a strongly positive impact on the provision of dental services in Mid and West Wales. Within the last few months, 45 PDS applications have been approved in that region, securing NHS dentistry for over 170,000 patients, and extra capacity for another 50,000.

Y Prif Weinidog: Canolbwyntiaf ar ddeintyddiaeth. Mae'r camau a gymerwyd i roi'r cynllun gwasanaethau deintyddol personol ar waith yn cael effaith bur gadarnhaol ar ddarpariaeth gwasanaethau deintyddol yn y canolbarth a'r gorllewin. Yn ystod y misoedd diwethaf, cymeradwywyd 45 gwasanaeth deintyddol personol yn y rhanbarth hwnnw, gan sicrhau deintyddiaeth y GIG i dros 170,000 o gleifion, a chapasiti ychwanegol i drin 50,000 ar ben hynny.

Lisa Francis: Given the broad nature of the question, I understand why you chose to pinpoint one subject. However, when Bronglais hospital in Aberystwyth cuts 16 of its surgical beds, as it proposes to do, what do you think will happen to patients on waiting lists for surgery there? Where do you suppose they will be sent, or will they be expected to wait longer? Bronglais District General Hospital serves three counties and a growing population within a radius of 30 miles. What guarantees can you offer that the current funding climate created by your Government will not result in more cuts to hospital services and that people in rural Wales will not be left bereft of vital medical services?

Lisa Francis: Yn wyneb natur eang y cwestiwn, deallaf pam y dewisasoch ganolbwyntio ar un pwnc. Fodd bynnag, pan fydd ysbyty Bronglais yn Aberystwyth yn cwtogi 16 o'i welyau llawfeddygol, fel y bwriada wneud, beth yn eich barn chi fydd yn digwydd i gleifion ar restrau aros am lawdriniaeth yn y fan honno? I ble y tybiwch y cânt eu hanfon, ynteu a fydd disgwyl iddynt aros mwy? Mae Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais yn gwasanaethu tair sir a phoblogaeth gynyddol o fewn cylch o 30 milltir. Pa warantau y gallwch eu cynnig na fydd yr hinsawdd ariannu gyfredol sy'n cael ei chreu gan eich Llywodraeth yn arwain at fwy o doriadau yng ngwasanaethau ysbytai ac na adewir pobl yng nghefn gwlad Cymru heb wasanaethau meddygol hanfodol?

2.20 p.m.

The First Minister: I am not aware of the proposal that you mention, and I am not sure at what stage of consultation such a proposed cut might be. We accept that the Bronglais catchment area, and the distance from Bronglais to the nearest district general hospital that is able to carry out a range of surgery, poses particular reasons for maintaining services at Bronglais, while accepting that the catchment area that it serves is not as large as the usual catchment area for district general hospitals. Therefore, it means that its case mix, and the management of a hospital such as Bronglais, is unusual because of the rural catchment area that it serves. However, there are strong reasons for maintaining services in that area because of the distance factor that you mentioned.

Elin Jones: Cyflwynir deiseb â dros 10,000 o enwau arni i Fwrdd Iechyd Lleol Ceredigion yfory yn gwrthwynebu cau gwelyau GIG yn ysbytai Tregaron ac Aberteifi. Mae Lisa Francis eisoes wedi sôn am fwrdd yr ymddiriedolaeth iechyd i gau hanner y ward llawdriniaethau ym Mronglais tan ddiwedd y flwyddyn ariannol, er bod 1,700 o bobl yn dal i ddisgwyl llawdriniaethau yng Ngheredigion yn unig, heb sôn am y ddau awdurdod lleol arall. Mae eich Llywodraeth ar record yn dweud bod yn rhaid i gwangos iechyd ddysgu ymdopi â'u setliad ariannol. Fodd bynnag, onid ydych yn barod i dderbyn mai, yn y pen draw, y cleifion, ac nid swyddogion ac aelodau byrddau'r cwangos iechyd hynny, sy'n gorfod ymdopi â'r sefyllfa ariannol honno?

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs. Fodd bynnag, ochr arall y geiniog honno yw nad yw'n dderbyniol bod awdurdodau iechyd sy'n ymdopi â'u cyllidebau yn traws-sybsideiddio y rhai nad ydynt yn ymdopi, a'u bod hwy wedyn yn dibynnu ar anghofio dyledion oherwydd bod yr awdurdodau lleol, neu'r byrddau a'r ymddiriedolaethau eraill, wedi llwyddo i ymdopi â'u cyllidebau. Dyna'r annhegwch pe baech yn dibynnu bob tro ar gael dyledion yn y gobaith y byddent yn cael eu hanghofio gan bobl eraill. Nid yw hynny'n dderbyniol ychwaith.

Kirsty Williams: There are currently 800

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn ymwybodol o'r bwriad y soniwch amdano, ac nid wyf yn siŵr ym mha gam o ran ymgynghori y gallai toriad arfaethedig o'r fath fod. Derbyniwn fod dalgylch Bronglais, a'r pellter o Fronglais i'r ysbyty cyffredinol dosbarth agosaf a all gyflawni amrediad o lawfeddygaeth, yn cynnig rhesymau arbennig dros gynnal gwasanaethau ym Mronglais, gan dderbyn nad yw'r dalgylch a wasanaetha mor fawr â'r dalgylch arferol i ysbytai cyffredinol dosbarth. Felly, golyga hyn fod ei gymysgedd achosion, a rheolaeth ysbyty fel Bronglais, yn anarferol oherwydd y dalgylch gwledig a wasanaethir ganddo. Fodd bynnag, mae rhesymau cryf dros gynnal gwasanaethau yn yr ardal honno oherwydd ffactor y pellter a grybwyllwyd gennyh.

Elin Jones: A petition with in excess of 10,000 signatures is being presented to Ceredigion Local Health Board tomorrow, objecting to the closure of NHS beds at Tregaron and Cardigan hospitals. Lisa Francis has already mentioned the health trust's intention to close half the surgical ward in Bronglais until the end of the financial year, although 1,700 people are still awaiting surgery in Ceredigion alone, never mind the other two authorities. Your Government is on record as saying that health quangos must learn to live within their financial settlement. However, are you not willing to accept that, ultimately, it is the patients, and not the officials and the members of those health quango boards, who must cope with that financial position?

The First Minister: Of course. However, the other side of that coin is that it is not acceptable that health authorities that live within their budgets cross-subsidise those that fail to do so, and that they then depend on those debts being written off because the local authorities, or the other boards and trusts, have succeeded in living within their budgets. That would be the unfairness if you always depended on having debts, in the hope that they would be written off by others in the future. That is not acceptable either.

Kirsty Williams: Ar hyn o bryd mae 800 o

children on the case loads of speech therapists in south Powys, and there are currently 2.4 speech therapists to manage that case load; from 31 March, that will drop to 1.4. Two senior posts have remained unadvertised in Powys for the last 11 months. Is this an appropriate situation, and, in the absence of the Minister for Health and Social Services from the Chamber this afternoon, will you undertake to investigate the situation with Powys Local Health Board, and ensure that those children who are waiting for speech therapy sessions receive them?

The First Minister: This is a reversion to the question that I answered earlier to Nick Bourne. Therapies and diagnostics are the forgotten areas of the NHS, because they have always been omitted from waiting list data in England and Wales under Conservative and Labour administrations, until the switch over in 2008-09. Waiting lists for therapies—physiotherapists, speech therapy, and so on—and likewise for diagnostics, have tended to become the cinderellas of the service. It should not be like that. Therefore, I will answer your question in the way that you suggest.

Argaeledd Gwasanaethau Trydyddol yn y De Availability of Tertiary Services in South Wales

C4 David Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd gwasanaethau trydyddol yn y de? OAQ1099(FM)

Y Prif Weinidog: Dyddiad cau'r broses ymgynghori ar ein dogfen, 'Building local, safe and sustainable services for Mid and West Wales: The Case for Change', oedd 31 Rhagfyr 2005, er bod ambell i achos neu ddigwyddiad arall y mis hwn. Mae'r ddogfen honno yn gosod, i bawb weld, ddyfodol clir a diogel i Abertawe fel canolfan sy'n darparu gwasanaethau trydyddol ar gyfer gorllewin a chanolbarth Cymru.

David Lloyd: Gan fod Abertawe wedi colli'i huned lawdriniaeth niwrolegol i blant, beth ydych yn ei wneud i sicrhau y caiff chwarae teg yn yr adolygiad presennol ar ddyfodol gwasanaethau niwrolegol yn ne Cymru?

blant ar lwyth achosion therapyddion lleferydd yn ne Powys, ac ar hyn o bryd mae 2.4 o therapyddion lleferydd ar gael i ymdrin â'r llwyth achosion hwnnw; o 31 Mawrth, bydd hynny'n cwmpo i 1.4. Mae dwy swydd uwch heb eu hysbysebu ym Mhowys ers 11 mis bellach. A ydyw hyn yn sefyllfa briodol, ac, yn absenoldeb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'r Siambr y prynhawn yma, a wneuch ymrwymo i ymchwilio i'r sefyllfa gyda Bwrdd Iechyd Lleol Powys, a sicrhau sesiynau therapi lleferydd i'r plant hynny sydd yn disgwyl amdanynt?

Y Prif Weinidog: Dyma ni'n ôl gyda chwestiwn Nick Bourne a atebais yn gynharach. Therapiau a diagnosteg yw meysydd anghofiedig y GIG, oherwydd y maent wastad wedi cael eu hepgor o ddata rhestrau aros yng Nghymru a Lloegr dan weinyddiaethau Ceidwadol a Llafur, nes ceir y newid drosodd yn 2008-09. Mae rhestrau aros am therapiau—ffisiotherapi, therapi lleferydd, ac yn y blaen—a'r un modd o ran diagnosteg, wedi tueddu i gael eu trin yn eilradd yn y gwasanaeth. Nid felly y dylai fod. Felly, fe atebaf eich cwestiwn yn y modd a awgrymir gennych.

Q4 David Lloyd: Will the First Minister make a statement on the availability of tertiary services in south Wales? OAQ1099(FM)

The First Minister: The closing date for the consultation process on our document, 'Building local, safe and sustainable services for Mid and West Wales: The Case for Change', was 31 December 2005, although there were a few other cases or events this month. That document sets in place, for everyone to see, a clear and secure future for Swansea as the centre providing tertiary services for mid and west Wales.

David Lloyd: Given that Swansea has lost its paediatric neurological treatment unit, what are you doing to ensure that it gets fair play in the current review of the future of neurological services in south Wales?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn siarad am degwch i'r cleifion, sef tegwch ynglŷn â'r lle gorau i fuddsoddi mewn moderneiddio gwasanaethau i drin cleifion. Yn yr ystyr hwnnw, mae tegwch yn golygu darparu'r gwasanaeth gorau am yr arian gorau y gallwch ei fuddsoddi yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys Abertawe, Caerdydd ac ysbytai eraill ger Abertawe.

Val Lloyd: Swansea has always provided services to south-west Wales, and I am confident that through 'The Case for Change' and 'Designed for Life', we will be able to build on and strengthen Swansea's role as a centre of regional excellence. The £27 million allocated to tertiary services, under the current capital programme, will provide funding for new resources and the extension of current services. I want assurance, First Minister, in light of current reviews into tertiary services, such as neurosciences, thoracic and burns, that we end up with a holistic and responsive service, not a patchwork across south Wales.

The First Minister: I am glad that you mentioned the £27 million proposed to be spent in capital investment on tertiary services in Swansea. That underpins the clear and secure future for Swansea as a provider of tertiary services, which we mentioned earlier, in addition to the new clinical school at the university, which underpins it, and the £50 million investment in the university's Institute of Life Science, which will work closely with the new clinical school and the health board. The future looks good. You cannot specify that every single element will definitely be in Swansea, but the broad future in terms of big sums of money—millions of pounds—being spent in the Swansea area on specialist and tertiary services is certainly there. That is our commitment.

Jonathan Morgan: The review that was commissioned and published in 2002, looking at tertiary services for children, called upon the Assembly Government to take specific actions. Two of those actions were to reduce the waiting time for specialised children's services to below 12 months and out-patient assessment to below

The First Minister: We are talking about fairness for patients, namely equity in terms of the best place to invest in modernising services to treat patients. In that sense, equity means providing the best services for the best value for money that can be invested in the national health service in Wales. That includes Swansea, Cardiff and other hospitals near Swansea.

Val Lloyd: Mae Abertawe wedi darparu gwasanaethau i'r de-orllewin erioed, ac yr wyf yn hyderus y gallwn, drwy 'The Case for Change' a 'Cynllun Oes', ddatblygu a chryfhau rôl Abertawe fel canolfan ragoriaeth ranbarthol. Bydd y £27 miliwn a ddyrannwyd i wasanaethau trydyddol, dan y rhaglen gyfalaf gyfredol, yn darparu cyllid ar gyfer adnoddau newydd ac ymestyn gwasanaethau cyfredol. Mae arnaf eisiau sicrwydd, Brif Weinidog, yng ngoleuni adolygiadau cyfredol ar wasanaethau trydyddol, megis niwrowyddorau, thorasig a llosgiadau, y cawn yn y diwedd wasanaeth holistig ac ymatebol, nid clytwaith ar draws y de.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn falch ichi sôn am y £27 miliwn y bwriedir ei wario mewn buddsoddiad cyfalaf ar wasanaethau trydyddol yn Abertawe. Mae hynny'n sicrhau'r dyfodol clir a diogel i Abertawe fel darparwr gwasanaethau trydyddol, y soniasom amdano'n gynharach, ynghyd â'r ysgol glinigol newydd yn y brifysgol, sy'n sail i hynny, a'r buddsoddiad o £50 miliwn yn Sefydliad Gwyddor Bywyd y brifysgol, a fydd yn cydweithio'n agos â'r ysgol glinigol newydd a'r bwrdd iechyd. Mae'r dyfodol yn edrych yn dda. Ni allwch fynnu y bydd pob un elfen yn bendant yn Abertawe, ond mae'r dyfodol cyffredinol, o ran gwario symiau mawr o arian—miliynau o bunnoedd—yn ardal Abertawe ar wasanaethau arbenigol a thrydyddol, yn bod yn sicr. Mae hynny'n ymrwymiad gennym.

Jonathan Morgan: Yn yr adolygiad a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd yn 2002, sy'n edrych ar wasanaethau trydyddol i blant, galwyd ar Lywodraeth y Cynulliad i weithredu camau penodol. Dau o'r camau hynny oedd lleihau'r amser aros am wasanaethau plant arbenigol i lai na 12 mis ac am asesiadau cleifion allanol i lai na 18

18 months by March 2003. Did the Government accept those recommendations at the time, and if so, were those targets met?

The First Minister: I cannot answer that, but I will write to you or ensure that Brian Gibbons writes to you on those very points.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): I will ask you about the decisions that have been taken on a daily basis by cancer specialists in Wales who are seeking to use the latest form of cancer drugs. Many families face agonising choices as to whether to use alternative treatments or to accept the price of paying privately for these cancer drugs. Do you agree that, in considering which drugs to make available to patients, the Welsh NHS should look beyond the price tag on the pill box? Should you not ensure that a range of factors are considered, such as the effect on families and patients, the impact on the drugs budget and the wider impact on other health services in general? Should we not be taking a much broader approach with regard to these life-saving drugs that are so difficult for our cancer specialists to get hold of?

The First Minister: I am glad that you raised that issue. I have been told that the arrival of Herceptin is the forerunner to a whole family of drugs. They will be the best drugs for the past 20 or 30 years in terms of efficacy of treatment with regard to dealing with life-threatening conditions such as cancer. They will all have the same character as Herceptin, in that they will be exceptionally effective compared with other new drugs over the past 20 years. These drugs are very expensive, but extremely effective, so we will all want them for family members or for ourselves. This is a big change and a big breakthrough. People are very worked up about how long it takes for the National Institute for Clinical Excellence to approve these drugs; we do not, in any way, discourage any local health board that believes it justifiable, even in advance of NICE's approval, to say 'yes, we want to approve the treatment of this patient with this new wonder drug'—Herceptin can be

mis erbyn mis Mawrth 2003. A dderbyniodd y llywodraeth yr argymhellion hynny ar y pryd, ac os gwnaeth hynny, a gyrhaeddwyd y targedau hynny?

Y Prif Weinidog: Ni allaf ateb hynny, ond fe ysgrifennaf atoch neu sicrhaf fod Brian Gibbons yn ysgrifennu atoch ynglŷn â'r union bwyntiau hynny.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Fe'ch holaf am y penderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn ddyddiol gan arbenigwyr cancr yng Nghymru sydd yn ceisio defnyddio'r ffurf ddiweddaraf ar gyffuriau cancr. Mae llawer o deuluoedd yn wynebu penderfyniadau dirdynnol ynghylch a ydynt am ddefnyddio triniaethau amgen ynteu derbyn pris talu'n breifat am y cyffuriau cancr hyn. A ydych yn cytuno y dylai GIG Cymru, wrth ystyried pa gyffuriau i'w darparu i gleifion, edrych ar bethau heblaw'r pris ar y blwch tabledi? Oni ddylech sicrhau bod amrediad o ffactorau'n cael eu hystyried, megis yr effaith ar deuluoedd a chleifion, yr effaith ar y gyllideb gyffuriau a'r effaith ehangach ar wasanaethau iechyd eraill yn gyffredinol? Oni ddylem gymryd golwg lawer ehangach ar y cyffuriau achub bywyd hyn sydd mor anodd i'n harbenigwyr cancr gael gafael arnynt?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn falch eich bod wedi codi'r cwestiwn hwnnw. Dywedwyd wrthyf fod dyfodiad Herceptin yn rhagflaenydd i deulu cyfan o gyffuriau. Y rhain fydd y cyffuriau gorau ers 20 neu 30 mlynedd o ran effeithiolrwydd triniaeth i ddelio â chyflyrau sy'n bygwth einioes, fel cancr. Byddant ganddynt oll yr un rhinwedd â Herceptin, sef y byddant yn eithriadol o effeithiol o'u cymharu â chyffuriau newydd eraill dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'r cyffuriau hyn yn ddrud iawn, ond yn eithriadol o effeithiol, felly bydd ar bawb ohonom eu heisiau i aelodau'n teulu neu i ni'n hunain. Mae hyn yn newid mawr ac yn ddatblygiad allweddol. Mae pobl yn cynhyrfu'n fawr ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol gymeradwyo'r cyffuriau hyn; nid ydym, mewn modd yn y byd, yn peidio â chefnogi unrhyw fwrdd iechyd lleol sy'n credu bod cyfiawnhad, hyd yn oed cyn

properly described as a wonder drug. However, inevitably, specialists or other health professionals will sometimes say that particular patients or particular types of tumour are not susceptible to particular drugs, and it is very difficult to get involved in those complex, clinical judgments.

cael cymeradwyaeth y sefydliad cenedlaethol, dros ddweud 'oes, mae arnom eisiau cymeradwyo trin y claf hwn gyda'r cyffur gwyrthiol hwn'—gellir disgrifio Herceptin yn briodol fel cyffur gwyrthiol. Fodd bynnag, yn anochel, bydd arbenigwyr neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill yn dweud weithiau nad yw cleifion penodol neu fathau penodol o diwmor yn ymateb i gyffuriau penodol, ac mae'n anodd iawn cyfrannu at ddadleuon cymhleth, clinigol fel y rheini.

2.30 p.m.

Michael German: What the specialists at Velindre NHS Trust will tell you is that they have patients to whom they would like to prescribe these specialist wonder drugs, as you call them, but that they do not have the money to do so. I was asking you about the price on the pill box. In effect, people are having an opportunity to have these specialist drugs—not just Herceptin, because that is one of four drugs that I think are being discussed by the Velindre NHS Trust—but their cost is quite large. What analysis have you done, First Minister, of costs relating to the effect and the wider impact upon the NHS and upon families of patients who have to be treated on the NHS? Are you taking those costs into account when making those decisions? Perhaps the issue of speed is only one of the two issues that we have to address.

Michael German: Yr hyn a ddywed arbenigwyr Ymddiriedolaeth GIG Felindre wrthyhych yw bod ganddynt gleifion yr hoffent roi'r cyffuriau gwyrthiol arbenigol hyn, fel y'u gelwch, iddynt ar bresgripsiwn ond nad oes ganddynt yr arian i wneud hynny. Yr oeddwn yn eich holi ynghylch y pris ar y blwch tabledi. Mewn gwirionedd, mae pobl yn cael cyfle i gael y cyffuriau arbenigol hyn—nid Herceptin yn unig, oherwydd bod hwn yn un o bedwar cyffur y credaf fod Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn eu trafod—ond mae eu cost yn eithaf uchel. Pa ddadansoddiad a wnaethpwyd gennych, Brif Weinidog, o'r costau mewn perthynas â'r effaith a'r canlyniad ehangach ar y GIG ac ar deuluoedd cleifion y mae'n rhaid eu trin dan y GIG? A ydych yn rhoi ystyriaeth i'r costau hynny wrth wneud y penderfyniadau hynny? Mae'n bosibl mai un yn unig o blith dau fater y mae'n rhaid inni roi sylw iddynt yw cyflymdra.

The First Minister: I think that the approval process is at the heart of this, Mike, and you are mistaken if you think that the approval process via NICE and the all-Wales medicines strategy group does not come into it. However, as I said, it is perfectly possible—even in advance of NICE's approval or the all-Wales medicines strategy group's approval or issuing of guidance—to approve the use of a particular drug for a patient where the consultant says, 'That is the life-saving drug that will deal with the tumour that this particular patient is experiencing, and I want to use it'. They are allowed to use it if the local health board agrees. So, I think that this relates to the approval process rather than the price on the

Y Prif Weinidog: Credaf fod y broses gymeradwyo yn ganolog yn hyn, Mike, ac yr ydych yn anghywir os credwch nad oes gan y broses gymeradwyo drwy gyfrwng NICE a'r grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan ran yn hyn. Fodd bynnag, fel y dywedais, mae'n berffaith bosibl—hyd yn oed cyn cael cymeradwyaeth NICE na chymeradwyaeth grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan na chyn cyflwyno canllawiau—cymeradwyo defnyddio cyffur penodol ar gyfer claf os dywed yr ymgynghorydd, 'Hwn yw'r cyffur i achub bywyd a fydd yn delio â'r tiwmor y mae'r claf penodol hwn yn dioddef ganddo, ac mae arnaf eisiau ei ddefnyddio'. Caniateir iddynt ei ddefnyddio os cytuna'r bwrdd

pill box, as you put it.

If you have a particular case that you want to refer to, you could write to Brian about it. You mentioned the consultants at Velindre, and it was the consultants at Velindre who made the very points that I made earlier about Herceptin and about the family of drugs that will follow on from Herceptin that are of a similar life-saving wonder-drug character. They were the ones who told me exactly what I said to the Assembly five minutes ago.

Michael German: I was asking you specifically about the funding, because that is the issue. If the time period is shortened, and if you find a way of shortening the time period, that will be all well and good, but, in the end, these drugs are very expensive. Can you tell me what account you have taken of the court case in England on the use of Herceptin? What impact will that have on the prescription of these drugs in Wales, and what effect will that have on the health budget of the National Assembly?

The First Minister: No, I cannot answer that question. However, we can be agreed that we appear to have on our hands—in the case of Herceptin, already, and in the case of the versions of Herceptin that will deal with cancers other than breast cancer, probably over the next 10, 15 or 20 years—a whole family of wonder drugs of that nature, which will be expensive and effective in a way that we have never seen before. This will pose new problems, which we will have to address.

iechyd lleol. Felly, credaf fod hyn yn ymwneud â'r broses gymeradwyo yn hytrach na'r pris ar y blwch tabledi, ys dywedwch.

Os oes gennych achos penodol yr hoffech gyfeirio ato, gallech ysgrifennu at Brian yn ei gylch. Crybwyllasoch yr ymgynghorwyr yn Felindre, a'r ymgynghorwyr yn Felindre a wnaeth yr union bwyntiau a wneuthum yn gynharach am Herceptin ac am y teulu o gyffuriau a fydd yn dilyn Herceptin ac sydd â'r un nodwedd o ran bod yn gyffur gwyrthiol sy'n achub bywydau. Hwyl a oedd y rhai a ddywedodd wrthyf yn union yr hyn a ddywedais wrth y Cynulliad bum munud yn ôl.

Michael German: Yr oeddwn yn eich holi yn benodol ynghylch y cyllid, oherwydd hynny yw'r broblem. Os cwtogir ar y cyfnod, ac os canfyddwch ffordd o fyrhau'r amser, gorau oll, ond, yn y diwedd, mae'r cyffuriau hyn yn ddrud iawn. A allwch ddweud wrthyf i ba raddau yr ydych wedi ystyried yr achos llys yn Lloegr ar ddefnyddio Herceptin? Pa effaith a gaiff hynny ar roi'r cyffuriau hyn ar bresgripsiwn yng Nghymru, a pha effaith a gaiff hynny ar gyllideb iechyd y Cynulliad Cenedlaethol?

Y Prif Weinidog: Na allaf, ni allaf ateb y cwestiwn hwnnw. Serch hynny, gallwn fod yn gytûn bod gennym, i bob golwg—yn achos Herceptin, eisoes, ac yn achos y fersiynau o Herceptin a fydd yn delio â chanser heblaw canser y fron, dros y 10, 15 neu 20 mlynedd nesaf mae'n debygol—deulu cyflawn o gyffuriau gwyrthiol o'r natur honno, cyffuriau a fydd yn ddrud ac yn effeithiol mewn modd nas gwelsom erioed o'r blaen. Bydd hyn yn peri problemau newydd y bydd yn rhaid inni roi sylw iddynt.

Rôl Canolfannau Cyngor Ar Bopeth Role of Citizens Advice Bureaux

Q5 Peter Black: Will the First Minister make a statement on the role of citizens advice bureaux? OAQ1105(FM)

The First Minister: Citizens advice bureaux provide a valuable service to the people of Wales. However, their funding is not devolved, and responsibility for this belongs to the Department of Trade and Industry, as it

C5 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl canolfannau cyngor ar bopeth? OAQ1105(FM)

Y Prif Weinidog: Mae'r canolfannau cyngor ar bopeth yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i bobl Cymru. Fodd bynnag, nid yw eu cyllid yn ddatganoledig, ac mae'r cyfrifoldeb dros hyn yn perthyn i'r Adran Masnach a

is seen as part of consumer protection, which is not a devolved issue, although there is additional support for them from local authorities, which are the trading standards bodies. The Legal Services Commission also provides support to bureaux for franchised legal services.

Peter Black: You say that funding for citizens advice bureaux is not devolved, but you seem to be confusing the funding for the central Citizens Advice support service and individual CABx, which are independent charities and which receive 36 per cent of their funding from local authorities. Given that local authorities provide funding for these services, which is, therefore, a devolved service, do you not think that, in pursuit of your Government's agenda on social inclusion, it would assist them tremendously if you could provide some core funding to citizens advice bureaux, so that they can help many more people who cannot access their services currently?

The First Minister: Perhaps I did not explain myself quite well enough for you to grasp what I was saying about the relationship with the local authorities. Clearly, trading standards is a local government function, but it is a local government function that flows through to DTI responsibilities for consumer protection, which is not devolved. We have an interest in trying to ensure that there is a seamless network of CABx available all over Wales. You are right about the position of bureau volunteers and the small number of paid staff who provide the core services and training, and about the charitable nature of CABx. However, the issue is that it is not a devolved function. The same problem arises as regards police. Some funding via the revenue support grant will finish up in trading standards areas of local government. Nevertheless, the broad thrust of what I said—namely that this is not a devolved function—remains the case.

Diwydiant, oherwydd fe'u hystyrir yn rhan o warchod defnyddwyr, sef mater nad yw'n ddatganoledig, er y ceir cymorth ychwanegol iddynt oddi wrth awdurdodau lleol, sef y cyrff safonau masnach. Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd yn darparu cymorth i'r canolfannau ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol breiniol.

Peter Black: Dywedwch nad yw'r cyllid ar gyfer y canolfannau cyngor ar bopeth yn ddatganoledig, ond mae'n ymddangos eich bod yn drysu rhwng y cyllid ar gyfer gwasanaeth cefnogi canolog Cyngor Ar Bopeth a'r canolfannau cyngor ar bopeth unigol, sy'n elusennau annibynnol ac sy'n cael 36 y cant o'u cyllid oddi wrth awdurdodau lleol. O ystyried bod awdurdodau lleol yn darparu cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn, gwasanaeth sydd, felly, yn ddatganoledig, onid ydych yn meddwl y byddai o gymorth mawr iddynt, wrth ddilyn agenda eich Llywodraeth ar gynhwysiant cymdeithasol, pe gallech ddarparu rhyw gymaint o gyllid craidd i'r canolfannau cyngor ar bopeth, fel y gallant gynorthwyo llawer mwy o bobl sydd yn methu â chael gafael ar eu gwasanaethau ar hyn o bryd?

Y Prif Weinidog: Efallai nad esboniais fy hun yn ddigon da ichi amgyffred yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud am y berthynas gyda'r awdurdodau lleol. Yn amlwg, mae safonau masnach yn un o swyddogaethau llywodraeth leol, ond mae'n un o'r swyddogaethau gan lywodraeth leol sydd ynghlwm wrth gyfrifoldebau'r Adran Masnach a Diwydiant dros warchod defnyddwyr, sef mater nad yw'n ddatganoledig. Mae gennym ddi-ddordeb mewn ceisio sicrhau bod rhwydwaith di-dor o ganolfannau cyngor ar bopeth ym mhob cwr o Gymru. Yr ydych yn iawn ynghylch sefyllfa gwirfoddolwyr y canolfannau a'r nifer fach o staff cyflogedig sy'n darparu'r gwasanaethau craidd a'r hyfforddiant, ac am natur elusennol y canolfannau cyngor ar bopeth. Serch hynny, y pwynt yw nad yw'n swyddogaeth ddatganoledig. Cyfyd yr un broblem o safbwynt yr heddlu. Bydd rhyw gymaint o'r cyllid drwy gyfrwng y grant cynnal refeniw yn cyrraedd meysydd safonau masnach llywodraeth leol. Serch hynny, at ei gilydd mae byrdwn yr hyn a ddywedais—sef nad swyddogaeth ddatganoledig yw hyn—yn dal yn wir.

Mark Isherwood: Will you join me in congratulating Flintshire citizens advice bureau on the opening of its new offices in Connah's Quay last month? How do you respond to the major issues that it raised at its annual general meeting, which followed the opening, with regard to dialogue with the UK Treasury? One of the key issues that it raised concerned tax credits. Evidence in its AGM documents show that tax credits are not working effectively for many of the people who rely most heavily on that additional income, and that they cause disproportionate levels of concern among their client base and their advisers and volunteers.

Mark Isherwood: A wnewch ymuno â mi i longyfarch canolfan cyngor ar bopeth sir y Fflint ar agor ei swyddfeydd newydd yng Nghei Conna fis diwethaf? Sut yr ydych yn ymateb i'r materion pwysig a gododd yn ei chyfarfod cyffredinol blynyddol, a gynhaliwyd ar ôl yr agoriad, ynglŷn â deialog gyda Thrysorlys y DU? Yr oedd un o'r materion allweddol a gododd yn ymwneud â chredydau treth. Mae tystiolaeth yn nogfennau ei chyfarfod cyffredinol blynyddol yn dangos nad yw credydau treth yn gweithio'n effeithiol i nifer o'r bobl sydd fwyaf dibynnol ar yr incwm ychwanegol hwn, a'u bod yn achosi lefelau anghymesur o bryder ymysg eu sylfaen gleientiaid a'u cynghorwyr a'u gwirfoddolwyr.

The First Minister: I have no reason to disagree with its conclusions on the administration of tax credits causing problems. When a person's wage changes, so does his or her tax credit position. Debt can arise from that, and if that happens, the best thing for people to do is often to go to a citizens advice bureau for assistance in sorting out their tax credit position and any debt that has arisen.

Y Prif Weinidog: Nid oes gennyf ddim rheswm dros anghytuno â'i chasgliadau bod trefn weinyddu'r credydau treth yn achosi problemau. Pan fydd cyflog rhywun yn newid, felly hefyd ei sefyllfa o safbwynt credyd treth. Gall dyledion godi yn sgîl hynny, ac os digwydd hynny, y peth gorau i bobl ei wneud yn aml yw mynd i ganolfan cyngor ar bopeth am gymorth i roi trefn ar eu sefyllfa o safbwynt credyd treth ac unrhyw ddyled sydd wedi codi.

Defnydd Effeithiol o Ynni mewn Cartrefi yng Nghymru The Efficient use of Energy in Homes in Wales

Q6 Sandy Mewies: What is the Welsh Assembly Government doing to promote the efficient use of energy in homes in Wales? OAQ1094(FM)

C6 Sandy Mewies: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo defnydd effeithiol o ynni mewn cartrefi yng Nghymru? OAQ1094(FM)

The First Minister: The home energy efficiency scheme is our main vehicle for lifting households out of fuel poverty, and more than 55,000 households have already benefited. In the recent budget, we announced an additional £5 million for both 2006-07 and 2007-08 to extend the HEES scheme. That will provide greater assistance for energy efficiency measures in pensioner households across Wales.

Y Prif Weinidog: Y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yw ein prif gyfrwng ar gyfer codi aelwydydd allan o dlodi tanwydd, ac mae dros 55,000 o aelwydydd eisoes wedi elwa. Yn y gyllideb ddiweddar, cyhoeddwyd £5 miliwn yn ychwanegol ar gyfer 2006-07 a 2007-08 i ymestyn y cynllun HEES. Bydd hyn yn rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni yn aelwydydd pensïynwyr ledled Cymru.

Sandy Mewies: The Assembly is carrying out several very good initiatives, and the utility companies have schemes in place. Last week, I was invited to the home of a constituent in Flint who was taking advantage

Sandy Mewies: Mae'r Cynulliad yn cynnal nifer o gynlluniau da iawn, ac mae gan y cwmnïau cyfleustodau gynlluniau ar waith. Yr wythnos diwethaf, cefais wahoddiad i gartref un o'm hetholwyr yn y Fflint, a oedd yn

of a new home insulation scheme called Flint-sulate run by Flintshire County Council and Scottish Power. It can provide people with cavity wall and loft insulation at special discount prices. The resident that I met was thoroughly enjoying the benefits to her home.

There are a number of schemes available to home owners—some for council tenants, some for private home owners, some for people on benefits and some for those who are not—so what efforts are we making to ensure that the public is aware of what is available to it and so that the money is clearly targeted and focused and does not overlap?

The First Minister: I agree that there needs to be an active scheme of promotion. That might be through the citizens advice bureaux, or we as backbench Assembly Members in our constituencies and regions could ensure that people are aware of what is available for them. The scheme is very extensive, and it will get bigger because of the additional £5 million for the next two financial years, starting on 1 April 2006. We want to ensure that no-one is left out of the system. The scheme is not only for pensioners, although the new £5 million allocation in each of the next two financial years is for pensioner households. However, other systems provide coverage of social housing for non-pensioner households.

Most households could probably save 20 per cent on their heating bills with a modest investment in cavity wall insulation and draft-proofing, which is what the scheme in Flint that you mentioned does. There are also more expensive schemes that involve buying—possibly in a subsidised way—new central heating boilers that are far more efficient than the old ones.

Alun Cairns: Initiatives such as those that you mentioned in response to Sandy Mewies are undoubtedly useful and play an important part in reducing energy and heating costs in people's homes. However, what specific action do you propose to take in rural areas,

manteisio ar gynllun newydd i inswleiddio'r cartref, cynllun o'r enw Flint-sulate a gynhelir gan Gyngor Sir y Fflint a Scottish Power. Gall roi i bobl gyfle i inswleiddio'r atig a'r waliau ceudod am brisiau disgownt arbennig. Yr oedd y preswlydd y cyfarfûm â hi yn mwynhau'r manteision i'w chartref yn fawr.

Mae nifer o gynlluniau ar gael i berchenogion tai—rhaid i denantiaid y cyngor, rhaid i berchenogion tai preifat, rhaid i bobl ar fudd-daliadau a rhaid i'r rhai nad ydynt—felly pa ymdrechion a wnawn i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt ac fel bod ffocws pendant i'r arian a'i fod yn cael ei dargedu'n bendant ac nad ydyw'n gorgyffwrdd?

Y Prif Weinidog: Cytunaf fod angen cael cynllun i fynd ati i hyrwyddo. Gallai hynny fod drwy gyfrwng y canolfannau cyngor ar bopeth, neu gallem ni fel Aelodau Cynulliad y meinciau cefn yn ein hetholaethau ac yn ein rhanbarthau sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt. Mae'r cynllun yn helaeth iawn, a bydd yn cynyddu oherwydd y £5 miliwn ychwanegol a ryddhawyd ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol nesaf, gan ddechrau ar 1 Ebrill 2006. Mae arnom eisiau sicrhau nad oes neb yn cael ei hepgor o'r system. Nid ar gyfer pensiywyr yn unig y mae'r cynllun, er mai ar gyfer aelwydydd pensiywyr y mae'r dyraniad newydd o £5 miliwn a geir yn y ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, mae systemau eraill yn darparu ar gyfer aelwydydd tai cymdeithasol ac aelwydydd nad ydynt yn aelwydydd pensiywyr.

Mae'n bosibl y gallai'r rhan fwyaf o aelwydydd arbed 20 y cant ar eu biliau gwresogi gyda buddsoddiad gweddol fach i inswleiddio wal geudod ac atal drafft, sef yr hyn a wna'r cynllun yn y Fflint y soniasoch amdano. Ceir hefyd gynlluniau drutach sy'n golygu prynu bwyleri gwres canolog newydd—gyda chymorthdaliadau o bosibl—sy'n llawer mwy effeithlon na'r hen rai.

Alun Cairns: Mae cynlluniau megis y rhai a grybwyllasoch mewn ymateb i Sandy Mewies heb amheuaeth yn ddefnyddiol a chwaraeant ran bwysig i ostwng costau ynni a gwresogi yng nghartrefi pobl. Fodd bynnag, pa gamau penodol y bwriadwch eu cymryd

many of which depend on kerosene, given recent increases in oil prices? Recently, I was contacted by a constituent whose 10-monthly bill for filling the oil tank is normally in the region of £800. The bill this year is almost £2,000 for the same amount of oil. Clearly, such people need extra support.

The First Minister: I declare an interest because I am in that position. If the price of crude oil goes up, as it has done, from, say, \$30 a barrel to \$50 a barrel, there will be a direct effect on the price of kerosene, as you described. We cannot affect the way that the oil market works; that would be insane, but we can try to ensure that people save as much as possible on their heating bills. I recall the period when the price of oil rose from \$2.50 a barrel in July 1973, to \$30 a barrel in 1979-80.

2.40 p.m.

That was an increase by a factor of 12, which made people very conscious of the need for draught proofing and fuel efficiency, and the need to switch boilers off and turn thermostats down. If you compare that figure of \$30 a barrel with today's \$50 or \$60 a barrel, taking into account the higher wages, oil was much more expensive between 1980 and 1986—when the price of oil came back down again—than it is today. We got lazy and complacent, and we have to become just as fuel efficient and conscious of energy efficiency as we were during that period, driven by that extraordinary hike in prices between 1973 and 1980.

Mick Bates: It is difficult to disagree with what you just said, however, do you agree that we will never make real progress on energy efficiency in homes until the Assembly has power over building regulations, so that we can force new buildings, at least, to be built to a much higher standard, without recourse to piecemeal and often confusing schemes, which are not well taken up?

mewn ardaloedd gwledig, gyda llawer o'r ardaloedd hynny'n ddibynnol ar gerosin, o ystyried y cynnydd diweddar ym mhrisiau olew? Yn ddiweddar, daeth un o'm hetholwyr i gysylltiad â mi, ac mae'r bil a gaiff bob 10 mis am lenwi'r tanc olew tuag £800 fel arfer. Mae'r bil eleni bron yn £2,000 am yr un faint o olew. Mae'n amlwg bod ar bobl o'r fath angen cymorth ychwanegol.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn datgan buddiant oherwydd yr wyf fi yn y sefyllfa honno. Os bydd pris olew crai yn codi, fel y mae wedi gwneud, o \$30 y baril, dyweder, i \$50 y baril, ceir effaith uniongyrchol ar bris cerosin, fel y'i disgrifiwyd gennych. Ni allwn effeithio ar y modd y mae'r farchnad olew yn gweithio; byddai hynny'n wallgof, ond gallwn geisio sicrhau bod pobl yn arbed cymaint â phosibl ar eu biliau gwresogi. Yr wyf yn cofio'r cyfnod pan gododd pris olew o \$2.50 y baril yng Ngorffennaf 1973, i \$30 y baril yn 1979-80.

Yr oedd hynny'n gynnydd deuddegplyg, a gwnaeth pobl yn ymwybodol iawn o'r angen i atal drafftiau ac o effeithlonrwydd tanwydd, a'r angen i ddiffodd bwyleri a throi thermostatau i lawr. Os cymharwch y ffigur hwnnw o \$30 y baril gyda phris heddiw o \$50 neu \$60 y baril, gan roi ystyriaeth i'r cyflogau uwch, yr oedd olew yn llawer iawn drutach rhwng 1980 a 1986—pan ddaeth pris olew i lawr drachefn—nag ydyw heddiw. Aethom yn ddiog ac yn hunanfodlon, a rhaid inni fod yr un mor effeithlon o ran tanwydd a'r un mor ymwybodol o effeithlonrwydd ynni ag a oeddem yn ystod y cyfnod hwnnw, rhywbeth a symbylwyd gan y codiad anghyffredin hwnnw mewn prisiau rhwng 1973 ac 1980.

Mick Bates: Mae'n anodd anghytuno â'r hyn a ddywedasoch yn awr, fodd bynnag, a gytnwch na wnawn fyth ddim cynnydd gwirioneddol gydag effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi nes bydd gan y Cynulliad rym dros reoliadau adeiladu, fel y gallwn orfodi adeiladau newydd, o leiaf, i gael eu hadeiladu yn unol â safon sydd lawer yn uwch, heb ddefnyddio cynlluniau tameidiog a dryslyd yn aml, nad oes nifer fawr yn manteisio arnynt?

The First Minister: Yes, I agree with that in principle. However, the biggest problem that we have in Wales is the huge number of houses that were built between 1870 and 1914. That period saw a rapid expansion of the Welsh economy from Blaenau Ffestiniog to Merthyr, including all the Valleys, Cardiff, Swansea and Newport and so on. A much larger proportion of the household stock in Wales was built in 1870 to 1914 and, in that period, there were no cavity walls, you rarely had any damp proofing and you certainly did not have insulated roofs. There is a huge problem of retrofitting the 1870-to-1914 period houses, of which we have such a vast stock in Wales.

Y Prif Weinidog: Ydwyf, yr wyf yn cytuno â hynny mewn egwyddor. Fodd bynnag, y broblem fwyaf sydd gennym yng Nghymru yw'r nifer aruthrol o dai a adeiladwyd rhwng 1870 a 1914. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd economi Cymru'n ehangu yn gyflym o Flaenau Ffestiniog i Ferthyr, gan gynnwys y Cymoedd, Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd ac yn y blaen. Adeiladwyd cyfran lawer mwy o'r stoc aelwydydd yng Nghymru rhwng 1870 ac 1914 ac, yn y cyfnod hwnnw, nid oedd dim waliau ceudod, anaml iawn y caech fesurau atal tamprwydd ac yn bendant nid oedd gennych doeau wedi eu hinswleiddio. Mae'n broblem aruthrol ôl-ffitio tai'r cyfnod rhwng 1870 a 1914, tai y mae gennym stoc mor helaeth ohonynt yng Nghymru.

Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Capital Investment Programme

C7 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y goblygiadau ar gyfer taliadau cyfalaf, a delir gan ymddiriedolaethau GIG, a fydd yn deillio o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf? OAQ1096(FM)

Q7 Rhodri Glyn Thomas: Will the First Minister make a statement on the implications for capital charges, paid by NHS trusts, resulting from the capital investment programme? OAQ1096(FM)

Y Prif Weinidog: Mae pawb yn derbyn bod gwario ar gyfalaf yn golygu taliadau ar y cyfalaf hwnnw oherwydd yr ydych yn benthg yr arian oddi wrth y cyhoedd a rhaid cael rhyw fesur o ba mor effeithiol y mae'r gwario ar y cyfalaf hwnnw. Yn ddelfrydol, mae gwario ar gyfalaf yn golygu lleihad yn y taliadau refeniw ond, yn aml, gyda'r GIG, yr ydych yn buddsoddi cyfalaf ac yn cael cynnydd yn y gwariant ar refeniw. Yr ydym am wneud yn siŵr nad yw'r system taliadau cyfalaf, gan ein bod yn cynyddu ein gwariant ar gyfalaf o ffactor o dri, yn rhwystro'r cyrff a fydd yn buddsoddi mewn ysbytai newydd.

The First Minister: Everyone accepts that capital expenditure results in capital charges because you are borrowing public money and we must have some measure of the effectiveness of that capital expenditure. Ideally, capital expenditure means a reduction in revenue payments but, often, with the NHS, you make capital investments and have an increase in revenue expenditure. We want to ensure that the capital charges system, as we are increasing our capital expenditure by a factor of three, does not act as a barrier to investment in new hospitals.

Rhodri Glyn Thomas: Yn ôl y ffigurau a gawsom gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n bwriadu gwario £390 miliwn ar ei raglen buddsoddi cyfalaf. Yr wyf yn deall gan yr ymddiriedolaethau fod yn rhaid iddynt wneud taliadau cyfalaf o hyd at 10 y cant. Golyga hynny, drwy Gymru, y gallem fod yn sôn am £39 miliwn ar gyfer taliadau cyfalaf. Gwyddoch, Brif Weinidog, fod amcangyfrifon gwahanol o ddyledion yr

Rhodri Glyn Thomas: According to the figures that we received from the Minister for Health and Social Services, he intends to spend £390 million on his capital investment programme. I understand from the trusts that they face payments of up to 10 per cent on capital. That means, throughout Wales, that we could be talking about £39 million in capital charges. First Minister, you know that there are varying estimates of the debts of trusts, ranging from £22 million to £60

ymddiriedolaethau, yn amrywio o £22 miliwn i £60 miliwn. Sut yr ydych yn gweld y sefyllfa'n datblygu pan fydd yn rhaid i'r ymddiriedolaethau wneud taliadau ychwanegol o hyd at £39 miliwn ar ben y dyledion sydd ganddynt yn awr? A oes ymddiriedolaethau yng Nghymru sy'n mynd i lwyddo i gyflawni'r rhaglen fuddsoddi hon?

Y Prif Weinidog: Cywiraf eich ffigurau: nid £390 miliwn ydyw ond £309 miliwn. Fodd bynnag, mae'n gynnydd sylweddol sy'n treblu yr hyn yr ydym yn ei wario o dan y rhaglen bresennol, o £100 miliwn y flwyddyn i ychydig dros £300 miliwn. Fel y dywedais mewn ymateb i gwestiwn ar effeithlonrwydd ynni, rhan o fuddsoddi mewn ysbyty newydd yw ystyried y byddwn yn gwario llai ar ynni, oherwydd bydd safon yr adeilad yn golygu gwastraffu llai o ynni gan fod y waliau o safon well—yn fwy trwchus ac yn y blaen—ac y bydd yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Fodd bynnag, ni fydd hynny'n gweithio bob tro oherwydd, o bryd i'w gilydd, bydd gwasanaethau ychwanegol ac, felly, gostau ychwanegol, yn dod gyda'r gwariant cyfalaf.

Yr ydym bob amser yn edrych i weld ym mhle y gellir gwario cyfalaf ac arbed arian o du'r refeniw. Ambell waith, daw'r sefyllfa ddelfrydol ar eich traws, gan fethu dro arall. O ran yr egwyddor, ni wyddom hyd yma am unrhyw gorff sydd wedi gwrthod buddsoddi arian a gynigiwyd iddo oherwydd na fydd yn gallu talu'r taliadau refeniw a ddaw yn sgîl gwario'r cyfalaf.

million. How do you see the situation developing when the trusts will have to make additional payments of up to £39 million on top of the debts that they currently face? Will any trust in Wales succeed in implementing this investment programme?

The First Minister: I will correct your figures: it is not £390 million, but £309 million. However, it is a substantial increase that triples the amount that we spend under the current programme, from £100 million a year to a little over £300 million. As I said in response to a question on energy efficiency, investing in a new hospital involves taking into account the fact that we will be spending less on energy because the standard of the building will mean wasting less energy as the walls will be of a higher standard—thicker and so on—and that it will use the latest technology. However, that will not work every time because, occasionally, additional services and, therefore, additional costs, will come with that capital expenditure.

We are always looking to see where capital can be spent and money saved on the revenue side. Sometimes you come across the ideal situation; sometimes you do not. With regard to the principle, we have not yet come across any body refusing to invest funding offered on the grounds that it is unable to meet the revenue payments consequential to revenue expenditure.

Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Gogledd Improving Public Services in North Wales

Q8 Janet Ryder: What are the First Minister's priorities for improving public services in north Wales? OAQ1100(FM)

The First Minister: Among the Assembly Government's top priorities for public policy in north Wales is the improvement of education services, which is why we have provided more than £13 million through the school improvement grant programme to north Wales's local authorities over the past two years.

Janet Ryder: It is interesting to note that you

C8 Janet Ryder: Beth yw blaenoriaethau'r Prif Weinidog ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus yn y gogledd? OAQ1100(FM)

Y Prif Weinidog: Mae gwella gwasanaethau addysg ymysg prif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer polisi cyhoeddus yn y Gogledd. Dyna paham yr ydym wedi darparu dros £13 miliwn drwy'r rhaglen grant gwella ysgolion i awdurdodau lleol yn y gogledd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Janet Ryder: Mae'n ddiddorol nodi na

did not mention health, because you have stated previously in Plenary that the Conwy and Denbighshire NHS Trust is forecasting a deficit of £5.5 million—the highest figure of any trust in Wales. The trust has already announced that it seeks to save £11 million by closing a ward and establishing a recruitment freeze. How can you ensure that the financial pressures experienced by health bodies will not affect the delivery of services when staff vacancies will not be addressed because of a lack of money?

The First Minister: The general and important point about living within a budget is learning to cope with making efficient use of the resources that you have, and not depending on people to write off accumulated debts.

I am trying to guess which ward you are referring to, the closure of which the Conwy trust will accept. I think that it referred to a ward closing in Llandudno Hospital. Although you did not name it, I think that that is the one that you referred to. The trust said that little use is made of that particular ward, so it seemed to me that you could not really argue much against that ward closure, especially if you are merging two wards because one of them was not being used intensively. I may be wrong, and you may have had a completely different ward in mind, but that is the case as I understand it from reading the account in the *Daily Post*.

Brynle Williams: The recent mobile post office trial in Gwynedd demonstrated great potential for the scheme to deliver much-needed services to rural communities. Given the number of recent closures of rural post offices, or threats of closure, what support will you give to the extension of the mobile post office service?

The First Minister: I will inquire of Edwina Hart whether such a proposition has been made to us. We are concerned about the viability of the post office network in deprived urban areas and in rural areas. Different support schemes are available: one is funded by the UK Government and the

wnaethoch grybwyll iechyd, oherwydd yr ydych wedi datgan o'r blaen yn y Cyfarfod Llawn fod Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych yn rhagweld diffyg o £5.5 miliwn—y ffigur uchaf o blith holl ymddiriedolaethau Cymru. Mae'r ymddiriedolaeth eisoes wedi cyhoeddi ei bod yn ceisio arbed £11 miliwn drwy gau ward a rhewi recriwtio. Sut y gallwch sicrhau na fydd y pwysau ariannol ar gyrff iechyd yn effeithio ar gyflwyno gwasanaethau pan na fydd modd llenwi swyddi gwag oherwydd diffyg arian?

Y Prif Weinidog: Y pwynt cyffredinol a'r pwynt pwysicaf ynghylch byw o fewn terfynau cyllideb yw dysgu sut i ymdopi â gwneud defnydd effeithlon o'r adnoddau sydd gennych, gan beidio â dibynnu ar bobl eraill i ddileu'r dyledion sy'n cronni.

Yr wyf yn ceisio dyfalu pa ward sydd gennych dan sylw, ward y byddai ymddiriedolaeth Conwy yn cytuno i'w chau. Credaf eich bod yn cyfeirio at gau ward yn Ysbyty Llandudno. Er na wnaethoch ei henwi, tybiaf mai hon sydd gennych dan sylw. Dywedodd yr ymddiriedolaeth mai ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o'r ward arbennig honno, felly, yn fy marn i, ni allwch ddadlau yn erbyn ei chau, yn enwedig os ydych yn gallu uno dwy ward oherwydd nad oedd llawer o ddefnyddio ar un ohonynt. Efallai fy mod wedi gwneud camsyniad, ac efallai fod gennych ward hollol wahanol dan sylw, ond tybiaf fy mod yn weddol agos ati ar ôl darllen yr erthygl yn y *Daily Post*.

Brynle Williams: Dangosodd yr arbrawf diweddar o ddefnyddio swyddfeydd post teithiol yng Ngwynedd fod cryn potensial i'r cynllun i ddarparu gwasanaethau hollbwysig i gymunedau gwledig. O gofio faint o swyddfeydd post sydd wedi cau'n ddiweddar, a'r rhai sydd dan fygythiad, pa gefnogaeth a rowch i ledaenu gwasanaeth y swyddfa bost deithiol?

Y Prif Weinidog: Fe holaf Edwina Hart a oes cynnig o'r fath ger ein bron. Yr ydym yn bryderus am hyfywedd rhwydwaith y swyddfeydd post mewn ardaloedd trefol difreintiedig ac mewn ardaloedd gwledig. Mae cynlluniau cymorth gwahanol ar gael: caiff un ei chyllido gan Lywodraeth y DU a'r

other funded by us, and that is to suit different circumstances in Wales. The mobile post office service falls into a third category, and, as I am not fully briefed on the matter, I will ensure that you receive a full reply from Edwina Hart.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Pan ddaeth eich plaid yn Llywodraeth yn y Cynulliad, dywedodd Tony Blair a chithau y byddai gan bobl Cymru a Phrydain fynediad at ddeintydd gwasanaeth iechyd o fewn cyrraedd i'w cartrefi. Dyma ni, saith mlynedd yn ddiweddarach, ac mae'r sefyllfa yng ngogledd Cymru yn warthus. Nid oes yr un deintydd, bron, yn y gogledd yn cofrestru cleifion drwy'r gwasanaeth iechyd gwladol. Onid yw hynny'n gondemniad llwyr o fethiant eich polisi?

Y Prif Weinidog: Yr hyn a ddeallaf yw bod pum gosodiad i ddefnyddio'r contract newydd o dan y cynllun gwasanaeth deintyddol personol wedi cael eu cefnogi yn awr yng ngogledd Cymru, ac mae'r pum contract hynny yn golygu diogelwch i ddarpariaeth o dan y gwasanaeth iechyd gwladol i ryw 30,000 o gleifion. Mae hefyd yn golygu y gallu i drin rhyw 2,690 o gleifion ychwanegol. Mae saith cynllun PDS arall yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Ieuan Wyn Jones: Gadewch inni roi'r mater yn ei gyd-destun. Bu ichi gyfeirio at y ffaith y bydd hyn yn helpu rhyw 30,000 o bobl tra bod 300,000 a mwy o gleifion posibl yn y gogledd sydd eisiau gweld y deintydd. Cynhaliwyd arolwg o nifer y practisiau deintyddol sy'n fodlon derbyn cleifion gwasanaeth iechyd newydd yn y gogledd, ac ni chafwyd ond dau neu dri. Yr wyf yn derbyn eich pwynt bod rhyw gymaint o symud yn digwydd o dan y cynllun PDS, ond y realiti yw na fydd hynny byth yn ddigon i ymateb i'r galw aruthrol. A ydych yn derbyn bod pobl y gogledd yn disgwyl gwell na hynny gan y Llywodraeth?

2.50 p.m.

Y Prif Weinidog: Ceir newid unwaith bob cenhedlaeth o ran y math o gytundeb y mae deintyddion yn gweithio iddo. Mae'n cymryd lle ar hyn o bryd, felly yr ydym ar ganol y

llall gennym ni, er mwyn ceisio gweddu i'r amgylchiadau gwahanol yng Nghymru. Mae gwasanaeth y swyddfa bost deithiol yn perthyn i'r trydydd categori, a chan nad yw'r holl wybodaeth wrth law gennyf am y mater hwn, gwnaf yn siŵr y byddwch yn derbyn adroddiad llawn gan Edwina Hart.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): When your party came to Government in the Assembly, Tony Blair and you both said that the people of Wales would have access to a health service dentist within reach of their homes. Here we are, seven years later, and the situation in north Wales is a disgrace. There is hardly a single dentist in the north who registers national health service patients. Is that not a complete indictment on the failure of your policy?

The First Minister: As I understand it, five statements to use the new contract under the personal dental services scheme have now been supported in north Wales, and those five contracts mean the security of provision under the national health service for approximately 30,000 patients. That will also create the ability to treat some 2,690 additional patients. A further seven PDS schemes are under consideration at present.

Ieuan Wyn Jones: Let us put this matter in perspective. You referred to the fact that this will help some 30,000 people while there are possibly 300,000 patients and more in north Wales wishing to see a dentist. A survey was carried out into the number of dental surgeries prepared to accept new health service patients in north Wales, and only two or three could be found. I accept your point that there has been some development under the PDS scheme, but the reality is that that will never be adequate to respond to the enormous demand. Do you accept that the people of north Wales expect better from the Government?

The First Minister: There is a step change once every generation in terms of the type of contract to which dentists work. It is currently taking place, so we are in the

broses o drawsnewid o'r hen gytundeb i'r cytundeb newydd. Bu'r ymateb gan ddeintyddion a'r cleifion sy'n chwilio am ddeintydd yn y gogledd yn gefnogol dros ben i'r modd y mae'r broses yn digwydd. Yr wyf yn derbyn ei bod yn broses eithaf anodd ei gweithredu, ond mae'r sefyllfa lawer yn well na'r hyn yr ydych yn ei ddisgrifio—yr ydych yn gor-ddweud ynghylch natur a lefel yr argyfwng. Derbyniaf y bu llawer o gyhoeddusrwydd negyddol i'r mater, ond gan ein bod yn agosáu at y broses o gyflwyno'r cytundeb newydd ar 1 Ebrill, mae'r agwedd yn llawer mwy cefnogol, ac mae ymateb y deintyddion i'r cynllun newydd yn gefnogol.

Ieuan Wyn Jones: I disagree with your viewpoint, because at a recent meeting of the North Wales Regional Committee, those representing the dental profession told us that the new contract would not solve the problem, and that the number of PDS dentists in the pipeline would not meet the current demand. You are not prepared to listen to what I have to say, but perhaps you will listen to those residents of Amlwch who have lost their NHS dentist. I conducted a recent survey of their views and they are angry at the fact that they cannot get even a private dentist anywhere near their homes for love nor money. I will give you some examples of what they say.

'We feel that we are being badly let down by the NHS system.'

'NHS patients are in a ridiculous situation in which they face long journeys to obtain treatment.'

'As a parent of two young boys, I am concerned that they are not receiving treatment as they were before the dentist left Amlwch.'

It is not me saying that—these are real people worried about the future of dentistry. We need far more than the warm words that you have given to address this serious issue.

The First Minister: I accept everything that you have said about being in the middle of a transformational process, which happens

process of transforming from the old contract to the new contract. The response from dentists and those patients seeking a dentist in north Wales has been very supportive of the way in which the process is being undertaken. I accept that it is a relatively difficult process to implement, but the situation is far better than you describe—you are exaggerating about the nature and level of the crisis. I accept that the issue has received much negative publicity, but given that we are nearing the stage of introducing the new contract on 1 April, attitudes are far more supportive, and dentists' response to the new scheme has been supportive.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn anghytuno â'ch safbwynt, oherwydd mewn cyfarfod diweddar o Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd, dywedodd y rhai a oedd yn cynrychioli'r proffesiwn deintyddol wrthym na fyddai'r contract newydd yn datrys y broblem, ac ni fyddai nifer y deintyddion PDS sydd yn yr arfaeth yn ddigon i ateb y galw presennol. Nid ydych yn barod i wrando ar yr hyn sydd gennyf i'w ddweud, ond efallai y gwnewch wrando ar drigolion Amlwch sydd wedi colli eu deintydd GIG. Cynhaliais arolwg diweddar i gasglu eu barn ac mae'r ffaith na allant gael gafael hyd yn oed ar ddeintydd preifat am bris yn y byd yn codi eu gwrychyn yn ofnadwy. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a oedd ganddynt i'w ddweud.

Yr ydym wedi'n siomi'n arw gan system y GIG.

Mae cleifion y GIG mewn sefyllfa chwerthinllyd lle y mae'n rhaid iddynt wynebu siwrneiau hir er mwyn cael triniaeth.

Fel rhiant i ddau o fechgyn, yr wyf yn bryderus iawn nad ydynt yn derbyn yr un driniaeth ag a oeddent cyn i'r deintydd adael Amlwch.

Nid fy ngeiriau i yw'r rhain, ond geiriau pobl go iawn sy'n pryderu am ddyfodol deintyddiaeth. Rhaid cael llawer mwy na'r geiriau hynaws a ddaw o'ch genau er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa ddifrifol hon.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn derbyn popeth a ddywedasoch am y ffaith ein bod yng nghanol proses o drawsnewid, sy'n codi bob

once every 30, 40 or 50 years, resulting in a completely different type of contract. People moaned about the old contract, which provided no incentive for conserving good dentistry, because it was a straight piecework system, and we are making the change. We have tweaked the new contract in Wales in a way that has made it far more acceptable to dentists than that which is happening over the border. Although the problem to which you referred is still going on, and we accept the concerns expressed by your constituents in Amlwch that they have a long way to travel to the nearest dentist after losing their NHS dentist, on the other hand, I put it to you that the PDS introduction scheme is going well, though we are not there yet and we still have a long way to go. The situation will be transformed as the PDS becomes standard over the next year or so.

rhyw 30, 40 neu 50 mlynedd, ac yn arwain at greu math hollol wahanol o gontract. Yr oedd pobl yn cwyno am yr hen gontract, gan nad oedd yn rhoi cymhelliant i gadw deintyddion da oherwydd mai system ddarniog, anhyblyg ydoedd. Yn awr, yr ydym yn newid pethau. Yr ydym wedi mireinio'r contract newydd yng Nghymru mewn ffordd sy'n llawer mwy derbyniol i ddeintyddion o'i gymharu â'r hyn sy'n digwydd dros y ffin. Er bod y broblem y soniasoch amdani yn dal i fodoli, ac yr ydym yn derbyn pryderon eich etholwyr yn Amlwch bod rhaid iddynt deithio cryn bellter i weld eu deintydd agosaf ar ôl colli gwasanaeth deintydd y GIG, ar y llaw arall, mae'r cynllun cyflwyno PDS yn mynd rhagddo'n dda, er nad ydym wedi cyrraedd pen y daith eto ac mae llawer o waith i'w wneud. Caiff y system ei thrawsnewid yn llwyr dros y flwyddyn neu ddwy nesaf wrth i'r PDS ddod yn drefn arferol.

Polisiâu Datblygu Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government Economic Development Policies

Q9 John Griffiths: Will the First Minister make a statement on progress with the Welsh Assembly Government's economic development policies? OAQ1088(FM)

C9 John Griffiths: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed gyda pholisïau datblygu economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ1088(FM)

The First Minister: A most remarkable achievement for Wales is that, since devolution, of the 12 constituent parts of the UK—the nine English regions plus Scotland, Northern Ireland and Wales—Wales is at the top of the league for increases in the number of jobs. We are the only part of the UK where job numbers have increased by more than 10 per cent since devolution. Scotland and Northern Ireland have increased job numbers by around 8 per cent, and the average for the UK is 6.5 per cent. I think that that is a remarkable achievement.

Y Prif Weinidog: Ers datganoli, allan o 12 rhan gyfansoddol y DU—y naw rhanbarth yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru—camp aruthrol Cymru yw ei bod ar frig y gynghrair o ran cynyddu nifer y swyddi. Nyni yw'r unig ran o'r DU lle y mae nifer y swyddi wedi cynyddu dros 10 y cant ers datganoli. Mae nifer y swyddi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cynyddu tuag 8 y cant a'r cyfartaledd ledled y DU yw 6.5 y cant. Credaf fod hyn yn gamp aruthrol.

John Griffiths: It is remarkable, and it is very welcome and most important. Do you agree that attracting major sporting events here brings substantial benefits to our economy? In that light, do you also agree that the recent proposals by Newport, Cardiff and Swansea city councils to bid to bring the Commonwealth Games to south Wales is worthy of support, given the economic and many other benefits that would accrue?

John Griffiths: Camp aruthrol yn wir, yr ydym yn ei groesawu'n fawr ac mae'n bwysig iawn. A ydych yn cytuno bod denu digwyddiadau chwaraeon mawr i'r wlad yn dod â buddiannau sylweddol i'n heconomi? Gyda hynny mewn golwg, a ydych hefyd yn cytuno bod y cynigion diweddaraf gan gynghorau dinas Casnewydd, Caerdydd ac Abertawe i geisio denu Gemau'r Gymanwlad i dde Cymru yn haeddu cefnogaeth, o gofio'r

buddiannau economaidd a'r buddiannau eraill a fyddai'n dod yn sgîl hynny?

The First Minister: You will remember the history of this issue, namely that, as far as we were concerned, we believed that if London attracted the Olympic Games in 2012, there would be very little likelihood of the other biggest multisports festival, namely the Commonwealth Games, coming to any constituent part of the United Kingdom just two years later. So, that is my only reason for scepticism. If Newport, Swansea and Cardiff can jointly mount a successful bid, competing with Glasgow and other cities around the world that we are not even aware of yet, then good luck to them, but the only reason that we have expressed scepticism is because we do not think that the sports authorities will think it suitable to send the UK the two biggest multisports festivals in the world within two years of each other.

Y Prif Weinidog: Byddwch yn cofio'r stori y tu ôl i'r mater hwn, sef, cyn belled ag yr oeddem ni yn y cwestiwn, yr oeddem o'r farn pe bai Llundain yn llwyddo i ddenu'r Gemau Olympaidd yn 2012, yna ni fyddai llawer o obaith y cynhelid yr ŵyl amlchwarae fwyaf arall, sef Gemau'r Gymanwlad, mewn rhan gyfansoddol o'r Deyrnas Unedig gwta ddwy flynedd yn ddiweddarach. Felly, dyna fy unig reswm dros fod yn sgeptig. Pe bai Casnewydd, Abertawe a Chaerdydd yn gallu llunio cais llwyddiannus ar y cyd, gan gystadlu â Glasgow a dinasoedd eraill ledled y byd nad ydym hyd yn oed yn gwybod pwy ydynt eto, yna pob lwc iddynt. Yr unig reswm dros ein hamheuron yw nad ydym yn credu y byddai'r awdurdodau chwaraeon yn tybio mai da o beth fyddai cynnal y ddwy ŵyl amlchwarae fwyaf yn y byd yn y DU gyda llai na dwy flynedd rhyngddynt.

Gwella Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru Improving Public Health in Wales

Q10 Val Lloyd: What is the Welsh Assembly Government doing to improve public health in Wales? OAQ1089(FM)

C10 Val Lloyd: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru? OAQ1089(FM)

The First Minister: We are doing a tremendous amount. One of our leading suites in health is to promote public health by encouraging people to take more control of their own lives and health and to do as much as they can to improve their health and the health of their family by taking up more exercise and a better diet. The single most important measure in public health improvement that any body could undertake in any part of the United Kingdom would be to ban smoking in enclosed public places. Val knows a great deal about that.

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn gwneud gwaith aruthrol. Un o'n prif amcanion ym maes iechyd yw hyrwyddo iechyd y cyhoedd drwy annog pobl i gymryd mwy o reolaeth dros eu bywyd a'u hiechyd gan wneud cymaint ag y gallant i wella eu hiechyd hwy a iechyd eu teulu drwy wneud mwy o ymarfer corff a bwyta gwell deiet. Y mesur unigol pwysicaf o ran gwella iechyd y cyhoedd y gallai unrhyw un ei wneud mewn unrhyw ran o'r DU fyddai gwahardd ysmegu mewn lleoedd cyhoeddus caeedig. Mae Val yn gwybod cryn dipyn am hynny.

Val Lloyd: You nearly took the words out of my mouth. Helping people to stop smoking is a major way of improving public health and, last May, the Assembly voted to introduce a ban on smoking in public places. However, in many people's minds, our intention in Wales has become muddled by the partial ban proposed in England. In view of that, what progress has been made in Wales on our timetable of banning smoking in public places?

The First Minister: To be clear about the position, the Health Bill is currently before Parliament and it makes provision for us to make our own minds up on this issue. We will all be aware of the response to the report of the committee that you chaired, Val, which recommended implementing a smoke-free enclosed public places policy in Wales and, on a cross-party, unwhipped, free-vote basis, there was a substantial majority in favour of doing that. Assuming that we do not suddenly change our minds, like other leading politicians that we could mention, one could imagine that, as soon as the permission has been given, namely as soon as the Health Bill becomes a health Act, we will proceed in that direction.

Val Lloyd: Dyna chi wedi dweud yr union eiriau oedd ar fy meddwl i. Mae cynnig help llaw i bobl i roi'r gorau i ysmegu yn ddull pwysig o wella iechyd y cyhoedd, a fis Mai diwethaf, pleidleisiodd y Cynulliad i gyflwyno gwaharddiad ar ysmegu mewn lleoedd cyhoeddus. Serch hynny, mae llawer un wedi drysu rhwng ein bwriad ni yng Nghymru a'r gwaharddiad rhannol yn Lloegr. O gofio hynny, pa ddatblygiadau yn yr amserlen a wnaethpwyd yng Nghymru tuag at wahardd ysmegu mewn lleoedd cyhoeddus?

Y Prif Weinidog: Er mwyn egluro'r sefyllfa, mae'r Mesur Iechyd o flaen y Senedd ar hyn o bryd, ac ynddo mae darpariaethau inni allu penderfynu ein hunain ar y mater hwn. Yr ydym i gyd yn ymwybodol o ymateb y pwyllgor yr ydych yn ei gadeirio, Val, i'r adroddiad, a oedd yn argymhell rhoi polisi ar waith lle y bydd pob man cyhoeddus caeedig yn ddi-fwg yng Nghymru, ac yr oedd mwyafrif sylweddol o blaid hynny mewn pleidlais rydd, ar draws y pleidiau a heb orfod dilyn y chwip. Gan dybio na fyddwn yn sydyn yn newid ein meddyliau, fel y mae rhai gwleidyddion amlwg eraill y gallem eu henwi wedi gwneud, gallem ddisgwyl, cyn gynted ag y byddwn yn derbyn caniatâd, sef pan fydd y Mesur Iechyd yn troi'n Ddeddf iechyd, y byddwn yn symud ymlaen i'r perwyl hwn.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Diogelwch ar Ffordd yr A547 Road Safety on the A547

Y Llywydd: Yr wyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog Rhif 6.34. Galwaf ar Ann Jones i ofyn y cwestiwn.

The Presiding Officer: I have accepted an urgent question under Standing Order No. 6.34. I call Ann Jones to ask the question.

Ann Jones: Following the tragic events on the A547 last Sunday, 8 January, what measures will the Welsh Assembly Government be taking to improve road safety on that stretch of road? EAQ0620(EDT)

Ann Jones: Yn dilyn y digwyddiad trasig ar yr A547 ddydd Sul diwethaf, 8 Ionawr, pa fesurau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i wella diogelwch ar y ffordd ar y darn hwn o ffordd? EAQ0620(EDT)

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): I believe that I speak for all Members when I extend my deepest sympathy to the families and friends of those who died in this tragedy on Sunday. The A547 is a local authority road

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Yr wyf yn credu fy mod yn siarad ar ran yr holl Aelodau wrth estyn fy nghydymdeimlad dwysaf â theuluoedd a ffrindiau'r rhai a gollodd eu bywydau yn y drasiedi hon ddydd Sul. Dan ofal

and local authorities are responsible for the implementation of any road-safety measures on such roads. I do not believe that it is appropriate for me to comment further until the police have concluded their investigations. I understand that the coroner will open the inquest today and then adjourn it immediately to await the outcome of the police investigation.

yr awdurdodau lleol y mae'r A547 a'r awdurdodau lleol sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros weithredu unrhyw fesurau diogelwch ffyrdd ar y ffyrdd hyn. Nid wyf yn teimlo ei bod yn briodol i mi gyflwyno rhagor o sylwadau hyd nes bod yr heddlu wedi gorffen eu hymchwiliadau. Yr wyf yn cael ar ddeall y bydd y crwner yn agor y cwest heddiw ac yna'n ei ohirio'n syth er mwyn disgwyl canlyniad ymchwiliad yr heddlu.

Ann Jones: I offer my sympathy to those families tragically affected by this dreadful incident on Sunday. In offering our condolences, we should also remember the driver of the car and the driver's family and the other members of the cycling club in Rhyl who are deeply shocked at the loss of their valuable members.

Ann Jones: Estynnaf innau fy nghydymdeimlad i'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad ofnadwy hwn ddydd Sul. Wrth estyn ein cydymdeimlad, dylem hefyd gofio am yrrwr y car a'i deulu ac aelodau eraill y clwb seiclo yn y Rhyl sydd wedi'u syfrdanu ar ôl colli aelodau arbennig o'u clwb.

As you say, this stretch of road is a main A-road, which links my constituency to that of my colleague, Alun Pugh, which is where this dreadful incident occurred. It is a busy route and, in a measure to reduce road casualties, North Wales Police had identified a stretch of road for attention. What can we now do as a Government to work closely with all agencies to see that the highways identified, such as this stretch of road, can be improved to minimise the possibility of any such accidents or incidents occurring? Words seem so inadequate at a time like this, but for these words to mean anything, we should look to turn them into actions and do all that we can to see that this stretch of road is improved to minimise the possibility of any such tragic events in future.

Fel y dywedaso, mae'r darn hwn o ffordd lle y digwyddodd y ddamwain erchyll yn briffordd A, sy'n cysylltu fy etholaeth i ag etholaeth fy nghyd-Aelod, Alun Pugh. Mae'n ffordd brysur ac, er mwyn ceisio lleihau marwolaethau ac anafiadau ar y ffordd, yr oedd Heddlu Gogledd Cymru wedi dweud y dylid rhoi sylw i'r darn hwn o ffordd. Beth y gallwn ni ei wneud fel Llywodraeth er mwyn cydweithio'n agos â'r holl asiantaethau i sicrhau bod y priffyrdd a nodir gan yr Heddlu, megis y darn hwn o ffordd, yn cael eu gwella er mwyn lleihau'r posibilrwydd bod damweiniau o'r fath yn digwydd eto? Nid yw geiriau'n gysur o gwbl ar adegau fel hyn, ond os ydym am wir olygu'r hyn a ddywedwn, rhaid ceisio bod cystal â'n gair a gwneud ein gorau glas i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu rhoi ar waith ar y darn hwn o ffordd er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd digwyddiadau trasig fel hyn yn digwydd eto.

Andrew Davies: Certainly. I concur fully with all the points that you make, Ann. I understand that the local authority, Conwy County Borough Council, is working very closely and co-operating fully with North Wales Police and is examining all its processes and procedures in terms of dealing with the treatment of roads when there is black ice and frost, to see what procedures can be put in place.

Andrew Davies: Yn sicr. Yr wyf yn ategu'r holl bwyntiau a wnaethoch, Ann. Yr wyf yn deall bod yr awdurdod lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweithio'n agos iawn ac yn cydweithredu'n llwyr â Heddlu Gogledd Cymru ac yn edrych ar ei holl brosesau a gweithdrefnau o ran trin ffyrdd pan fo rhew du a rhew, i weld pa weithdrefnau y gellir eu rhoi ar waith.

3.00 p.m.

I meet the police forces regularly, as does my deputy, Tamsin Dunwoody, to consider road safety issues. We will be considering this in our meetings in the near future, particularly with the chief constable of North Wales Police.

Alun Pugh: I met two of the men involved in this appalling event, and your thoughts obviously go out to the families and the members of that small but splendid club. Another cyclist was killed by a car just a few miles to the west of where this incident took place, just before Christmas. It is entirely right that we do not talk about the detail of this incident, because an important police investigation will be held. However, I wish to raise more general questions, as a cyclist who has travelled on UK and continental roads.

Most motorists behave appropriately towards cyclists, but a substantial minority do not—they tend to drive too close to cyclists and too fast next to them. That is in contrast to the practice of motorists in countries such as France, Switzerland, the Netherlands and Italy. In countries where there is a stronger cycling culture, motorists routinely allow a bigger gap between their vehicle and cyclists. In that context, would you accept that there is a need for more driver training and for a public information campaign so that there are no more such dreadful incidents?

Andrew Davies: As I said in my initial response, we need to consider the response to, and the reasons behind, this particular incident. I agree that we also need to look generally at statistics. Overall, of course, the number of serious road accidents and resulting deaths and injuries has declined significantly and successfully as a result of the education programmes, awareness-raising campaigns and marketing and advertising campaigns that have been run over the last seven or eight years. However, some particular groups, such as motorcyclists, have been more vulnerable. Therefore, we can learn lessons from how we target particular user groups or potential victims in terms of

Yr wyf yn cyfarfod â'r heddluoedd yn rheolaidd, fel y gwna fy nirprwy, Tamsin Dunwoody, i ystyried materion yn ymwneud â diogelwch ffyrdd. Byddwn yn ystyried hyn yn ein cyfarfodydd yn y dyfodol agos, yn enwedig gyda phrif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

Alun Pugh: Cyfarfŷm â dau o'r dynion a oedd yn rhan o'r digwyddiad echrydus hwn, ac mae rhywun yn amlwg yn meddwl am y teuluoedd ac aelodau'r clwb bach ond rhagorol hwn. Lladdwyd beiciwr arall gan gar ychydig filltiroedd yn unig i'r gorllewin o leoliad y digwyddiad hwn, ychydig cyn y Nadolig. Mae'n gwbl briodol nad ydym yn trafod manylion y digwyddiad hwn, gan y cynhelir ymchwiliad pwysig gan yr heddlu. Fodd bynnag, hoffwn godi cwestiynau mwy cyffredinol, fel beiciwr sydd wedi teithio ar ffyrdd y DU ac mewn gwledydd tramor.

Mae'r rhan fwyaf o yrwyr yn ymddwyn yn briodol tuag at feicwyr, ond ceir lleiafrif bach iawn nad ydynt yn gwneud hynny— maent yn tueddu i yrru'n rhy agos at feicwyr, ac yn rhy gyflym wrth eu hymyl. Mae arferion gyrwyr mewn gwledydd megis Ffrainc, y Swistir, yr Iseldiroedd a'r Eidal i'r gwrthwyneb yn hollol wahanol i hynny. Mewn gwledydd lle y ceir diwylliant beicio cryfach, bydd gyrwyr fel mater o drefn yn caniatáu mwy o le rhwng eu cerbyd hwy a beicwyr. Yn y cyd-destun hwnnw, a fydddech yn derbyn bod angen mwy o hyfforddiant ar yrwyr ac y dylid cynnal ymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd fel na cheir mwy o ddigwyddiadau echrydus fel hyn?

Andrew Davies: Fel y dywedais yn fy ymateb cyntaf, mae angen inni ystyried yr ymateb i'r digwyddiad penodol hwn a'r rhesymau drosto. Cytunaf fod angen inni hefyd edrych yn gyffredinol ar ystadegau. Yn gyffredinol, wrth gwrs, mae nifer y damweiniau ffyrdd a'r marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad iddynt wedi gostwng yn sylweddol ac yn llwyddiannus o ganlyniad i'r rhaglenni addysg, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd hysbysebu a gynhaliwyd dros y saith neu'r wyth mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau penodol, er enghraifft beicwyr modur, wedi bod yn fwy agored i niwed. Felly, gallwn ddysgu gwersi o'r ffordd yr

what we can do to raise awareness. It may well be that we can do something, by working with the police and other agencies, to target this particular issue. We need to wait for the outcome of the inquiry and the inquest to find out what the particular causes of this accident were.

Janet Ryder: Like other Members, I send my condolences to the families involved following this tragic accident. Ann Jones raised the possibility of improving the carriageway. However, this particular incident took place in winter conditions. We all know that the council's budget for gritting, like its other budgets, is under pressure. What extra support can you give to councils, if we face severe winter conditions and their budgets are under pressure, to ensure that they can adequately grit the roads throughout their counties?

Andrew Davies: I take issue with the statement that this particular local authority's expenditure is under pressure. It has not been brought to my attention by local authorities that the resources available for gritting road surfaces that are their responsibility are under particular pressure. I would have to disagree with you on that.

We need to consider the specific causes of this accident, and what the conditions were. There may have been very local conditions. For example, during the last cold snap only a few weeks ago there were specific circumstances on a trunk road for which we have responsibility, namely the A40. The report that I received from my engineers was that there was nothing that we could have done to avert problems with black ice because there were peculiar weather conditions, which meant that all the grit that had been spread had been washed off the road by rainfall and the road surface had then frozen. There was nothing that we could have done in terms of our procedures. I am not saying that that happened in terms of this sad accident, but we need to await the outcome of the inquest to find out what the causes were.

ydim yn targedu grwpiau penodol o ddefnyddwyr neu ddioddefwyr posibl o ran yr hyn y gallwn ei wneud i godi ymwybyddiaeth. Mae'n bosibl iawn y gallwn wneud rhywbeth, drwy weithio gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill, i dargedu'r mater penodol hwn. Mae angen inni aros am ganlyniad yr ymchwiliad a'r cwest i gael gweld beth yn benodol a achosodd y ddamwain hon.

Janet Ryder: Fel Aelodau eraill, yr wyf yn anfon fy nghydyndeimlad at y teuluoedd cysylltiedig wedi'r ddamwain drasig hon. Cododd Ann Jones y posibilrwydd o wella'r briffordd. Fodd bynnag, digwyddodd y digwyddiad penodol hwn dan amodau tywydd gaeafol. Gwyddom i gyd fod cyllideb y cyngor ar gyfer graeanu, fel ei gyllidebau eraill, dan bwysau. Pa gymorth ychwanegol y gallwch ei roi i gynghorau, os byddwn yn wynebu amodau tywydd garw gaeafol a bod eu cyllidebau dan bwysau, i sicrhau y gallant raeau'r ffyrdd yn ddigonol ledled eu siroedd?

Andrew Davies: Yr wyf yn anghytuno â'r datganiad bod gwariant yr awdurdod lleol penodol hwn dan bwysau. Ni roddwyd gwybod imi gan awdurdodau lleol fod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer graeanu wyneb ffyrdd sy'n gyfrifoldeb iddynt hwy, dan bwysau arbennig. Bydd yn rhaid imi anghytuno â chi ynghylch hynny.

Mae angen inni ystyried achosion penodol y ddamwain hon, a beth oedd yr amodau. Efallai fod amodau lleol iawn yn bodoli. Er enghraifft, yn ystod y tywydd oer diwethaf, ychydig wythnosau'n ôl, yr oedd amgylchiadau penodol ar gefnffordd y mae gennym ni gyfrifoldeb drosti, sef yr A40. Yr adroddiad a dderbyniais gan fy mheirianwyr oedd nad oedd dim y gallem fod wedi'i wneud i osgoi'r problemau a gafwyd gyda rhew du, oherwydd bod tywydd anarferol, a olygai fod yr holl raeau a wasgarwyd wedi'i olchi oddi ar y ffordd gan law, a bod wyneb y ffordd wedi rhewi wedyn. Nid oedd dim y gallem fod wedi'i wneud o ran ein gweithdrefnau ni. Nid wyf yn dweud mai hynny a ddigwyddodd yng nghyswllt y ddamwain drist hon, ond mae angen inni aros am ganlyniad y cwest i gael gwybod beth oedd yr achosion.

Brynle Williams: Like my colleagues, I offer my sincere condolences to the family. Given that I use this road regularly, I am very familiar with it. It was an unfortunate accident. We cannot write it off, but, as the Minister said, it is only fair that we now wait for the inquiry. Our hearts go out to the families involved in this tragic accident. Furthermore, as Ann said, we must not forget about the driver of the car. It is a treacherous piece of road; we do not know exactly what happened and it is not fair to speculate. However, we must ensure that we do something to ensure that, if at all possible, such an accident never happens again.

Andrew Davies: Thank you for those considered words. I concur wholeheartedly with what you have said.

Eleanor Burnham: I also add my condolences. I am a local cyclist and I feel quite intimidated on roads in bad and winter weather. How will you raise awareness about issues surrounding not just cyclists, but walkers and horse-riders, because walking and horse riding can be equally difficult? Are you sure that the cash-strapped councils have sufficient money to tackle this, because my understanding was similar to yours, Minister—that the council had gritted the road the previous evening, but that the rain had come in the meantime. If they are strapped for cash, is it not your duty to ensure that everything possible is done so that such circumstances do not arise again?

Andrew Davies: Brynle Williams made the most appropriate response when he said that we have to await the outcome of the inquest to find out the reasons for this. As I said in response to Janet Ryder, no authority has raised the issue of a lack of resources or an inability to deal with bad weather in the winter. Neither local authorities nor the Welsh Local Government Association have raised the issue of inadequate resources with me. As I said, we need to look at the procedures for each local authority—in this

Brynle Williams: Fel fy nghyd-Aelodau, yr wyf yn estyn fy nghydymdeimlad diffuant i'r teulu. Gan fy mod yn defnyddio'r ffordd hon yn rheolaidd, yr wyf yn gyfarwydd iawn â hi. Yr oedd yn ddamwain anffodus. Ni allwn anghofio amdani, ond fel y dywedodd y Gweinidog, nid yw ond yn deg inni aros am yr ymchwiliad. Yr ydym yn teimlo dros y teuluoedd a oedd yn gysylltiedig â'r ddamwain drasig hon. Yn ogystal, fel y dywedodd Ann, ni ddylem anghofio gyrrwr y car. Mae'n ddarn peryglus o ffordd; ni wyddom yn union beth ddigwyddodd, ac mae'n annheg dyfalu. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau ein bod yn gwneud rhywbeth i sicrhau, os yn bosibl, na fydd damwain o'r fath fyth yn digwydd eto.

Andrew Davies: Diolch i chi am y geiriau ystyriol hynny. Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedwyd gennych.

Eleanor Burnham: Yr wyf finnau hefyd yn ategu fy nghydymdeimlad. Yr wyf yn beicio'n lleol a theimlaf dan fygythiad ar ffyrdd mewn tywydd garw a thywydd gaeafol. Sut yr ewch ati i godi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud nid yn unig â beicwyr, ond cerddwyr a phobl yn marchogaeth ceffylau hefyd, oherwydd gall cerdded a marchogaeth ceffylau fod yr un mor anodd? A ydych yn sicr bod gan gynghorau, sy'n brin o arian, ddigon o arian i fynd i'r afael â hyn, oherwydd yr oeddwn wedi cael ar ddeall, fel chithau, Weinidog, fod y cyngor wedi graeanu'r ffordd y noson cynt, ond bod y glaw wedi dod yn y cyfamser. Os ydynt yn brin o arian, onid ydyw'n ddyletswydd arnoch chi sicrhau y gwneir popeth posibl fel na fydd amgylchiadau o'r fath yn codi eto?

Andrew Davies: Cafwyd yr ymateb mwyaf priodol gan Brynle Williams pan ddywedodd fod yn rhaid inni aros am ganlyniad y cwestiwn i gael gwybod beth oedd y rhesymau am hyn. Fel y dywedais wth ymateb i Janet Ryder, nid oes dim un awdurdod wedi codi mater diffyg adnoddau nac anallu i ymdrin â thywydd garw yn y gaeaf. Nid yw'r awdurdodau lleol na Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi codi mater adnoddau annigonol gyda mi. Fel y dywedais, mae angen inni edrych ar y trefniadau ar gyfer pob awdurdod lleol—

case, Conwy—to find out what any contributory factors are and how those can be addressed. Conwy County Borough Council is working closely with North Wales Police to identify the issues at stake here. However, we need to await the outcome of the inquest to find out the reasons for this tragic accident and where the responsibility, if any, lies.

yn yr achos hwn, Conwy—i ddarganfod pa ffactorau a gyfrannodd at hyn a sut y gellir rhoi sylw iddynt. Y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru i ganfod y materion dan sylw yma. Fodd bynnag, y mae angen inni aros am ganlyniad y cwest i ddarganfod beth oedd y rhesymau dros y ddamwain drasig hon a phwy oedd yn gyfrifol, os oedd unrhyw un.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): There are a few changes to report to this week's business. The motions to approve the Foot and Mouth Disease (Wales) Order 2006 and the Foot and Mouth (Control of Vaccination) (Wales) Regulations 2006 have been postponed until 31 January. Following this statement, the Minister for Culture, Welsh Language and Sport will make a statement on the Arts Council of Wales.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae rhai newidiadau i'w nodi i fusnes yr wythnos hon. Mae'r cynigion i gymeradwyo Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006 a Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechiadau) (Cymru) 2006 wedi'u gohirio hyd 31 Ionawr. Yn dilyn y datganiad hwn, bydd y Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon yn gwneud datganiad am Gyngor Celfyddydau Cymru.

On the next three weeks' business, the draft business statement can be found on the Chamberweb under supporting documents.

O ran busnes y tair wythnos nesaf, gellir gweld y datganiad busnes ar we'r Siambr dan ddogfennau ategol.

Following the Business Committee meeting this morning, it has been determined that, under Standing Order No. 2.25, the following items of legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration: the Education Act 2002 (Transitional Provisions and Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2006, the Education Act 2002 (Commencement No. 8) (Wales) Order 2006, the New School (Admissions) (Wales) Regulations 2006, the Education (Variation of Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006, the Education (Objections to Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006, the Education (Determination of Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006, and the Approval of Codes of Management Practice (Residential Property) (Wales) Order 2006.

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynwyd, dan Reol Sefydlog Rhif 2.25, nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o ddeddfwriaeth at bwylgor pwnc i'w hystyried ymhellach: Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2006, Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru), Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006, Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006, Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006, Rheoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 a'r Gorchymyn Cymeradwyo Codau Ymarfer Rheoli (Eiddo Preswyl) (Cymru) 2006.

Y Llywydd: A oes gwrthwynebiad i'r datganiad busnes? Gwelaf fod mwy na 10 Aelod yn gwrthwynebu, felly gofynnaf i'r Trefnydd gynnig y datganiad busnes yn

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see that there are more than 10 objections, therefore I ask the Minister to propose the

ffurfiol, ac yna gofynnaf am sylwadau.

business statement formally, and then I ask for comments.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiau fod

the National Assembly for Wales adopts the business statement.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn y datganiad busnes.

3.10 p.m.

Ieuan Wyn Jones: Credaf eich bod yn gwybod pam yr ydym yn gwrthwynebu'r datganiad busnes—oherwydd nad ydych wedi cynnwys dadl yr wythnos nesaf ar Gyngor Celfyddydau Cymru. Gwyddoch yn iawn nad ydym yn derbyn bod y datganiad gan y Gweinidog heddiw yn hepgor yr angen am ddadl. Gwyddoch hefyd fod y mater hwn wedi cael cryn sylw yn y byd cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y byd sy'n ymwneud â'r celfyddydau, ac mae'n bwysig bod y Cynulliad yn cael cyfle nid yn unig i drafod hyn a chwestiynu'r Gweinidog, ond i basio barn ar yr hyn y mae'r Gweinidog wedi ei wneud a'r ffordd y mae wedi gweithredu.

Ieuan Wyn Jones: I think you know why we oppose the business statement—because you have not included a debate next week on the Arts Council of Wales. You know full well that we do not accept that a statement from the Minister today obviates the need for a debate. You will also know that this issue has received quite a lot of public attention in Wales, including in the arts world, and it is important that the Assembly has an opportunity not only to debate this and to question the Minister, but to give an opinion on what the Minister has done and on how he has acted.

Pam na dderbyniwch, gan wybod bod dymuniad cryf nid yn unig yn y Cynulliad, ond hefyd y tu allan clywed yn union beth ddigwyddodd a chlywed beth yw barn y Cynulliad, fod angen inni gael dadl lawn yn amser y Llywodraeth gyda chynnig y gallwn ei ddiwygio?

Why will you not accept, knowing that there is a strong desire not only in the Assembly but also outside it to hear exactly what went on and to hear the Assembly's opinion, that we need a full debate in Government time with a motion that we can amend?

Lisa Francis: The Welsh Conservative group cannot support today's draft business statement. A statement by the Minister for Culture, Welsh Language and Sport on the situation regarding the recent concerns raised by the Arts Council of Wales does not meet what was asked for, and is inadequate. Political interference in the arts, which is at the heart of the arts council's concerns, needs to be dealt with in a full Government debate. The cavalier attitude with which it has been treated as an organisation has led to an unprecedented speaking out and laying bare of its concerns at recent developments. Much money has been spent in reforming aspects of the Arts Council of Wales in recent years. If your Government has nothing to hide, it will agree to our request for a full debate—nothing less will do.

Lisa Francis: Ni all grŵp Ceidwadwyr Cymru gefnogi'r datganiad busnes drafft heddiw. Nid yw datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon am y sefyllfa o ran y pryderon a godwyd yn ddiweddar gan Gyngor Celfyddydau Cymru'n cyd-fynd â'r hyn a ofynnwyd gennym, ac mae'n annigonol. Mae angen ymdrin ag ymyrraeth wleidyddol yn y celfyddydau, sef yr hyn sydd wrth galon pryderon cyngor y celfyddydau, mewn dadl lawn gan y Llywodraeth. Mae'r modd di-hid yr ymdriniwyd â'r cyngor fel corff wedi arwain at siarad plaen na welwyd ei debyg ac at ddatgelu ei bryderon ynghylch datblygiadau diweddar. Gwariwyd llawer o arian ar ddiwygio agweddau ar Gyngor Celfyddydau Cymru yn ystod y blynyddoedd diweddar. Os nad oes gan eich Llywodraeth ddim byd i'w guddio, bydd yn cytuno â'n

cais am ddadl lawn—ni fydd dim llai'n gwneud y tro.

Kirsty Williams: The Minister cannot be surprised by the reaction of opposition Members this afternoon; she was given due warning of it. While we are grateful that she has rearranged the debate on the Government of Wales Bill in line with the request made this morning, it is not sufficient to only allow a statement on the arts council this afternoon, although that is welcome. It is a debate that the opposition parties ask for, and that is what we demand.

Carl Sargeant: Happy new year, Minister, from this side of the Chamber; I am afraid that it is the same old year from the opposition.

Perhaps you can find time in the near future to debate the impact of the new licensing hours on Wales. Violent crime has dropped 3 per cent in my constituency, and I thank Dave Jolly, the local inspector. It is also important that we have a debate on local government services, and how the delivery of these important services impacts us all daily, as well as on the protection of staff. We should all condemn workplace bullying in all circumstances, particularly in local government. It is shameful that one of the opposition Members chooses not to condemn workplace bullying, and considers it just scrutiny. Perhaps we can have time in the future to consider local government services.

Finally, could you possibly find time shortly to debate the Government of Wales Bill, so that we can have a true debate on the electoral system of this establishment in which directly elected Members can put their views forward properly?

The Business Minister (Jane Hutt): Blwyddyn newydd dda i chi i gyd—a happy new year from me. It is still my season of goodwill as Business Minister. *[Interruption.]*

I will certainly respond to Carl. However, as Kirsty has acknowledged, I have made several changes as a result of discussions in

Kirsty Williams: Prin bod y Gweinidog yn synnu at ymateb aelodau'r gwrthbleidiau y prynhawn yma; cafodd ddigon o rybudd ohono. Er ein bod yn ddiolchgar iddi am aildrefnu'r ddadl ar Fesur Llywodraeth Cymru yn unol â'r cais a wnaed y bore yma, nid yw'n ddigonol caniatáu datganiad yn unig ar gyngor y celfyddydau y prynhawn yma, er bod hynny i'w groesawu. Am ddadl y mae'r gwrthbleidiau'n gofyn, ac yr ydym yn mynnu cael un.

Carl Sargeant: Blwyddyn newydd dda, Weinidog, o'r ochr hon i'r Siambr; mae arnaf ofn mai'r un hen flwyddyn yw hi o safbwynt y gwrthbleidiau.

Efallai y gallwch ddod o hyd i amser yn y dyfodol agos i drafod effaith yr oriau trwyddedu newydd ar Gymru. Mae troseddau treisgar wedi gostwng 3 y cant yn fy etholaeth i, ac yr wyf yn diolch i Dave Jolly, yr arolygydd lleol. Mae hefyd yn bwysig inni gael dadl ar wasanaethau llywodraeth leol, a sut y mae darparu'r gwasanaethau pwysig hynny'n effeithio arnom oll o ddydd i ddydd, yn ogystal ag ar ddiogelwch y staff. Dylem oll gondemnio bwlio yn y gweithle ym mhob amgylchiad, yn enwedig mewn llywodraeth leol. Mae'n gywilyddus bod un o aelodau'r gwrthbleidiau'n dewis peidio â chondemnio bwlio yn y gweithle, ac yn barnu mai dim ond craffu ydyw. Efallai y cawn amser yn y dyfodol i ystyried gwasanaethau llywodraeth leol.

Yn olaf, tybed a allech ddod o hyd i amser cyn bo hir i drafod Mesur Llywodraeth Cymru, fel y gallwn gael dadl wirioneddol ar system etholiadol y sefydliad hwn, pryd y gall Aelodau a etholwyd yn uniongyrchol gyflwyno'u barn yn iawn?

Y Trefnydd (Jane Hutt): Blwyddyn newydd dda i chi i gyd. Mae'n dymor ewyllys da i mi o hyd fel Trefnydd. *[Torri ar draws.]*

Ymatebaf i Carl yn sicr. Fodd bynnag, fel y mae Kirsty wedi cydnabod, yr wyf wedi gwneud sawl newid o ganlyniad i

Business Committee. That is my role, and that is how we should do it, working together in a mature institution like the National Assembly for Wales. I have scheduled—and I am sure that you will have a full opportunity to engage in it, Carl—an important debate next Tuesday on the Government of Wales Bill. I have also made adjustments today. It is important that you all hear what Alun Pugh has to say in his statement this afternoon. I would have hoped that you would hear what he had to say in that statement before voting down this business statement.

On Carl's points, we must listen to issues that other Members raise in relation to the impact of licensing hours on crime, and to issues relating to workplace bullying.

drafodaethau yn y Pwyllgor Busnes. Hynny yw fy rôl, a dyna sut y dylem wneud, cydweithio gyda'n gilydd mewn sefydliad aeddfed fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr wyf wedi trefnu—ac yr wyf yn sicr y cewch gyfle llawn i gymryd rhan ynddi, Carl—dadl bwysig ddydd Mawrth nesaf ar Fesur Llywodraeth Cymru. Yr wyf hefyd wedi gwneud diwygiadau heddiw. Mae'n bwysig i chi i gyd glywed yr hyn sydd gan Alun Pugh i'w ddweud yn ei ddatganiad y prynhawn yma. Byddwn wedi gobeithio y byddech wedi gwrandao ar yr hyn a oedd ganddo i'w ddweud yn y datganiad hwnnw cyn pleidleisio yn erbyn y datganiad busnes hwn.

Ynghylch y pwyntiau a wnaeth Carl, rhaid inni ystyried materion y mae Aelodau eraill yn eu codi ynglŷn ag effaith oriau trwyddedu ar droseddu, a materion sydd yn ymwneud â bwlio yn y gweithle.

Cynnig: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 29.

Motion: For 29, Abstain 0, Against 29.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw yn unol â

Rheol Sefydlog Rhif 1.12(ii).

As there was an equality of votes, the Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 1.12(ii).

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion defeated.*

Datganiad am Gyngor Celfyddydau Cymru Statement on the Arts Council of Wales

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): The stories in the *Western Mail* about the post of chair of the Arts Council of Wales have distorted what is, in essence, a very simple matter. I therefore welcome this opportunity to put the record straight. There is nothing spiteful or Stalinist in following normal procedures for appointments to public bodies. I will explain how those procedures work.

First, I plan to complete two appointment exercises to the arts council. One of these is to recruit four new members to the council to replace retiring members. I also confirm that I intend to advertise the post of chair. No-one has been sacked. Contrary to indications in the *Western Mail*, I have made no announcement, surprise or otherwise, about the chair. The current chair was given advance notice of my intention to advertise the position when his term expires on 31 March 2006. It is good practice and courteous to inform the current incumbent of intentions in a timely manner.

I am following the National Assembly for Wales's code of practice for ministerial appointments to public bodies in its entirety. These appointments will be made in accordance with the National Assembly's code of practice, as approved by Plenary, and the advertisements will accord with established best practice. It remains open to the current chair to decide whether or not he wishes to seek reappointment. The Culture, Welsh Language and Sport Committee nominees will be consulted in the normal way in due course. The code makes no provision for informal soundings of the kind

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Mae'r straeon yn y *Western Mail* am swydd cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi camliwio yr hyn sydd, yn y bôn, yn fater syml iawn. Gan hynny, yr wyf yn croesawu'r cyfle hwn i egluro'r sefyllfa. Nid oes dim sydd yn fâl eisus nac yn Stalinaidd ynghylch dilyn gweithdrefnau arferol ar gyfer penodiadau i gyrff cyhoeddus. Esboniaf sut y mae'r gweithdrefnau hynny'n gweithio.

Yn gyntaf, bwriadaf gwblhau dau ymarferiad ar gyfer penodi i gyngor y celfyddydau. Un o'r rhain yw recriwtio pedwar aelod newydd i'r cyngor i gymryd lle aelodau sydd yn ymddeol. Yr wyf hefyd yn cadarnhau fy mod yn bwriadu hysbysebu swydd y cadeirydd. Nid oes neb wedi ei ddiswyddo. Yn groes i'r awgrymiadau yn y *Western Mail*, nid wyf wedi gwneud cyhoeddiad, boed yn annisgwyl neu fel arall, ynghylch y cadeirydd. Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw i'r cadeirydd presennol am fy mwriad i hysbysebu'r swydd pan ddaw ei dymor i ben ar 31 Mawrth 2006. Arfer da a mater o gwrteisi yw hysbysu'r deiliad presennol ynghylch yr hyn y bwriedir ei wneud mewn modd amserol.

Yr wyf yn dilyn cod ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer penodiadau gweinidogol i gyrff cyhoeddus yn gyfan gwbl. Gwneir y penodiadau hyn yn unol â chod ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyfarfod Llawn, a bydd yr hysbysebion yn gyson â'r arferion gorau sefydledig. Mae lle o hyd i'r cadeirydd presennol benderfynu a yw'n dymuno ymgeisio i gael ei ailbenodi ai peidio. Ymgynghorir ag enwebeion Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn y modd arferol pan ddaw'n bryd gwneud hynny. Nid oes dim darpariaeth yn y cod ar

proposed by members of the arts council. Members of the Assembly will understand that it is inappropriate to publicly discuss the individual merits of potential candidates in public appointments, and I remind all Members of the provisions of our code.

The arts council has received substantially rising investment from the Welsh Assembly Government. Its budget was £15 million in 1999-2000; this year it is £27 million, which is an increase of 56 per cent. Since 1999-2000, this Government has invested a total of £181 million in the arts—a sharp contrast to the Redwood years of freeze and stagnation. Despite this recent increased investment, there continue to be real barriers to access to the arts in some communities in Wales. There is a need to reform for the future in order to ensure that we continue as a nation to develop excellent art, with access for all.

In this context there has been much speculation about the recent arts participation survey. Let me give you the bare facts. If you are in a managerial or professional occupation, you are three times more likely to benefit from public money invested in the arts than if you live in a Communities First area. The people least likely to attend arts events live in Neath Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Caerphilly, Merthyr Tydfil and the valleys around Bridgend. The same applies to deprived communities in Flintshire and Wrexham. I do not believe that these huge differences in participation are acceptable, and I invite Members to disagree with me. The Culture Committee has received a detailed presentation on that arts participation survey, and I look forward to engaging with the opposition parties on the real issues here. I have received nothing from them as yet.

3.20 p.m.

On the issue of independence and the arm's-

gyfer ymholiadau anffurfiol o'r math a awgrymir gan aelodau o gyngor y celfyddydau. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn deall nad yw'n briodol trafod ar goedd rinweddau penodol ymgeiswyr posibl wrth wneud penodiadau cyhoeddus, ac yr wyf yn atgoffa'r holl Aelodau am ddarpariaethau ein cod.

Mae cyngor y celfyddydau wedi derbyn buddsoddiad sydd wedi cynyddu'n sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn 1999-2000 £15 miliwn oedd ei gyllideb; eleni mae'n £27 miliwn, sef cynnydd o 56 y cant. Ers 1999-2000, mae'r Llywodraeth hon wedi buddsoddi cyfanswm o £181 miliwn yn y celfyddydau—mewn cyferbyniad eglur â'r blynyddoedd o farweidd-dra a sefyll yn stond dan Redwood. Er bod mwy wedi ei fuddsoddi'n ddiweddar, ceir rhwystrau gwirioneddol o hyd rhag cael mynediad at y celfyddydau mewn rhai cymunedau yng Nghymru. Mae angen diwygio ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau fel cenedl i ddatblygu celfyddyd ragorol, gyda mynediad i bawb.

Owen John Thomas: Ym mis Tachwedd, cawsoch bapur gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn ymdrin â'i strategaeth, polisi, cynllunio, ymchwil a gwerthuso mewn perthynas â'r ailstrwythuro hwn. Ymhen tua mis, yr oeddech wedi hysbysu'r cadeirydd y byddai'n rhaid iddo ailymgeisio am y swydd os oedd am barhau i fod yn gadeirydd pan ddeuai ei dymor i ben ym Mawrth. Ni ddigwyddodd hynny gyda chadeiryddion blaenorol, er enghraifft, cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn ystod y tair blynedd cyn i'r cadeirydd diweddaraf ddod i'w swydd.

Dywedodd aelod o'ch plaid rywdro nad plaid o bolisiau yw'r Blaid Lafur, ond plaid grym—plaid sy'n ceisio dal gafael ar rym. Dyna beth yr ydych wedi ei wneud yma. Onid yw'n wir, Weinidog, eich bod wrth benderfynu peidio ag ymestyn y cyfnod hwn o dair blynedd yn gyfnod newydd o dair blynedd, yn ceisio penodi rhywun a fyddai'n ymestyn, tra byddai'r cadeirydd hwn,

stand up to you and say that what you are doing is not in the best interests of Wales or the arts council? What you have done is disgraceful.

Geraint Talfan Davies, yn eich herio ac yn dweud nad yw'r hyn yr ydych yn ei wneud er budd Cymru na chyngor y celfyddydau? Mae'r hyn yr ydych wedi ei wneud yn gywilyddus.

3.50 p.m.

Alun Pugh: You need to be careful with the comments that you make in the Chamber and elsewhere, bearing in mind your special position as a nominee of the Culture, Welsh Language and Sport Committee, in terms of appointments and pre-judging matters. You need to go away and read the code of practice on public appointments.

Alun Pugh: Mae angen ichi fod yn ofalus gyda'r sylwadau yr ydych yn eu gwneud yn y Siambr ac mewn lleoedd eraill, o gofio'ch sefyllfa arbennig fel un a enwebwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ynglŷn â phenodiadau a rhagfarnu materion. Mae angen ichi fynd ati i ddarllen y cod ymarfer ar benodiadau cyhoeddus.

David Melding: To quote *The Life and Opinions of Tristram Shandy, Gentleman*, which is currently rather popular, what you have told us this afternoon is in fact 'a cock and bull story'. I was on the Health and Social Services Committee's public appointments panel for nearly seven years. I know how the system works. When a chair is up for reappointment for a second term, if the appraisal is strong and the chair has the Minister's confidence, he or she is reappointed. That is how the system works.

David Melding: A dyfynnu *The Life and Opinions of Tristram Shandy, Gentleman*, sy'n bur boblogaidd ar hyn o bryd, 'cock and bull story' yw'r hyn yr ydym wedi ei glywed gennych y prynhawn yma mewn gwirionedd. Bûm ar banel penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus am bron saith mlynedd. Gwn sut y mae'r system yn gweithio. Pan fo'r adeg wedi dod i ailbenodi cadeirydd am ail dymor, os yw'r gwerthusiad yn gryf ac os oes gan y Gweinidog bob ffydd yn y cadeirydd, bydd ef neu hi'n cael ei ailbenodi. Dyna sut y mae'r system yn gweithio.

You are technically correct in saying that you have not sacked the current chair, but I find it quite incredulous that you are telling us that he still has your confidence. He clearly does not. He could further embarrass you and seek reappointment, and he would have to be interviewed. The panel, no doubt, would be held in a constructive and proper way. I have no doubt about that because, in fairness, your party has improved the procedure for public appointments. However, the stark fact is that the current chair has lost your confidence. You are not prepared to reappoint him, as you could, subject to reappraisal and the agreement of the other members of the culture committee's appointment panel. That is the case. Christmas has come and gone, but we still have a turkey for an arts Minister.

Yr ydych yn dechnegol gywir wrth ddweud nad ydych wedi diswyddo'r cadeirydd presennol, ond mae'n anhygoel i mi eich bod yn dweud wrthym fod gennych bob ffydd ynddo o hyd. Mae'n amlwg nad oes gennych ffydd ynddo. Gallai achosi rhagor o embaras ichi a cheisio cael ei ailbenodi, a byddai'n rhaid ei gyfweld. Byddai'r panel, mae'n siŵr, yn cael ei gynnal mewn modd adeiladol a phriodol. Nid oes gennyf ddim amheuaeth ynglŷn â hynny oherwydd, a bod yn deg, mae eich plaid wedi gwella'r weithdrefn ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Fodd bynnag, y gwir plaen yw eich bod wedi colli ffydd yn eich cadeirydd presennol. Nid ydych yn barod i'w ailbenodi, fel y gallech, yn amodol ar ailwerthusiad a chytundeb aelodau eraill panel penodi'r pwyllgor diwylliant. Dyna'r gwir amdani. Mae'r Nadolig wedi mynd heibio, ond mae'r celfyddydau yn dal i fod dan adain twrci.

Alun Pugh: I am not sure what the question was, but it is true to say that the role of the chair is changing. The structure of the arts council is also changing, and there will be a new strategy for the arts, with participation and the need to get everyone involved at its core. Given the fact that the role of the chair is changing, I think it entirely appropriate to follow the clear precedent set in the past and to go for a public re-advertisement.

Carl Sargeant: Constituents such as mine and those of Huw Lewis and Lynne Neagle rarely have access to the arts, so they will hardly be interested in the appointment of this chap. The simple question is: have you followed, and are you following, the guidance on employing people to these positions? The answer is 'yes' or 'no', and not the cock-and-bull or the pantomime-horse statements made by opposition Members in the Chamber today.

Alun Pugh: The public appointments procedure will be followed to the letter in making this appointment—I can assure you of that, Carl. I am sure that you enjoyed the *Brassed Off* tour by Clwyd Theatr Cymru, which went into a Communities First area in your constituency, and many others. I have been brassed off by some of the comments made by opposition Members and the nonsense that I have heard from them today.

Leighton Andrews: I pay tribute to the work carried out by Geraint Talfan Davies as chair of the Arts Council of Wales. I have been pleased to welcome him to my constituency on at least three occasions, and all of his visits have been to Communities First wards. I am not sure whether I would ever think that the arts council, or any other public body, was spending enough on, or doing enough to encourage activity in, the arts in my constituency, but I hope that, in appointing a new chair, you will ensure that you appoint someone who is committed to the access agenda, as Geraint Talfan Davies has been. It is an important issue, and I agree with the comments made by Huw Lewis and Carl Sargeant about the fact that we want to encourage more people to have access to the arts in disadvantaged constituencies. I hope

Alun Pugh: Nid wyf yn siŵr beth oedd y cwestiwn, ond mae'n wir dweud bod rôl y cadeirydd yn newid. Mae strwythur cyngor y celfyddydau'n newid hefyd, a bydd strategaeth newydd ar gyfer y celfyddydau, gyda chyfranogiad a'r angen i gynnwys pawb yn greiddiol iddi. O ystyried y ffaith bod rôl y cadeirydd yn newid, credaf ei bod yn gwbl briodol dilyn y cynsail clir a bennwyd yn y gorffennol ac ailhysbysebu'n gyhoeddus.

Carl Sargeant: Anaml y bydd etholwyr megis fy rhai i a rhai Huw Lewis a Lynne Neagle yn cael mynediad at y celfyddydau, felly go brin y bydd ganddynt ddi-ddordeb ym mhenodiad yr unigolyn hwn. Y cwestiwn syml yw: a ydych wedi dilyn, ac a ydych yn dilyn, y canllawiau ar gyfer penodi pobl i'r swyddi hyn? Yr ateb yw 'do' neu 'naddo', ac nid y storïau celwydd golau neu'r datganiadau ceffyl pantomeim a wnaethpwyd gan aelodau o'r gwrthbleidiau yn y Siambr heddiw.

Alun Pugh: Dilynir y weithdrefn ar gyfer penodiadau cyhoeddus i'r llythyren wrth wneud y penodiad hwn—gallaf eich sicrhau ynghylch hynny, Carl. Yr wyf yn siŵr eich bod wedi mwynhau'r daith *Brassed Off* gan Clwyd Theatr Cymru, a aeth i ardal Cymunedau yn Gyntaf yn eich etholaeth chi, a nifer o rai eraill. Yr wyf wedi diflasu ar rai o'r sylwadau a wnaethpwyd gan aelodau o'r gwrthbleidiau a'r lol yr wyf wedi ei glywed ganddynt heddiw.

Leighton Andrews: Hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith a wnaethpwyd gan Geraint Talfan Davies fel cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru. Yr wyf wedi cael y pleser o'i groesawu i'm hetholaeth o leiaf deirgwaith, ac mae pob un o'i ymweliadau wedi bod â wardiau Cymunedau yn Gyntaf. Nid wyf yn siŵr a fyddwn fyth yn credu bod cyngor y celfyddydau, neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, yn gwario digon, neu'n gwneud digon i annog gweithgareddau yn y celfyddydau yn fy etholaeth, ond gobeithiaf, wrth benodi cadeirydd newydd, y byddwch yn sicrhau eich bod yn penodi rhywun sy'n ymroddedig i'r agenda'n ymwneud â mynediad, fel y mae Geraint Talfan Davies wedi bod. Mae'n fater pwysig, a chytunaf â'r sylwadau a wnaethpwyd gan Huw Lewis a Carl Sargeant fod arnom eisiau annog rhagor o bobl i gael

that that will be one criterion for this appointment.

Alun Pugh: It is true to say that I want someone who takes the access agenda seriously. I am looking here at the figures for Rhondda Cynon Taf, which currently has particularly low participation figures in terms of the arts. I am sure that you are not happy with the fact that the RCT figures are below those for Merthyr Tydfil and level with those for Blaenau Gwent. I know that that is an area that we both want to see addressed by any future chair.

Nick Bourne: It was a sad day for Wales when you failed to re-appoint Geraint Talfan Davies. I do not think that that is the central issue here, but I feel that we have lost an excellent ambassador for the arts in Wales, someone who was committed to widening access and participation. I congratulate the Minister on losing someone who was first-class at the job to the detriment of the whole of Wales.

The Minister, in failing to answer questions repeatedly from around the Chamber, has neglected to deal with the crucial issue here, namely the arts council's loss of confidence in the Minister, as demonstrated by the letter to him, which talks about the failure of dialogue, which has been kept quiet for long enough in the council's view. There have been no more than two meetings of the culture board in 14 months, as Lisa Francis mentioned in her question, which was not addressed by the Minister. I quote from the arts council letter:

'In 14 months, there has been no such dialogue.'

Is the Minister happy with this state of affairs? This is why we need a debate and why this statement is unsatisfactory. We need a debate with a proper vote at the end of it. That was the only reason why the business statement was defeated today. The Minister said, in the only part of his statement that I agreed with—and he will be put to the test

mynediad at y celfyddydau mewn etholaethau difreintiedig. Yr wyf yn gobeithio y bydd hyn yn un o'r meini prawf ar gyfer y penodiad hwn.

Alun Pugh: Mae'n wir dweud bod arnaf eisiau rhywun sy'n cymryd yr agenda'n ymwneud â mynediad o ddifrif. Yr wyf yn edrych yma ar y ffigurau ar gyfer Rhondda Cynon Taf, sydd â ffigurau cyfranogiad isel iawn ar hyn o bryd o ran y celfyddydau. Yr wyf yn sicr nad ydych yn fodlon â'r ffaith bod ffigurau RhCT yn is na'r rhai ar gyfer Merthyr Tudful ac yr un fath â'r rhai ar gyfer Blaenau Gwent. Gwn fod hwn yn faes y mae arnom ein dau eisiau ei weld yn cael sylw gan unrhyw gadeirydd yn y dyfodol.

Nick Bourne: Yr oedd y diwrnod pan na chafodd Geraint Talfan Davies ei ailbenodi yn ddiwrnod trist i Gymru. Nid wyf yn credu mai hwn yw'r mater canolog yma, ond teimlaf ein bod wedi colli llysgennad rhagorol i'r celfyddydau yng Nghymru, rhywun a oedd yn ymroddedig i ehangu mynediad a chyfranogiad. Yr wyf yn llongyfarch y Gweinidog ar golli rhywun a oedd yn gwneud ei waith yn rhagorol er anfantais i Gymru gyfan.

Mae'r Gweinidog, drwy beidio ag ateb cwestiynau dro ar ôl tro o bob rhan o'r Siambr, wedi osgoi delio â mater pwysig iawn, sef y ffaith bod cyngor y celfyddydau wedi colli ffydd yn y Gweinidog, fel y gwelwn yn y llythyr a anfonwyd ato, sy'n sôn am fethiant deialog rhyngddynt, ac a gadwyd yn dawel am hen ddigon o amser ym marn y cyngor. Ni chafwyd mwy na dau gyfarfod o'r bwrdd diwylliant mewn 14 mis, fel y crybwyllodd Lisa Francis yn ei chwestiwn, na roddwyd sylw iddo gan y Gweinidog. Yn ôl llythyr cyngor y celfyddydau:

Mewn 14 mis, ni chafwyd dim deialog o'r fath.

A yw'r Gweinidog yn fodlon â'r sefyllfa hon? Dyma pam mae angen inni gael dadl a dyma pam mae'r datganiad hwn yn anfoddhaol. Mae angen dadl gyda phleidlais iawn ar ei diwedd. Dyna'r unig reswm pam mae'r datganiad busnes wedi ei drechu heddiw. Dywedodd y Gweinidog, yn yr unig ran o'i ddatganiad yr oeddwn yn cytuno â

when we see the revised business statement—that he was willing to engage in a reasoned debate on this issue. That being the case, I am surprised that he has not accommodated a debate on this vital issue. I trust that that will happen on the central issue of the lack of confidence in you, Minister, on the part of the arts council and, I suspect, the wider arts community in Wales.

Alun Pugh: Lisa Francis asked me several questions along the lines of why we have not made the minutes of the culture board available. Actually, they are on the website, if you would care to look.

The culture board has met twice. That is a strategic body, which consists of several public bodies, such as the national library, the arts council and the national museum. I have had many meetings with the component members of that culture board, so it is entirely wrong of you to portray some sort of stagnation in the arts. I reaffirm that the arts in Wales are in good health, largely as a result of the record investment that the Assembly Government has delivered.

Michael German: Your answers this afternoon illustrate the problem that we face of a lack of confidence among the arts community in Wales—exactly the opposite of what you said. It is clear from Leighton Andrews's contribution that the access agenda is, has been, and continues to be addressed by the Arts Council of Wales, as it was by Geraint Talfan Davies when he was chair of the Welsh National Opera. Your acceptance of the peer report of Arts Council England, as put to you by Denise Idris Jones, is enlightening because that very same report concludes that the arm's-length principle of having a Minister and the arts council in between is to be upheld and continued. Therefore, you can pick and choose your bits and pieces, but to welcome the report indicates that you welcome only those parts that are acceptable to you. The general thrust and conclusion of the report was in that direction.

hi—a bydd yn cael ei roi ar brawf pan fyddwn yn gweld y datganiad busnes diwygiedig—ei fod yn fodlon cymryd rhan mewn dadl resymegol ar y mater hwn. Gan mai felly y mae, yr wyf yn synnu nad yw wedi trefnu dadl ar y mater hollbwysig hwn. Hyderaf y cawn ddadl ar y mater canolog, sef y diffyg hyder ynoch chi, Weinidog, ar ran cyngor y celfyddydau ac, yr wyf yn tybio, ar ran y celfyddydau yn ehangach yng Nghymru.

Alun Pugh: Gofynnodd Lisa Francis nifer o gwestiynau imi yn ymwneud â pham nad ydym wedi rhyddhau cofnodion y bwrdd diwylliant. Mewn gwirionedd, maent ar y wefan, pe baech yn edrych.

Mae'r bwrdd diwylliant wedi cyfarfod ddwywaith. Corff strategol yw hwn, ac mae'n cynnwys nifer o gyrff cyhoeddus, fel y llyfrgell genedlaethol, cyngor y celfyddydau a'r amgueddfa genedlaethol. Yr wyf wedi cynnal llawer o gyfarfodydd gydag aelodau'r bwrdd diwylliant hwn, felly nid yw'n iawn o gwbl eich bod yn cyfleu rhyw fath o farweidd-dra yn y celfyddydau. Yr wyf yn datgan unwaith eto fod y celfyddydau yng Nghymru yn fyw ac yn iach, yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi mwy nag erioed ynddo.

Michael German: Mae eich atebion y prynhawn yma yn dangos y broblem sydd gennym, sef diffyg hyder ymhlith cymuned y celfyddydau yng Nghymru—sy'n gwbl groes i'r hyn a ddywedasoeh chi. Mae'n amlwg yn ôl cyfraniad Leighton Andrews fod yr agenda'n ymwneud â mynediad yn cael sylw, wedi cael sylw, ac yn dal i gael sylw gan Gyngor Celfyddydau Cymru, fel yr oedd gan Geraint Talfan Davies pan oedd yn gadeirydd Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru. Mae'r ffaith eich bod yn derbyn adroddiad y corff cyfatebol, sef Cyngor Celfyddydau Lloegr, fel yr awgrymodd Denise Idris Jones wrthyhych, yn galonogol, oherwydd y mae'r adroddiad hwnnw'n dod i'r casgliad bod yr egwyddor hyd braich o gael Gweinidog a chyngor y celfyddydau yn y canol i'w chadw a'i pharhau. Felly, gallwch ddewis a dethol yr hyn a fyynnwch, ond mae croesawu'r adroddiad yn dangos nad ydych ond yn croesawu'r rhannau hynny sy'n dderbyniol i

chi. Yr oedd cnewyllyn a chasgliad cyffredinol yr adroddiad yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw.

Finally, you accepted Huw Lewis's views that the budget for the big six is too big. That is the reality of what he said and demanded—the reduction of the budget to place the money elsewhere. What problem is your take-over of the big six trying to fix? What benefits is it supposed to accrue? Given that you have not answered the Arts Council of Wales's letter of 4 November, do you intend to publish a written response? Will you make that response available to the Assembly so that we can discuss this properly in a debate that has a motion before it, so that we can see the colour of your response very clearly? A response is needed and we need to see it. Do you intend to make one, Minister?

Yn olaf, derbyniasoch safbwynt Huw Lewis fod y gyllideb ar gyfer y chwe chwmmi mawr yn rhy fawr. Dyna realiti'r hyn a ddywedodd ac a fynnodd—lleihau'r gyllideb er mwyn rhoi'r arian yn rhywle arall. Pa broblem yr ydych yn ceisio ei datrys drwy gymryd y chwe chwmmi mawr drosodd? Pa fanteision y mae hyn i fod i'w creu? O gofio nad ydych wedi ateb llythyr dyddiedig 4 Tachwedd Cyngor Celfyddydau Cymru, a ydych yn bwriadu cyhoeddi ateb ysgrifenedig? A fyddwch yn sicrhau bod yr ateb hwnnw ar gael i'r Cynulliad fel bod modd inni ei drafod yn briodol mewn dadl gyda chynnig, er mwyn inni allu gweld gwir natur eich ymateb yn glir iawn? Mae angen ateb ac mae angen inni ei weld. A ydych yn bwriadu gwneud un, Weinidog?

Alun Pugh: I certainly did not say that the big six are too generously funded. It is difficult to take anything that you say on this issue seriously given that you stated in the *Western Mail* that I will be choosing the operas that the WNO will perform. Do you really think that, or was it just a wobbly thought on a Saturday morning?

Alun Pugh: Yn sicr ni ddywedais fod y chwe chwmmi mawr yn cael gormod o arian. Mae'n anodd cymryd dim byd yr ydych yn ei ddweud ar y mater hwn o ddifrif o gofio eich bod wedi dweud yn y *Western Mail* mai fi fydd yn dewis pa operâu y bydd WNO yn eu perfformio. A ydych yn credu hynny mewn gwirionedd, ynteu ai rhyw syniad gwirion a ddaeth i'ch pen ar fore Sadwrn ydoedd?

4.00 p.m.

Pwynt o Drefn Point of Order

Mark Isherwood: I raise a point of order under Standing Order No. 7.2 and seek your guidance on comments made by Carl Sargeant relating to workplace bullying. In this context, a further damning confidential report into Flintshire County Council has been produced. The chief executive chose to go to the local press, and report publicly and widely allegations of bullying against opposition members. In response to that, I issued a letter to the local press quoting from legal documents and public records. A former Labour councillor has referred that to the—*[Interruption.]*

Mark Isherwood: Codaf bwynt o drefn dan Reol Sefydlog 7.2 a gofynnaf am arweiniad gennych ynglŷn â sylwadau a wnaed gan Carl Sargeant ynghylch bwlio yn y gweithle. Yn y cyswllt hwn, mae adroddiad cyfrinachol damniol arall ar Gyngor Sir y Fflint wedi'i gynhyrchu. Dewisodd y prif weithredwr fynd at y wasg leol, ac adrodd yn gyhoeddus ac yn eang ar yr honiadau o fwlio yn erbyn aelodau o'r gwrthbleidiau. Mewn ymateb i hynny, anfonais innau lythyr at y wasg leol yn dyfynnu o ddogfennau cyfreithiol a chofnodion cyhoeddus. Mae cyn gynghorydd Llafur wedi ei gyfeirio at—*[Torri ar draws.]*

The Presiding Officer: Order. I am still

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf yn dal i aros i

waiting to hear what matter concerns me in this point of order.

Mark Isherwood: A former Labour councillor has referred that letter to the standards committee, which will be procedurally processed through the commissioner. Do you agree that we should wait for the commissioner's conclusion before we draw any conclusions ourselves?

The Presiding Officer: Order. No, I do not agree with you; this is not a point of order for me. I will not allow points of order to be used to raise matters that are extraneous to our debates here.

glywed pa fater sy'n berthnasol i mi yn y pwynt o drefn hwn.

Mark Isherwood: Mae cyn gynghorydd Llafur wedi cyfeirio'r llythyr hwnnw at y pwyllgor safonau, a fydd yn cael ei brosesu yn ôl y weithdrefn drwy'r comisiynydd. A ydych yn cytuno y dylem aros am gasgliad y comisiynydd cyn inni ddod i unrhyw gasgliad ein hunain?

Y Llywydd: Trefn. Na, nid wyf yn cytuno â chi; nid yw hwn yn bwynt o drefn i mi. Ni wnaif ganiatáu i bwyntiau o drefn gael eu defnyddio i godi materion sy'n amherthnasol i'n dadleuon yma.

Cymeradwyo Rheoliadau o dan Reol Sefydlog Rhif 24.25 Approval of Regulations under Standing Order No. 24.25

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 24.25, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn.

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 24.25, this motion is not subject to debate.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiau fod

the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 24.25:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.25:

1a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office on 6 December 2005 on the draft the Public Rights of Way (Registers) (Wales) Regulations 2006; and

1a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2005 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Cofrestrau) (Cymru) 2006; a

b) approves that the Public Rights of Way (Registers) (Wales) Regulations 2006 are made in accordance with:

b) yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Cofrestrau) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) the draft regulations laid in the Table Office on 29 November 2005; and

i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2005; a

ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 29 November 2005;

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2005;

2a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office on 6 December 2005 on the draft the Education (Information About Individual Pupils) (Wales) (Amendment) Regulations 2006; and

2a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2005 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

- | | |
|---|---|
| <p><i>b) approves that the Education (Information About Individual Pupils) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 are made in accordance with:</i></p> <p><i>i) the draft regulations laid in the Table Office on 29 November 2005; and</i></p> <p><i>ii) the regulatory appraisal laid in the Table on 29 November 2005. (NDM2751)</i></p> | <p><i>b) yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:</i></p> <p><i>i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2005; a</i></p> <p><i>ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2005. (NDM2751)</i></p> |
|---|---|

*Cynnig (NDM2751): O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2751): For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Cymeradwyo Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006 Approval of the Tir Cynnal (Wales) Regulations 2006

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Cynigiad fod
The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales:

yn ystyried egwyddor Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2005. (NDM2752)

considers the principle of the Tir Cynnal (Wales) Regulations 2006 a copy of which was laid in Table Office on 29 November 2005 (NDM2752)

Cynigiad fod

I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

the National Assembly for Wales

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006; a

1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office on 6 December 2005 in relation to the draft the Tir Cynnal (Wales) Regulations 2006; and

2. yn cymeradwyo bod Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

2. approves that the draft the Tir Cynnal (Wales) Regulations 2006 are made in accordance with:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2005; a

a) the draft laid in the Table Office on 29 November 2005; and

b) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 2005; a

b) the memorandum of corrections laid in the Table Office on 8 December 2005; and

c) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2005. (NDM2753)

c) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 29 November 2005. (NDM2753).

Brynle Williams: I welcome Tir Cynnal, and recognise the valuable role that it will play for those farmers unable to participate in Tir Gofal or Tir Mynydd. With funding coming from modulation, matched by the Treasury, there is an obvious need to see that this money is spent. Tir Cynnal offers an excellent means of delivering real benefits to the countryside as a whole. The simplicity of

Brynle Williams: Yr wyf yn croesawu Tir Cynnal, ac yn cydnabod y rôl werthfawr y bydd yn ei chwarae i'r ffermwyr hynny na allan gymryd rhan yn y cynllun Tir Gofal neu'r cynllun Tir Mynydd. Gyda'r cyllid yn dod o fodiwleiddio, ac arian cyfatebol gan y Trysorlys, yn amlwg mae angen gweld bod yr arian hwn yn cael ei wario. Mae Tir Cynnal yn cynnig ffordd wych o ddarparu manteision

this scheme is one of its best features. I would like an assurance from you, Minister, that this will not be compromised with unnecessary bureaucracy in the future. What assurances can you give me, Minister, that the cuts from the environment, planning and countryside budget will not affect this scheme?

Mick Bates: The Welsh Liberal Democrats welcome the regulations for Tir Cynnal. I agree with Brynle about the scheme's simplicity, which is welcome, and possibly helps to reduce the bureaucratic process in some way. It goes a long way to enhance the vision held in Wales that agri-environment schemes are useful in promoting sustainable development.

I draw your attention, Minister, to the risk assessment in the regulatory appraisal. The major reason given in this document for the scheme to be introduced is that

'there is a serious risk of underspending of modulated funds'.

Previously, when I have put this statement to you, Minister, you have denied that there would ever be a risk of underspending. Here it is, in print. You do not need to comment on it—the message is there clear for you, that you had no plans to spend these modulated receipts from farmers. That is why you need Tir Cynnal.

When we look at the full implication of modulation, and we link it with the budget settlement that has just taken place in Europe, there are suggestions that there may be a shortfall of some €40 million to the UK for agricultural budgets. To cover this, there is a suggestion that modulation would have to increase to 20 per cent. As you are aware, this scheme will run for 10 years—that is the indication—and there is a break clause at five years. What is your current view, Minister, of the security and sustainability of Tir Cynnal with the threat—although the threat may not come about because the final decision will be in February and March—of the reduction in agricultural funding to the UK, and in particular to Wales? It seems that the renationalising of part of the CAP could be of

gwirioneddol i gefn gwlad yn gyffredinol. Symlwydd y cynllun yw un o'i nodweddion gorau. Hoffwn dderbyn sicrwydd gennych, Weinidog, nad amherir ar hyn gan fiwrocratiaeth ddiangen yn y dyfodol. Pa sicrwydd y gallwch ei roi imi, Weinidog, na fydd y toriadau yng nghyllideb yr amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad yn effeithio ar y cynllun hwn?

Mick Bates: Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'r rheoliadau ar gyfer Tir Cynnal. Cytunaf â Brynle ynghylch symlwydd y cynllun, sydd i'w groesawu, ac a fydd efallai'n helpu i leihau'r broses fiwrocraidd i raddau. Mae'n gwneud llawer i gadarnhau'r weledigaeth yng Nghymru fod cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ddefnyddiol i hybu datblygu cynaliadwy.

Tynnaf eich sylw, Weinidog, at yr asesiad risg yn y gwerthusiad rheoleiddiol. Y prif reswm a roddir yn y ddogfen hon dros gyflwyno'r cynllun yw bod

perygl difrifol i gyllid modiweiddio gael ei danwario.

Yn flaenorol, pan soniais am hyn wrthy, Weinidog, yr oeddech yn gwadu na fyddai byth berygl i danwario ddigwydd. Dyma'r gwir, mewn print. Nid oes raid ichi ddweud dim—mae'r neges yn glir, nad oedd gennych gynlluniau i wario'r derbyniadau modiweiddio hyn gan ffermwyr. Dyna pam mae angen Tir Cynnal arnoch.

Pan edrychwn ar oblygiadau llawn modiweiddio, a'i gysylltu â'r setliad cyllideb sydd newydd ddigwydd yn Ewrop, awgrymir y gallai fod diffyg o tua €40 miliwn i'r DU ar gyfer cyllidebau amaethyddol. I dalu am hyn, awgrymir y byddai'n rhaid i fodiweiddio gynyddu i 20 y cant. Fel y gwyrddoch, bydd y cynllun hwn yn para am 10 mlynedd—dyna'r sôn—ac mae cymal torri ar ôl pum mlynedd. Beth yw eich barn ar hyn o bryd, Weinidog, ynghylch sicrwydd a chynaliadwyedd Tir Cynnal o ystyried y bygythiad—er efallai na wireddir y bygythiad oherwydd bydd y penderfyniad terfynol ym mis Chwefror a Mawrth—ynghylch y lleihad mewn cyllid amaethyddol i'r DU, ac yn enwedig i Gymru? Ymddengys y gallai ailwladoli rhan o'r polisi amaethyddol cyffredin fod o fudd yma. A

benefit here. Will you make a commitment today that farmers' payments will not be modulated at a higher rate because of that EU budget settlement? Finally, I understand that the regulations say that any agri-environment scheme must enhance the agri-environment situation above and beyond the standard considered for cross-compliance. Will the Minister tell us how Tir Cynnal is taking us to a higher environmental standard than the cross-compliance issues that will be implemented as part of the new single farm payment?

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): First, in terms of the scheme itself, it is financed through a combination of modulation and match funding, and not from the Assembly's own resources. The environment, planning and countryside budget is therefore a red herring in relation to that. Mick Bates is right, and he knows full well, that modulation will have to increase—from 2009 onwards, if I remember correctly—if we are to sustain spending on our various pillar 2 schemes. We know that.

Glyn Davies: You have just said that modulation levels may have to increase. Will you give us an assurance that match funding will also increase in line with the increase in modulation levels in the future? My understanding was that the agreement in Europe recently meant that core financing and match funding were no longer necessary.

Carwyn Jones: That is correct, but it does not mean that it will not happen, because we are in negotiation with the Treasury at the moment to extend match funding beyond 2006-07. What the new regulations say at the European level is that match funding is not compulsory. That does not mean that member states are not able to do it. Thus far, on two separate occasions, we have been successful in obtaining match funding, and it is right to say that it is essential in order for us to continue with the good progress that has been made so far with pillar 2 schemes. Nevertheless, as the committee knows, having seen the figures presented before Christmas, by 2009, further modulation will need to be considered in order to keep these

wnewch addo heddiw na fydd taliadau ffermwyr yn cael eu modiwlleiddio ar gyfradd uwch o ganlyniad i setliad cyllideb yr Undeb Ewropeaidd? Yn olaf, deallaf fod y rheoliadau yn dweud bod yn rhaid i unrhyw gynllun amaeth-amgylcheddol wella'r sefyllfa amaeth-amgylcheddol yn fwy na'r safon a ystyrir ar gyfer traws-gydymffurfio. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym sut y bydd Tir Cynnal yn cyflwyno safon amgylcheddol uwch na'r materion traws-gydymffurfio a weithredir fel rhan o'r taliad sengl newydd?

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Yn gyntaf oll, o ran y cynllun ei hun, mae'n cael ei ariannu gan gyfuniad o fodiwlleiddio ac arian cyfatebol, ac nid o adnoddau'r Cynulliad ei hun. Felly, tipyn o sgwarnog yw cyllideb yr amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad yng nghyswllt hynny. Mae Mick Bates yn iawn, ac mae'n gwybod hynny'n burion, y bydd yn rhaid i fodiwlleiddio gynyddu—o 2009 ymlaen, os cofiaf yn iawn—os ydym am gynnal y gwariant ar ein gwahanol gynlluniau colofn 2. Gwyddom hynny.

Glyn Davies: Yr ydych newydd ddweud y gall fod yn rhaid i lefelau modiwlleiddio gynyddu. A wnewch roi sicrwydd inni y bydd yr arian cyfatebol hefyd yn cynyddu yn unol â'r cynnydd mewn lefelau modiwlleiddio yn y dyfodol? Yn ôl yr hyn a ddeallaf, yr oedd y cytundeb diweddar yn Ewrop yn golygu nad oedd angen cyllid craidd ac arian cyfatebol mwyach.

Carwyn Jones: Mae hynny'n gywir, ond nid yw'n golygu na fydd yn digwydd, oherwydd yr ydym wrthi'n trafod â'r Trysorlys ar hyn o bryd ynghylch ymestyn arian cyfatebol ar ôl 2006-07. Yr hyn y mae'r rheoliadau newydd yn ei ddweud ar lefel Ewropeaidd yw nad yw arian cyfatebol yn orfodol. Nid yw'n golygu nad yw aelod-wladwriaethau'n cael gwneud hynny. Hyd yma, ar ddau achlysur gwahanol, llwyddasom i ddenu arian cyfatebol, ac mae'n iawn dweud ei fod yn hanfodol inni fedru parhau gyda'r cynnydd da a wnaed hyd yma gyda chynlluniau colofn 2. Er hynny, fel y gŵyr y pwyllgor, ar ôl gweld y ffigurau a gyhoeddwyd cyn y Nadolig, erbyn 2009 bydd angen ystyried rhagor o fodiwlleiddio er mwyn sicrhau parhad y cynlluniau hyn.

schemes going.

I was amused to hear Mick Bates's comment. He basically said that if we did not have Tir Cynnal we would not spend the money. Of course not—the money is there to pay for Tir Cynnal. It is quite right to say that if you raise money to pay for a scheme and then you do not have the scheme, there will, of course, be an underspend.

Mick Bates: The point is one of your competence, Minister, in having a planned expenditure of the modulated receipts. You did not have a plan to spend these modulated receipts. The Tir Cynnal regulations were rushed through Europe in order to ensure that you had at least some mechanism to spend the money. Furthermore, it has not been that successful, because only 35 per cent of farmers have joined the scheme.

Carwyn Jones: Tir Cynnal has been in the pipeline for some years. It is right to say that we needed approval at European level, and we needed to get that done as quickly as possible to bring the regulations before the Assembly this afternoon. Mick's argument seems to be that if we did not have the scheme, we would not spend the money. Of course not—that is why we have the scheme and why we raised the money in the first place, otherwise we would not need it. It is not the case to say that there will be an underspend. This is a very successful scheme and it has been promoted by this Labour Government. It is of great benefit to farmers and the countryside, and will mean, because of the requirements of the scheme, that many more farmers who would otherwise be unable to enter agri-environment schemes will now get the chance. It is important for all of us to ensure that our environment is as enhanced and attractive as possible for all those people who enjoy the countryside. That is why we have introduced this measure, and we are well on the way to developing a suite of agri-environmental options that is already the envy of Europe and will continue to be so in the future. I am very happy to propose the regulations in the assurance that there is money to pay for them. That is why the

Yr oedd yn ddifyr clywed sylw Mick Bates. Yn y bôn, yr hyn a ddywedodd oedd, pe na bai Tir Cynnal gennym, na fyddem yn gwario'r arian. Wrth gwrs na fyddem—mae'r arian yno i dalu am Dir Cynnal. Mae'n hollol iawn dweud os ydych yn codi arian i dalu am gynllun, ac wedyn, nad ydych yn rhoi'r cynllun hwnnw ar waith, y bydd, wrth gwrs, yn achosi tanwariant.

Mick Bates: Mae'r pwynt yn ymwneud â'ch cymhwysedd, Weinidog, o ran bod gennych gynllun sut i wario'r derbyniadau modiwlleiddio. Nid oedd gennych gynllun i wario'r derbyniadau modiwlleiddio hyn. Cafodd y rheoliadau Tir Cynnal eu prysuro drwy Ewrop er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ryw fath o fecanwaith i wario'r arian. Ar ben hynny, nid yw wedi bod mor llwyddiannus â hynny, oherwydd dim ond 35 y cant o ffermwyr sydd wedi ymuno â'r cynllun.

Carwyn Jones: Mae Tir Cynnal wedi bod ar y gweill ers rhai blynyddoedd. Mae'n iawn dweud bod angen sêl bendith arnom ar lefel Ewropeaidd, a'n bod wedi gorfod gwneud hynny cyn gynted â phosibl i ddod â'r rheoliadau gerbron y Cynulliad y prynhawn yma. Ymddengys mai dadl Mick yw pe na bai'r cynllun yn bodoli, na fyddem yn gwario'r arian. Wrth gwrs na fyddem—dyna pam y mae'r cynllun yn bodoli a pham y bu inni godi'r arian yn y lle cyntaf. Fel arall, ni fyddai ei angen arnom. Nid yw'n wir dweud y bydd tanwariant. Mae hwn yn gynllun pur lwyddiannus ac wedi ei hyrwyddo gan y Llywodraeth Lafur bresennol. Mae o fudd mawr i ffermwyr a chefn gwlad, ac yn golygu, oherwydd gofynion y cynllun, y bydd llawer mwy o ffermwyr na fyddent fel arall yn gallu ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol yn awr yn cael y cyfle. Mae'n bwysig inni i gyd sicrhau bod ein hamgylchedd mor gyfoethog a deniadol â phosibl i bawb sy'n mwynhau cefn gwlad. Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno'r mesur hwn, ac yr ydym eisoes wedi gwneud camau breision i ddatblygu ystod o opsiynau amaeth-amgylcheddol sy'n destun cenfigen yn Ewrop ers tro, ac yn sicr o barhau i fod yn y dyfodol. Yr wyf yn falch iawn o gynnig y rheoliadau gan wybod bod sicrwydd bod

money was raised in the first place.

arian i dalu amdanynt. Dyna pam y codwyd yr arian yn y lle cyntaf.

Cynnig (NDM2752): O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 1.

Motion (NDM2752): For 50, Abstain 0, Against 1.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelod canlynol yn erbyn:
The following Member voted against:

Melding, David

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Cynnig (NDM2753): O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion (NDM2753): For 52, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.10 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.10 p.m.*

**Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru)
Minority Party Debate (Plaid Cymru)**

**Tlodi Tanwydd
Fuel Poverty**

Motion (NDM2750): to propose that

Cynnig (NDM2750): cynnig bod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. deplores the fact that at least 1,500 people died of cold-weather related illnesses in Wales during the relatively mild winter of 2004-05;

1. yn gresynu at y ffaith bod o leiaf 1,500 o bobl wedi marw o afiechydon cysylltiedig â thywydd oer yng Nghymru yn ystod gaeaf cymharol fwyn 2004-05;

2. notes that the Welsh Assembly has failed to develop Welsh fuel poverty indicators and calls on the Welsh Assembly Government to:

2. yn nodi bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi methu â datblygu dangosyddion tlodi tanwydd i Gymru ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) compile suitable fuel poverty indicators and a national strategy for the identification of those unable to afford to heat their homes and bring these for the approval of the National Assembly within four months;

a) lunio dangosyddion tlodi tanwydd addas a strategaeth genedlaethol er mwyn canfod y rhai sy'n methu â fforddio cynhesu eu cartrefi a dod â'r strategaeth a'r dangosyddion hyn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w cymeradwyo o fewn pedwar mis;

b) review its fuel poverty strategy to:

b) adolygu ei strategaeth tlodi tanwydd i:

i) include a flexible home energy efficiency scheme that will more effectively target those most at risk of fuel poverty, especially those with few fuel options;

i) gynnwys cynllun effeithlonrwydd ynni cartref a fydd yn targedu'n fwy effeithiol y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi tanwydd, yn enwedig y rhai sydd ag ychydig o ddewis o ran ynni;

ii) include implementation of micro-generation projects for households not connected to the gas network;

ii) cynnwys rhoi prosiectau microgynhyrchu ar waith ar gyfer cartrefi nad ydynt wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy;

iii) call on local authorities to prioritise the fuel poor when implementing the Welsh housing quality standard;

iii) galw ar awdurdodau lleol i flaenoriaethu'r bobl dlawd o ran tanwydd wrth roi safon ansawdd tai Cymru ar waith;

c) make representation to the UK Government to:

c) cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i:

i) devolve the necessary powers that will ensure that all new properties are energy efficient;

i) ddatganoli'r pwerau angenrheidiol i sicrhau bod pob eiddo newydd yn effeithlon o ran ynni;

ii) consider extending winter fuel payments to other vulnerable groups;

ii) ystyried ehangu'r taliadau tanwydd gaeaf i grwpiau eraill sy'n agored i niwed;

iii) maximise the income of the fuel poor;

iii) sicrhau bod gan bobl dlawd o ran

tanwydd gymaint o incwm ag y bo modd;

iv) guarantee security of energy supplies for Wales. *iv) gwarantu sicrwydd cyflenwadau ynni i Gymru.*

Amendment 1 in the name of Lisa Francis. Insert in point 2a) after 'homes': Gwelliant 1 yn enw Lisa Francis. Ym mhwynt 2a) ar ôl 'cartrefi', rhoi:

together with measures for assisting the vulnerable people identified *ynghyd â chymau i gynorthwyo'r bobl agored-i-niwed a ganfyddir*

Amendment 2 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion: Gwelliant 2 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

expresses concern at the slow progress in achieving the Welsh housing quality standard by 2012. *yn mynegi pryder ynghylch y cynnydd araf tuag at gyflawni safon ansawdd tai Cymru erbyn 2012.*

Amendment 3 in the name of Lisa Francis. Add new point at end of motion: Gwelliant 3 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

notes that the Scottish Executive has threatened court action against Scottish local authorities which failed to submit their Home Energy Conservation Act improvement target reports. *yn nodi bod Gweithrediaeth yr Alban wedi bygwth cymryd camau cyfreithiol yn erbyn awdurdodau lleol yr Alban a fethodd â chyflwyno'u hadroddiadau targedau gwella dan y Ddeddf Arbed Ynni Cartref.*

Amendment 4 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion: Gwelliant 4 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Welsh Assembly Government to take action based upon those measures introduced in Scotland to encourage Welsh local authorities to report Home Energy Conservation Act progress to the National Assembly for Wales. *yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd camau ar sail y mesurau hynny a gyflwynwyd yn yr Alban i annog awdurdodau lleol Cymru i gyflwyno adroddiadau am eu cynnydd yng nghyswllt y Ddeddf Arbed Ynni Cartref i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

The Deputy Presiding Officer: I will be applying a time limit of three minutes to Members, apart from those who move motions or reply for the Executive. **Y Dirprwy Lywydd:** Byddaf yn rhoi cyfyngiad amser o dri munud i Aelodau, ar wahân i'r rhai sy'n cynnig cynigion neu'n ymateb ar ran y Weithrediaeth.

I have selected amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of Lisa Francis. Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3, a 4 yn enw Lisa Francis.

Janet Ryder: I propose that

Janet Ryder: Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. deplores the fact that at least 1,500 people died of cold-weather related illnesses in Wales during the relatively mild winter of 2004-05; *1. yn gresynu at y ffaith bod o leiaf 1,500 o bobl wedi marw o afiechydon cysylltiedig â thywydd oer yng Nghymru yn ystod gaeaf cymharol fwyn 2004-05;*

2. notes that the Welsh Assembly has failed to *2. yn nodi bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi*

develop Welsh fuel poverty indicators and calls on the Welsh Assembly Government to:

a) compile suitable fuel poverty indicators and a national strategy for the identification of those unable to afford to heat their homes and bring these for the approval of the National Assembly within four months;

b) review its fuel poverty strategy to:

i) include a flexible home energy efficiency scheme that will more effectively target those most at risk to fuel poverty, especially those with few fuel options;

ii) include implementation of micro-generation projects for households not connected to the gas network;

iii) call on local authorities to prioritise the fuel poor when implementing the Welsh housing quality standard.

c) make representation to the UK Government to:

i) devolve the necessary powers that will ensure that all new properties are energy efficient;

ii) consider extending winter fuel payments to other vulnerable groups;

iii) maximise the income of the fuel poor;

iv) guarantee security of energy supplies for Wales. (NDM2750)

Last winter in Wales, at least 1,500 people died of the cold. It is a simple, stark and shocking statistic, yet the winter of 2004-05 was a relatively mild one. Deplorable as that statistic is, given that we are now only midway through what is forecast to be a much colder winter, we can only guess at how many more will face that tragic fate this year simply because they cannot afford to heat their homes.

methu â datblygu dangosyddion tlodi tanwydd i Gymru ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) lunio dangosyddion tlodi tanwydd addas a strategaeth genedlaethol er mwyn canfod y rhai sy'n methu â fforddio cynhesu eu cartrefi a dod â'r strategaeth a'r dangosyddion hyn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w cymeradwyo o fewn pedwar mis;

b) adolygu ei strategaeth tlodi tanwydd i:

i) gynnwys cynllun effeithlonrwydd ynni cartref a fydd yn targedu'n fwy effeithiol y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi tanwydd, yn enwedig y rhai sydd ag ychydig o ddewis o ran ynni;

ii) cynnwys rhoi prosiectau microgynhyrchu ar waith ar gyfer cartrefi nad ydynt wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy;

iii) galw ar awdurdodau lleol i flaenoriaethu'r bobl dlawd o ran tanwydd wrth roi safon ansawdd tai Cymru ar waith;

c) cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i:

i) ddatganoli'r pwerau angenrheidiol i sicrhau bod pob eiddo newydd yn effeithlon o ran ynni;

ii) ystyried ehangu'r taliadau tanwydd gaeaf i grwpiau eraill sy'n agored i niwed;

iii) sicrhau bod gan bobl dlawd o ran tanwydd gymaint o incwm ag y bo modd;

iv) gwarantu sicrwydd cyflenwadau ynni i Gymru. (NDM2750)

Y gaeaf diwethaf yng Nghymru, bu farw o leiaf 1,500 o bobl o'r oerni. Mae'n ystadegyn syml, moel a dychrynlyd, eto yr oedd gaeaf 2004-05 yn un cymharol dyner. Er mor warthus yw'r ystadegyn hwnnw, o gofio nad ydym erbyn hyn ond hanner ffordd drwy aeaf sydd, yn ôl y darogan, i fod yn un llawer oerach, ni allwn ond dyfalu faint mwy a fydd yn wynebu'r ffawd erchyll honno eleni a hynny oherwydd na allant fforddio cynhesu eu cartrefi, a dim arall.

At its worst, fuel poverty is a killer, but it is also a major cause of illness, psychological distress, social isolation, and poor educational performance. It is with a sense of urgency, therefore, that Plaid Cymru has tabled this important motion for debate in the Assembly today. In bringing this motion forward, we acknowledge the valuable work undertaken in this field by many different groups, such as Help the Aged, Citizens Advice, Energywatch, National Energy Action, and the National Right to Fuel Campaign. Plaid Cymru will accept all of the Conservative amendments.

The factors that cause fuel poverty are exacerbated in Wales for obvious reasons: we have lower incomes, the poor energy efficiency of older housing stock, higher average fuel prices, underoccupation, larger homes, and a greater need for warmth in homes where the household contains occupants that are elderly, have a disability, or are young children. Energywatch estimates that 360,000 households in Wales, 31 per cent, are in fuel poverty and 72,000, 6 per cent, are in severe fuel poverty, which is defined as the need to spend more than 10 per cent of the household income in order to obtain a healthy and warm living environment. Compare that to estimates in England of 22 per cent and 3 per cent respectively, and it is plain that the problem is much worse here in Wales.

Previous estimates of fuel poverty were gleaned from the take-up of the home energy efficiency schemes, later supplanted by figures from the 2004 Welsh house condition survey, which showed between 130,000 and 170,000 households in fuel poverty. Based on an analysis of energy prices, the NEA and the National Right to Fuel Campaign estimate that in 2005-06 we will have between 234,000 and 304,000 households in fuel poverty.

How we collect data in Wales is not sufficient, according to an NEA report. Its review of fuel poverty in the UK states that,

Ar ei waethaf, mae tlodi tanwydd yn lladd, ond mae hefyd yn un o brif achosion gwaeledd, gofid seicolegol, arwahanrwydd cymdeithasol, a pherfformiad addysgol gwael. Mae Plaid Cymru felly'n cyflwyno'r cynnig pwysig hwn i'w drafod yn y Cynulliad heddiw gyda theimlad o gryn frys. Wrth roi'r cynnig hwn gerbron, yr ydym yn cydnabod y gwaith gwerthfawr a wnaethpwyd yn y maes hwn gan nifer o wahanol grwpiau, fel Help the Aged, Cyngor ar Bopeth, Golwg ar Ynni, National Energy Action a'r National Right to Fuel Campaign. Bydd Plaid Cymru yn derbyn pob un o welliannau'r Ceidwadwyr.

Mae'r ffactorau sy'n achosi tlodi tanwydd yn waeth yng Nghymru am resymau amlwg: mae ein hincwm yn is, effeithlonrwydd ynni gwael y stoc dai hŷn, prisiau tanwydd uwch ar gyfartaledd, tanfeddiannaeth, cartrefi mwy, a mwy o angen cynhesrwydd mewn cartrefi sy'n cynnwys pobl oedrannus, rhai sydd ag anabledd, neu blant ifanc. Yn ôl Golwg ar Ynni, mae 360,000 o gartrefi yng Nghymru, 31 y cant, yn dioddef oherwydd tlodi tanwydd a 72,000, sef 6 y cant, yn dioddef oherwydd tlodi tanwydd difrifol, a ddiffinnir fel yr angen i wario mwy na 10 y cant o incwm yr aelwyd i sicrhau amgylchedd byw sy'n iach a chynnes. Os cymharwn hyn ag amcangyfrifon yn Lloegr o 22 y cant am y naill a 3 y cant am y llall, mae'n glir bod y broblem yn llawer gwaeth yma yng Nghymru.

Gwnaethpwyd yr amcangyfrifon blaenorol o dlodi tanwydd ar sail y nifer a oedd yn ymgeisio am gynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref, a ddisodlwyd yn nes ymlaen gan ffigurau o arolwg cyflwr tai Cymru 2004, a ddangosodd fod rhwng 130,000 a 170,000 o aelwydydd yn dioddef gan dlodi tanwydd. Ar sail dadansoddiad o brisiau ynni, mae'r NEA a'r National Right to Fuel Campaign yn amcangyfrif y bydd rhwng 234,000 a 304,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 2005-06.

Nid yw'r dulliau a ddefnyddir yng Nghymru i gasglu data yn foddhaol, yn ôl adroddiad gan yr NEA. Yn ôl ei adolygiad o dlodi tanwydd yn y DU, dywedir bod

'data collection through Welsh House Condition Surveys has been insufficient to provide an accurate assessment of the scale of fuel poverty. In Wales, the response to the paucity of reliable data has been to use eligibility for grants under the Home Energy Efficiency Scheme as a proxy for fuel poverty. Clearly this is a poor substitute for reliable information on housing conditions and the financial circumstances of their occupants'.

The simple truth is that the Government of Wales has no real idea of the numbers of households in fuel poverty and still less idea of where those households are to be found. It is a great pity that we have Labour Members sitting laughing at this in the Chamber. It is a real pity, when we are facing this level of fuel poverty. It is a key point that the current Government simply has not got a reliable method of identifying all the households living in fuel poverty.

If these estimates show that the problem of fuel poverty in Wales is a serious one, then it is only going to get worse in the wake of recent hikes in retail energy prices. While some work has been done in England and Scotland on predicting the effect of energy price rises on fuel poverty, no such work has been done in Wales. The Government places great store in the home energy efficiency scheme as a vehicle for tackling fuel poverty, yet the research that it carried out into the circumstances of grant recipients suggested that fewer than one in three households receiving assistance had been suffering from, and living in, fuel poverty. More than two thirds of those who live in fuel poverty live outside the areas that are targeted for the HEES scheme.

Wales is also in danger of falling behind equivalent schemes in other parts of the United Kingdom, in terms of the range of provision and the maximum grant. Rural households are particularly vulnerable to fuel poverty as a result of their homes commonly being expensive and difficult to insulate and heat, usually without any access to mains gas, and especially since the most cost-effective

casglu data drwy Arolygon Cyflwr Tai Cymru wedi bod yn annigonol i roi asesiad cywir o faint o dlodi tanwydd sydd. Yng Nghymru, yr ymateb i'r diffyg data dibynadwy fu defnyddio'r cymhwyster i dderbyn grantiau o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref i gynrychioli tlodi tanwydd. Yn amlwg, nid yw hyn agosystal â gwybodaeth ddibynadwy am gyflwr tai ac amgylchiadau ariannol eu deiliaid.

Y gwirionedd syml yw nad oes gan y Llywodraeth yng Nghymru ddim syniad clir ynghylch faint o aelwydydd sy'n dioddef oherwydd tlodi tanwydd a llai fyth o syniad ynghylch lle y mae'r aelwydydd hynny. Mae'n drueni mawr bod Aelodau Llafur yn chwerrthin am ben hyn wrth eistedd yn y Siambr. Mae'n drueni gwirioneddol, a ninnau'n wynebu'r fath lefel o dlodi tanwydd. Mae'n bwynt allweddol nad oes gan y Llywodraeth bresennol dull dibynadwy o ganfod yr holl aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

Os yw'r amcangyfrifon hyn yn dangos bod problem tlodi tanwydd yng Nghymru yn un ddifrifol, yna ni wna ond gwaethygu yn sgîl y codiadau diweddar mewn prisiau ynni. Er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud yn Lloegr a'r Alban ar ddarogian effaith codiadau ym mhrys ynni ar dlodi tanwydd, ni wnaed dim gwaith o'r fath yng Nghymru. Mae gan y Llywodraeth gryn ffydd yn y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref fel dull o geisio datrys tlodi tanwydd, ac eto, mae'r ymchwil a wnaethpwyd i amgylchiadau derbynwyr grantiau'n awgrymu bod llai nag un o bob tri chartref sy'n derbyn cymorth wedi bod yn dioddef tlodi tanwydd, ac yn byw mewn tlodi o'r fath. Mae dros ddwy ran o dair o'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd yn byw y tu allan i'r ardaloedd sy'n cael eu targedu gan y cynllun HEES.

Mae Cymru mewn perygl hefyd o fod ar ei hôl hi o gymharu cynlluniau cyfatebol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, o ran amrediad y ddarpariaeth ac uchafswm y grant. Mae aelwydydd gwledig yn arbennig o agored i dlodi tanwydd oherwydd bod eu cartrefi'n aml yn gostus ac yn anodd eu hinsiwleiddio a'u cynhesu, ac fel rheol heb fynediad at brif gyflenwad nwy, ac yn

heating and insulation options are not available. There is much more that should be done for those households in terms of micro-generation projects.

As an Assembly Member for North Wales, I am disappointed to learn that the latest report from the Joseph Rowntree Foundation shows that the three counties in Wales where you are most likely not to have central heating are Gwynedd, Anglesey and Conwy. Sufficient resources should be directed to enforcing the Welsh housing quality standard, but Plaid Cymru is also calling on the Assembly Government to ensure that local authorities prioritise those living in fuel poverty. Until such time as we have a proper parliament for Wales, with the necessary devolved powers and the ability to provide a complete solution, there is only so much that the Assembly can do, so we also call on the UK Government for action. The Assembly still does not have control over building regulations, to ensure that the highest standards of energy efficiency are met. Consideration should also be given to extending the winter fuel payment, which must come from Westminster. We must include other vulnerable groups who are self-evidently most in need of assistance

One of the most significant areas in which the Assembly should take action to reduce fuel poverty is by investing in measures to maximise income. As Citizens Advice believes, there is a pressing need to address fuel poverty through emphasising income maximisation. It is easier to increase the efficiency of buildings and reduce fuel consumption, but a greater emphasis needs to be placed on maximising income. There are two pilot schemes running in Wales, which combine home energy efficiency measures and benefits support, and the pilot scheme in Wrexham will take three years to complete, just in that area.

Plaid Cymru calls on the Welsh Assembly Government to take action, first to define and then to identify those who are most at risk from fuel poverty throughout Wales, to review its existing fuel poverty strategy and to introduce, with the Government in Westminster, new, more flexible measures, to help end the scandal of fuel poverty. Unless

enwedig am nad yw'r opsiynau gwresogi ac insiwleiddio mwyaf costeffeithiol ar gael. Mae llawer y gellid ei wneud i'r aelwydydd hynny o ran prosiectau microgynhyrchu.

Fel Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru, yr wyf yn siomedig o ddeall bod yr adroddiad diweddaraf gan Sefydliad Joseph Rowntree yn dangos mai'r tair sir yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o fod heb wres canolog yw Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Dylid cyfeirio adnoddau digonol i orfodi safon ansawdd tai Cymru, ond mae Plaid Cymru hefyd yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw mewn tloidi tanwydd. Hyd nes y cawn senedd go iawn i Gymru, gyda'r pwerau datganoledig angenrheidiol a'r gallu i ddarparu ateb cyflawn, dim ond hyn a hyn y gall y Cynulliad ei wneud, felly yr ydym hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu. Nid yw'r Cynulliad byth wedi cael rheolaeth dros reoliadau adeiladu, i sicrhau ein bod yn bodloni'r safonau uchaf o ran effeithlonrwydd ynni. Dylid hefyd ystyried ymestyn y taliadau tanwydd gaeaf, y mae'n rhaid iddynt o San Steffan. Rhaid inni gynnwys grwpiau eraill sy'n agored i niwed, sydd yn amlwg â mwyaf o angen cymorth arnynt.

Un o'r meysydd pwysicaf lle y dylai'r Cynulliad weithredu i leihau tloidi tanwydd yw drwy fuddsoddi mewn mesurau i fwyhau incwm. Fel y dywed Cyngor ar Bopeth, mae gwir angen mynd i'r afael â thloidi tanwydd t drwy roi pwyslais ar fwyhau incwm. Mae'n haws gwneud adeiladau'n fwy effeithlon a lleihau'r tanwydd a ddefnyddir, ond mae angen rhoi mwy o bwyslais ar fwyhau incwm. Mae dau gynllun peilot ar waith yng Nghymru, sy'n cyfuno mesurau effeithlonrwydd ynni cartrefi a chymorth budd-daliadau, a bydd y cynllun peilot yn Wrecsam yn cymryd tair blynedd i'w gwblhau, yn yr ardal honno'n unig.

Mae Plaid Cymru'n galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu, yn gyntaf i ddiffinio ac yna i ganfod y rhai y mae mwyaf o berygl iddynt ddiodes tloidi tanwydd ledled Cymru, i adolygu ei strategaeth tloidi tanwydd bresennol ac i gyflwyno, gyda'r Llywodraeth yn San Steffan, fesurau newydd, mwy hyblyg, i helpu i roi terfyn ar sgandal tloidi

this work is undertaken, together with the work and increase in the budget that are already planned, Plaid Cymru, Help the Aged, Citizens Advice, Energywatch and National Energy Action do not believe that the Welsh Assembly Government has any hope of meeting its target of eradicating fuel poverty from every household by 2018. This Government must step up its action now.

Mark Isherwood: I propose the following amendments in the name of Lisa Francis. Amendment 1: insert in point 2a) after 'homes':

together with measures for assisting the vulnerable people identified

I propose amendment 2. Add a new point at the end of the motion:

expresses concern at the slow progress in achieving the Welsh housing quality standard by 2012.

I propose amendment 3. Add a new point at the end of the motion:

notes that the Scottish Executive has threatened court action against Scottish local authorities which failed to submit their Home Energy Conservation Act improvement target reports.

I propose amendment 4. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to take action based upon those measures introduced in Scotland to encourage Welsh local authorities to report Home Energy Conservation Act progress to the National Assembly for Wales.

The Chartered Institute of Housing Cymru states that it is reasonable to expect everyone to live in a safe, warm, affordable, and comfortable home. However, there are growing signs that current housing policy is failing to deliver that. Wales has the oldest housing stock of any western European nation, with 8.5 per cent of the Welsh housing stock in home ownership classified as unfit. The Council of Mortgage Lenders

tanwydd. Oni wneir y gwaith hwn, ynghyd â'r gwaith a'r cynnydd yn y gyllideb sydd wedi'u cynllunio eisoes, nid yw Plaid Cymru, Help the Aged, Cyngor ar Bopeth, Golwg ar Ynni a National Energy Action yn credu bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru obaith o gyrraedd ei tharged o ddileu tlodi tanwydd ar bob aelwyd erbyn 2018. Rhaid i'r Llywodraeth dorchi ei llewys yn awr.

Mark Isherwood: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Lisa Francis. Gwelliant 1: ym mhwynt 2a) ar ôl 'cartrefi', rhoi

ynghyd â chymau i gynorthwyo'r bobl agored-i-niwed a ganfyddir

Cynigiaf welliant 2. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn mynegi pryder ynghylch y cynnydd araf tuag at gyflawni safon ansawdd tai Cymru erbyn 2012.

Cynigiaf welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi bod Gweithrediaeth yr Alban wedi bygwth cymryd camau cyfreithiol yn erbyn awdurdodau lleol yr Alban a fethodd â chyflwyno'u hadroddiadau targedau gwella dan y Ddeddf Arbed Ynni Cartref.

Cynigiaf welliant 4 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd camau ar sail y mesurau hynny a gyflwynwyd yn yr Alban i annog awdurdodau lleol Cymru i gyflwyno adroddiadau am eu cynnydd yng nghyswllt y Ddeddf Arbed Ynni Cartref i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Sefydliad Tai Siartredig Cymru'n datgan ei bod yn rhesymol disgwyl bod pawb yn gallu byw mewn cartref diogel, cynnes, fforddiadwy a chyfforddus. Fodd bynnag, gwelir arwyddion cynyddol nad yw'r polisi tai cyfredol yn llwyddo i gyflawni hynny. Mae stoc dai hynaf unrhyw genedl yng ngorllewin Ewrop i'w chael yng Nghymru, gydag 8.5 y cant o stoc dai Cymru sy'n gartrefi i'r perchenogion yn cael eu cyfrif yn

reports that one in two of the poorest households live in their own homes and 72 per cent of Welsh properties that are officially designated as unfit are owner-occupied. The Joseph Rowntree Foundation tells us that three in five pensioners on low incomes in Wales are homeowners.

National Energy Action states that, across north Wales, 34,000 pensioners are on low incomes or claiming pension credit and 13.8 per cent of households in Wales live in fuel poverty. Each year, there are over 400 excess winter deaths in north Wales and, last winter, the number of excess winter deaths was the highest for five years, with 90 per cent of these occurring in the pensioner population.

4.20 p.m.

I was pleased to support the warm homes campaign and to visit a beneficiary of the home energy efficiency scheme in Kinmel Bay a few weeks ago. However, it is clear that much more needs to be done to target those most at risk from fuel poverty. Despite reports of a reduction in fuel poverty numbers since 1998, as we have heard, Energy Watch states that the true figure is likely to be significantly higher following the huge energy price hikes of the past two years. Recent research carried out by National Energy Action Wales and the National Right to Fuel Campaign suggest that fuel poverty may have increased by some 80 per cent between 2003 and 2005, affecting up to 304,000 people in Wales.

Fuel poverty is a major cause of illness. Cold, damp housing causes a wide range of circulatory and respiratory conditions and is a key factor in social isolation. Children living in fuel poverty are more likely to miss school as a result of cold-related illness and to have difficulty finding places to study. There is no better example of that than the Finnegan family in Flintshire. All those responsible, and all those who have looked the other way,

anaddas i fyw ynddynt. Yn ôl Cyngor y Benthycwyr Morgeisi mae un o bob dau o'r teuluoedd tlotaf yn byw yn eu cartrefi eu hunain ac mae 72 y cant o eiddo Cymru sydd wedi eu dynodi'n anaddas i fyw ynddynt yn gartrefi i'w perchenogion. Dywed Sefydliad Joseph Rowntree wrthym fod tri o bob pum pensiynwr ar incwm isel yng Nghymru yn berchen ar eu cartref eu hunain.

Yn ôl National Energy Action, ledled y gogledd, mae 34,000 o bensiynwyr ar incwm isel neu'n hawlio credyd pensiwn ac mae 13.8 y cant o deuluoedd yng Nghymru'n byw mewn tloti tanwydd. Bob blwyddyn, ceir dros 400 o farwolaethau gaeaf ychwanegol yn y gogledd ac, yn ystod y gaeaf diwethaf, y ffigur ar gyfer marwolaethau gaeaf ychwanegol oedd yr uchaf a welwyd ers pum mlynedd, gyda 90 y cant o'r rhain yn digwydd ymhlith pensiynwyr.

Yr oeddwn yn falch o gael cefnogi'r ymgyrch cartrefi cynnes ac o ymweld ag un o'r rhai sy'n elwa o'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref ym Mae Cinnel ychydig wythnosau yn ôl. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod llawer iawn o waith i'w wneud eto i dargedu'r rhai y mae mwyaf o berygl iddynt ddiodeff tloti tanwydd. Er gwaethaf yr adroddiadau bod gostyngiad yn y nifer sy'n byw mewn tloti tanwydd ers 1998, fel yr ydym wedi clywed, yn ôl Golwg ar Ynni mae'r gwir ffigur yn debygol o fod yn sylweddol uwch yn dilyn y codiadau enfawr ym mhreis ynni yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ymchwil ddiweddar a gynhaliwyd gan National Energy Action Cymru a'r National Right to Fuel Campaign yn awgrymu y gall fod tloti tanwydd wedi cynyddu tua 80 y cant rhwng 2003 a 2005, gan effeithio ar hyd at 304,000 o bobl yng Nghymru.

Tloti tanwydd yw un o brif achosion salwch. Mae cartrefi oer a llaith yn achosi pob math o gyflyrau'n ymwneud â chylchrediad ac anadlu ac mae'n un o'r ffactorau allweddol o ran arwahanrwydd cymdeithasol. Mae plant sy'n byw mewn tloti tanwydd yn fwy tebygol o golli'r ysgol o ganlyniad i salwch a achosir gan oerfel ac o gael anhawster i ddod o hyd i rywle i astudio. Ni cheir enghraifft well o hyn na'r teulu Finnegan yn sir y Fflint.

should hang their heads in shame. Help the Aged in Wales says that 1,800 older people died of cold-related illnesses last winter. That was the third year in a row of increases in winter deaths among the over-65s.

These are all reasons for tabling amendment 1. A national strategy will be meaningless without measures for assisting the people identified, and that situation is so often the case with this Welsh Assembly Government. Motions without measures are like hot air balloons without tethers—floating off into the ether, never to be seen again. This is the Government of policy-led evidence—the Government that puts policy before planning, preparation and pricing; trying to please everyone, but delivering for no-one.

Such measures should, therefore, acknowledge the call by Help the Aged in Wales for research into all the circumstances that could be contributing to premature winter deaths, including behaviour on cultural issues, availability of and access to heating grants and schemes, health and nutrition. Only then can we deliver a focused strategy to tackle fuel poverty. As Citizens Advice Cymru states, geographical factors must also be taken into account so that fuel poverty can be tackled evenly across Wales, and to ensure that people outside easily identifiable groups and Communities First areas are not the last ones to be helped.

The Welsh housing quality standard states that all dwellings must be capable of being adequately heated at an affordable cost. However, as National Energy Action states, this commitment requires more than rhetoric. It requires adequate resources and effective enforcement. For that reason, amendment 2 expresses concern at the slow progress towards achieving the Welsh housing quality standard by 2012. As the Council of Mortgage Lenders Cymru has stated, sadly, to date, the politics and the process have got firmly in the way of reality. The question is: for how much longer will the council tenants of Wales get less than they deserve and need?

Dylai pawb sy'n gyfrifol, a phawb sydd wedi edrych i'r cyfeiriad arall, wrïdo o gywilydd. Dywed Help the Aged yng Nghymru fod 1,800 o bobl hÿn wedi marw o ganlyniad i salwch a achosir gan oerfel y gaeaf diwethaf. Hwnnw oedd y trydydd gaeaf yn olynol pryd y gwelwyd cynnydd mewn marwolaethau gaeaf ymhlith pobl dros 65 oed.

Mae'r rhain i gyd yn rhesymau dros gynnig gwelliant 1. Bydd strategaeth genedlaethol yn ddiystyr heb fesurau i gynorthwyo'r bobl sydd mewn angen, a dyna'r sefyllfa'n aml yn achos Llywodraeth Cynulliad Cymru heddiw. Mae cynigion heb fesurau fel balwſns gwynt poeth heb dennyn—maent yn codi i'r entrychion, ac yn diflannu am byth. Hon yw Llywodraeth polisïau ar sail tystiolaeth—y Llywodraeth sy'n rhoi polisi o flaen cynllunio, paratoi a phrisio; ceisio plesio pawb, ond yn cyflawni dim i neb.

Dylai mesurau o'r fath, felly, gydnabod galwad Help the Aged yng Nghymru am ymchwïl i'r holl amgylchiadau a all fod yn cyfrannu at farwolaethau gaeaf cynamserol, gan gynnwys ymddygiad yng nghyswllt materion diwylliannol, y grantiau a'r cynlluniau gwresogi sydd ar gael a'r defnydd a wneir ohonynt, ac iechyd a maeth. Dim ond wedyn y gallwn gyflwyno strategaeth sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Fel y dywed Cyngor ar Bopeth Cymru, rhaid ystyried ffactorau daearyddol hefyd i sicrhau bod modd mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn yr un ffordd ledled Cymru, a sicrhau nad y bobl sydd y tu allan i grwpiau amlwg ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yw'r rhai olaf i dderbyn cymorth.

Yn ôl safon ansawdd tai Cymru, rhaid bod modd cynhesu pob annedd yn ddigonol a hynny am gost fforddiadwy. Fodd bynnag, dywed National Energy Action fod angen mwy na rhethreg i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Mae'n gofyn am adnoddau digonol a gorfodi effeithiol. Oherwydd hynny, mae gwelliant 2 yn mynegi pryder ynghylch y cynnydd araf a wneir tuag at gyflawni safon ansawdd tai Cymru erbyn 2012. Fel y dywedodd Cyngor Benthycwyr Morgeisi Cymru, yn anffodus, hyd yma, mae gwleidyddiaeth a'r broses wedi bod yn faen tramgwydd diamheuol i realaeth. Y cwestiwn yw: am faint o amser eto y bydd tenantiaid

cynghorau Cymru'n cael llai na'u haeddiant a'u hangen?

Lorraine Barrett: Will the Member give way?

Lorraine Barrett: A wnaiff yr Aelod ildio?

Mark Isherwood: Do I have time?

Mark Isherwood: A oes gennyf amser?

The Deputy Presiding Officer: You have an extra minute if you allow an intervention.

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennych funud yn ychwanegol os gwnewch ganiatáu ymyriad.

Mark Isherwood: Then I will allow a quick intervention.

Mark Isherwood: Yna yr wyf yn fodlon caniatáu ymyriad byr.

Lorraine Barrett: You spoke about politics getting in the way of reality. Why did you not vote for the budget? You are criticising progress on the housing standard, and yet you did not vote for the budget in the last session.

Lorraine Barrett: Yr ydych wedi dweud bod gwleidyddiaeth yn faen tramgwydd i realaeth. Pam na wnaethoch bleidleisio o blaid y gyllideb? Yr ydych yn beirniadu'r diffyg cynnydd o ran y safon tai, ac eto ni wnaethoch chi bleidleisio o blaid y gyllideb yn y sesiwn ddiwethaf.

Mark Isherwood: You will recall that I spoke on the budget and severely criticised this very factor decisively and categorically. There is a housing crisis in Wales, and it has been engineered by you during your period in Government.

Mark Isherwood: Byddwch yn cofio imi lefaru ar y gyllideb a beirniadu'n hallt yr union ffactor hwn yn bendant ac yn ddiamwys. Mae gennym argyfwng tai yng Nghymru, ac mae wedi'i achosi gennych chi yn ystod eich cyfnod mewn grym.

I will move on to amendments 3 and 4, which relate to progress on the Home Energy Conservation Act 1995 target, introduced on a voluntary basis by the last Conservative Government. In the last Labour Government, a Labour Member of Parliament tabled a backbench motion to introduce statutory targets, with all-party backing, but pressure from 10 Downing Street forced him to withdraw the motion. However, in Scotland, statutory reporting has been introduced by threatening court action. I urge the Welsh Assembly Government to put its money where its mouth is and to use the powers that it has to implement similar measures here. Let us show that we really mean what we say.

Yr wyf am symud ymlaen at welliannau 3 a 4, sy'n cyfeirio at y cynnydd i gyrraedd targed Deddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995, a gyflwynwyd ar sail wirfoddol gan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf. Yn ystod cyfnod y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, cyflwynodd Aelod Seneddol Llafur fesur o'r meinciau cefn i gyflwyno targedau statudol, gyda chefnogaeth pob plaid, ond oherwydd pwysau o gyfeiriad 10 Downing Street fe'i gorfodwyd i dynnu'r cynnig yn ôl. Fodd bynnag, yn yr Alban, bygythiwyd camau cyfreithiol er mwyn cyflwyno trefn adrodd statudol. Erfyniaf ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fod cystal â'i gair a defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi i gyflwyno mesurau tebyg yma. Gadewch inni ddangos ein bod o ddifrif ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei ddweud.

The Deputy Presiding Officer: Order. I remind Members that the three-minute rule applies.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Atgoffaf yr Aelodau fod y rheol tair munud yn weithredol.

Alun Ffred Jones: Mae darparu tai o ansawdd yn rhan hollbwysig o strategaeth ar gyfer gwell iechyd. Mae hyn yn cael ei

Alun Ffred Jones: Providing quality homes is a vital part of the strategy for improved health. This is recognised in the

gydnabod yn nogfen y Llywodraeth 'Gwell Iechyd—Gwell Cymru', a chan amryfal gyrrff fel Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru. Mae gwresogi tai yn iawn yn hollbwysig er mwyn sicrhau ansawdd bywyd perchnogion a thenantiaid.

Mae ffigurau diweddaraf mynegai amddifadedd lluosog Cymru yn ddi-ddorol. Mae'r ffigurau hynny yn dangos mai ardaloedd gwledig Cymru—y gogledd-orllewin yn arbennig—sydd â'r ganran uchaf o dai heb wres canolog. Mae llawer o'r rhain yn dai â waliau cerrig sengl. Yn ddi-ddorol, fodd bynnag, pwysoliad isel a roddir i hyn gan y Llywodraeth o ran mesur amddifadedd. Mae'n amlwg felly nad yw'n flaenoriaeth gan y Llywodraeth o safbwynt iechyd pobl.

Mae ffigurau eraill yn dangos bod dwy ran o dair o'r rhai sy'n dioddef tlodi tanwydd yn byw y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac felly mae'n dilyn bod hon yn broblem i Gymru gyfan y mae angen ateb iddi ar lefel Cymru gyfan. Un cynllun perthnasol—a chynllun da iawn—yw HEES, ond dim ond y rhai sy'n byw mewn tai sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy sy'n gallu manteisio ar y cynllun hwn; gan fod 20 y cant o holl dai Cymru heb gysylltiad o'r fath, mae'n golygu bod 250,000 o dai, llawer ohonynt mewn pentrefi gwledig, yn methu â manteisio ar HEES. Mae hynny'n gwbl annheg, ac mae'n gwahaniaethu ar sail ddaearyddol.

Mae gennyf etholwr mewn sefyllfa felly. Bu mewn damwain ddirifol rai blynyddoedd yn ôl, ac mae'n gaeth i'w dŷ. Nid oes gwres canolog yn y tŷ, ac mae ei wraig yn gorfod edrych ar ei ôl a chadw'r tân i fynd drwy'r dydd. Bu'n eithriadol o oer yng Ngwynedd ers mis, ac mae'n annheg nad yw'r teulu hwn yn gallu manteisio ar gynllun HEES a hwythau'n wynebu biliau anferth mewn cartref oer. Rhaid cael mwy o hyblygrwydd o fewn y cynllun i fanteisio ar danwydd sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig, megis coed neu bio-màs, neu gynlluniau ynni adnewyddadwy bach, fel ynni gwynt. Cynhaliodd y Gweinidog gynllun peilot y llynedd gyda systemau gwres canolog olew o dan y cynllun HEES, ond yr ydym yn dal i ddisgwyl penderfyniad. Felly, apelïaf ar y Gweinidog i wneud datganiad yn fuan i

Government's 'Better Health—Better Wales' document, and by a number of organisations such as the Welsh Federation of Housing Associations. Heating homes properly is vital in order to provide home owners and tenants with a quality of life.

The latest index of multiple deprivation figures for Wales are interesting. Those figures show that the highest percentage of houses without central heating are in rural areas—the north-west in particular. Many of those houses have single stone walls. Interestingly, however, this is only given a low weighting by the Government with regard to deprivation. It is clear, therefore, that this is not a priority for the Government with regard to people's health.

Other figures show that two thirds of those who suffer fuel poverty live outside Communities First areas, and it therefore follows that this is a problem for the whole of Wales, for which an all-Wales solution is needed. One relevant scheme—which is an excellent scheme—is HEES, but only those who live in houses which are connected to the mains gas supply can take advantage of it; given that 20 per cent of all houses in Wales are not connected to the mains, it means that 250,000 homes, many of them in rural villages, cannot take advantage of HEES. That is completely unfair, and it is discrimination on the basis of geography.

I have a constituent in such a situation. He was in a serious accident some years ago, and he is now housebound. There is no central heating in his home, and his wife is forced to take care of him and keep the fire going all day. It has been an exceptionally cold period in Gwynedd for a month, and it is unfair that this family is unable to take advantage of the HEES scheme given that they are facing enormous bills in a cold house. There must be greater flexibility in the scheme to benefit from fuels that are available in rural areas such as wood or biomass, or small-scale renewable energy schemes, such as wind energy. The Minister conducted a pilot last year with oil-fuelled central heating systems under the HEES scheme, but we are still awaiting a decision. Therefore, I appeal to the Minister to make a statement soon to ensure

sicrhau bod holl gartrefi Cymru a holl bobl Cymru yn gallu manteisio ar gynllun HEES. Heb hynny, gwag yw'r honiad bod y mater hwn yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth ar gyfer pobl Cymru.

Janice Gregory: As Chair of the Social Justice and Regeneration Committee, the issue of poverty, in any form, and how it can be tackled, is of real importance to me. I assure the Assembly that no-one on the Labour side of the Chamber was laughing during the introduction to this debate.

This debate has further relevance for me given that my constituency of Ogmored, a predominantly Valleys constituency, is a historically poor area that in recent decades has struggled to break free of its industrial legacy. Thankfully, however, the Welsh Assembly Government, through its economic development policies and regeneration funding, is having a huge impact on the everyday lives of people in Ogmored, and in many other communities. For example, regional selective assistance has invested in many businesses, and, in turn, these businesses, through local employment, are having a positive effect on local economies. Regeneration grants have made a huge difference too. Bettws, a traditional mining village in my constituency, recently received an award for £160,000 and, previously, an investment of £8.5 million, which dramatically improved the local housing estate and its amenities.

The issue of fuel poverty is of particular relevance as it affects the most vulnerable in society—our pensioners, families with young children and the sick and disabled. Although the recent statistics highlighted by Help the Aged in Wales are of concern, they are arguably also the result of Wales's economic and social history. Recent statistics from the Welsh household and dwelling survey show that the total number of households in fuel poverty in 2004 was 130,000, or 11 per cent of all Welsh households.

Leanne Wood: Will you give way?

Janice Gregory: I will not, Leanne. I am

that all Welsh homes and all the people of Wales can benefit from the HEES scheme. Without that, the claim that this issue is a Government priority for the people of Wales rings hollow.

Janice Gregory: Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, mae tloedi, o bob math, a sut y gellir mynd i'r afael ag ef, o bwys mawr imi. Gallaf sicrhau'r Cynulliad nad oedd neb ar ochr Lafur i'r Siambr yn chwerthin yn ystod y cyflwyniad i'r ddadl hon.

Mae'r ddadl hon yn berthnasol i mi hefyd gan fod fy etholaeth yn Ogwr, etholaeth sydd yn y Cymoedd yn bennaf, yn ardal dlawd yn hanesyddol sydd dros y degawdau diweddar wedi brwydro i dorri'n rhydd oddi wrth ei hetifeddiaeth ddiwydiannol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ei pholisïau datblygu economaidd a chyllid adfywio yn cael effaith fawr iawn ar fywydau beunyddiol pobl yn Ogwr, ac mewn llawer o gymunedau eraill. Er enghraifft, mae cymorth rhanbarthol dewisol wedi buddsoddi mewn llawer o fusnesau, ac, yn eu tro, mae'r busnesau hyn, drwy gyflogi pobl leol, yn cael effaith positif ar economïau lleol. Mae grantiau adfywio hefyd wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Yn ddiweddar, derbyniodd y Bettws, pentref glofaol traddodiadol yn fy etholaeth, grant o £160,000 a, chyn hynny, buddsodwyd £8.5 miliwn, sydd wedi golygu gwelliant dramatig mewn stad dai leol a'i mwynderau.

Mae tloedi tanwydd yn fater perthnasol iawn gan ei fod yn effeithio ar y mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas—ein pensïynwyr, teuluoedd gyda phlant ifanc a'r gwael eu hiechyd a phobl anabl. Er bod yr ystadegau diweddar y tynnwyd sylw atynt gan Help the Aged yng Nghymru yn peri pryder, maent hefyd yn ddi-os yn un o ganlyniadau hanes economaidd a chymdeithasol Cymru. Mae ystadegau diweddar o arolwg cartrefi ac anheddau Cymru'n dangos mai cyfanswm nifer y teuluoedd mewn tloedi tanwydd yn 2004 oedd 130,000, neu 11 y cant o holl gartrefi Cymru.

Leanne Wood: A wnewch ildio?

Janice Gregory: Na wnaf, Leanne. Mae'n

sorry, but I am racing through my contribution as it is.

On fuel poverty, as in the other areas that I have highlighted, the Welsh Assembly Government is committed to having a positive effect; you have heard the statistics from other speakers. Achieving the short-term and long-term goals relating to fuel poverty requires a wide range of initiatives, along with the need to work in partnership with relevant stakeholders. That is exactly what Labour's Welsh Assembly Government and the Minister for Social Justice and Regeneration have been doing. An additional £10 million was made available in the budget for warmer homes, with a £200 winter fuel allowance for pensioners, and £300 for the over-80s.

4.30 p.m.

HEES is also having a positive effect on fuel poverty, helping over 51,000 households across Wales at a cost of £40.5 million. Such initiatives and funding demonstrate Labour's commitment to tackling fuel poverty and to making a difference to the most vulnerable people in society.

Minister, I can only conclude that this debate is designed to make cheap political gain on the back of the Help the Aged in Wales statistics. Rather than focusing on such statistics and tabling such motions, perhaps it would be better if my fellow Assembly Members were to use their time to inform their constituents of the various initiatives on offer, as I do when I am out and about in my constituency, thereby directly helping in the fight against fuel poverty.

Jocelyn Davies: Energy prices have risen dramatically since 2003. Over the past 18 months, British Gas, for instance, has increased its electricity prices by over 32 per cent. The average gas price has increased by 38 per cent. The Department of Trade and Industry estimates that a 1 per cent rise in energy prices could put an additional 40,000 households in England in fuel poverty.

ddrwg gennyf, ond yr wyf yn rhuthro drwy fy nghyfraniad fel y mae.

O ran tlodi tanwydd, fel yn y meysydd eraill yr wyf wedi tynnu sylw atynt, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gael effaith positif; yr ydych wedi clywed yr ystadegau gan siaradwyr eraill. Mae cyflawni nodau tymor byr a hirdymor o ran tlodi tanwydd yn gofyn am amrywiaeth eang o gynlluniau, ynghyd â'r angen i weithio mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid perthnasol. Dyna'n union y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'r Blaid Lafur a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi bod yn ei wneud. Yr oedd £10 miliwn yn ychwanegol ar gael yn y gyllideb ar gyfer cartrefi cynhesach, gyda lwfans tanwydd gaeaf o £200 ar gael i bensiynwyr, a £300 i rai dros 80 oed.

Mae HEES hefyd yn cael effaith positif ar dlodi tanwydd, gan helpu dros 51,000 o deuluoedd ledled Cymru ar gost o £40.5 miliwn. Mae cynlluniau ac arian o'r fath yn dangos ymrwymiad Llafur i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwneud gwahaniaeth i'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas.

Weinidog, ni allaf lai na chasglu mai diben y ddadl hon yw gwneud elw gwleidyddol rhad yn sgîl ystadegau Help the Aged yng Nghymru. Yn hytrach na chanolbwyntio ar ystadegau o'r fath a chyflwyno cynigion o'r fath, efallai y byddai'n fwy buddiol petai fy nghyd Aelodau o'r Cynulliad yn defnyddio eu hamser i hysbysu eu hetholwyr am yr amrywiol fentrau sydd ar gael, fel y byddaf fi'n gwneud pan fyddaf yn mynd o gwmpas fy etholaeth, a thrwy hynny'n helpu'n uniongyrchol yn y frwydr yn erbyn tlodi tanwydd.

Jocelyn Davies: Mae prisiau ynni wedi codi'n ddirfawr ers 2003. Yn ystod y 18 mis diwethaf, er enghraifft, mae Nwy Prydain wedi codi ei brisiau trydan dros 32 y cant. Ar gyfartaledd mae pris nwy wedi codi 38 y cant. Mae'r Adran Diwydiant a Masnach yn amcangyfrif y gallai cynnydd o 1 y cant ym mhrisiau ynni roi 40,000 o aelwydydd yn ychwanegol yn Lloegr mewn tlodi tanwydd.

Similar estimates suggest that a 5 per cent rise could have the same effect on 30,000 households in Scotland. Wales has yet to develop a comparable formula, but it is safe to assume that small price rises will lead to significantly more people in Wales suffering fuel poverty. Recent price rises have been especially bad news for Welsh consumers, who already pay more for their electricity than consumers in England and Scotland. They pay about 10 per cent more, regardless of their payment method, because of the higher cost of distribution.

The Assembly Government has four years left to achieve its target of eradicating fuel poverty among the most vulnerable. This target is in serious jeopardy and will not be met unless the Minister addresses key failings in the fuel poverty strategy.

Far too many homes suffer fuel poverty and the numbers are rising with each increase in prices, and, although we lack our own formula, we know that price rises that have been predicted for the UK will push all those who have been helped thus far by the home energy efficiency scheme back into fuel poverty. As we heard from Janet Ryder, we need to develop reliable information on which to act, and we would be keen to hear when Welsh data will be available.

It would be unfair and untrue to say that the Assembly Government has done nothing to tackle the problem. The main tool used by the Minister is the HEES scheme. The scheme provides grants for energy efficiency measures and advice for those in receipt of a range of benefits. The benefit to those getting a grant can be enormous, but how successful is the scheme overall? That would depend on how you measure it. The percentage of those removed from the fuel poor category after measures were installed is very low, and that is possibly an indication of the fact that the scheme is not targeted effectively enough and is not addressing the issues of the fuel poor.

Yn ôl amcangyfrifon tebyg gallai cynnydd o 5 y cant gael yr un effaith ar 30,000 o aelwydydd yn yr Alban. Nid yw Cymru wedi datblygu fformiwla debyg eto, ond gallwn dybio y bydd cynnydd bach mewn prisiau'n arwain at roi llawer mwy o bobl yng Nghymru mewn tloidi tanwydd. Bu'r cynnydd diweddar mewn prisiau'n newyddion drwg i ddefnyddwyr yng Nghymru, sydd eisoes yn talu mwy am eu trydan na defnyddwyr yn Lloegr a'r Alban. Maent yn talu tua 10 y cant yn fwy, sut bynnag y maent yn talu, am fod cost ei ddsbarthu'n uwch.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad bedair blynedd ar ôl i gyflawni ei tharged o ddiddymu tloidi tanwydd ymhlith y rhai mwyaf bregus. Mae'r targed hwn mewn perygl difrifol ac ni chaiff ei gyflawni oni fydd y Gweinidog yn rhoi sylw i fethiannau allweddol y strategaeth tloidi tanwydd.

Mae llawer gormod o gartrefi mewn tloidi tanwydd ac mae'r niferoedd yn codi bob tro y bydd prisiau'n codi, ac, er nad oes gennym ein fformiwla ein hunain, gwyddom y bydd y cynnydd mewn prisiau a ragwelir ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gwthio pawb sydd wedi ei helpu hyd yma gan y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl i dloidi tanwydd. Fel y clywsom gan Janet Ryder, mae'n rhaid inni ddatblygu gwybodaeth ddibynadwy y medrwn weithredu arni, a hoffem glywed pryd y bydd data am Gymru ar gael.

Byddai'n annheg ac yn anghywir dweud nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud dim i unioni'r broblem. Prif arf y Gweinidog yw'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref. Mae'r cynllun yn cynnig grantiau ar gyfer dulliau effeithlonrwydd ynni a chynghor ar gyfer pobl sy'n cael amrywiol fudd-daliadau. Gall fod o fudd enfawr i'r rhai sy'n cael grant, ond pa mor llwyddiannus yw'r cynllun yn gyffredinol? Byddai hynny'n dibynnu ar sut y byddech yn ei fesur. Mae canran y rhai a ddiddymir o gategori tloidi tanwydd ar ôl rhoi mesurau ar waith yn fach iawn, ac efallai fod hynny'n arwydd o'r ffaith nad yw'r cynllun wedi ei dargedu'n ddigon da ac nad yw'n rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â phobl sydd mewn tloidi tanwydd.

A review of the HEES scheme by the Welsh Assembly Government found that of the 24,000 or so households helped by the scheme between March 2001 and January 2004, only about a third were considered to be fuel poor at the time of applying, and only half of those were lifted from fuel poverty by the scheme. The current criteria adopted for the fuel poor misses out those who are not on benefit, and the eligibility criteria should be extended. A fuel price increase of 30 per cent would return every household moved out of fuel poverty back into fuel poverty. Of those that were helped, over a third did not report any problems after the work was done, but about 10 per cent of households claimed that their heating was still inadequate, and 20 per cent still had problems with draughts, despite the fact that these were things that the scheme intended to address. We look forward to scrutinising the Minister's response to the review.

I wish to make some comments about the winter fuel payments, because Plaid Cymru believes that serious consideration should be given to extending it to other vulnerable groups, such as disabled people.

The Deputy Presiding Officer: Order. You are taking up time, and I will not be able to get all your speakers in.

Jocelyn Davies: Okay.

Mick Bates: The Welsh Liberal Democrats welcome this debate, and we take issue with Janice Gregory's comments, which cast doubt on the value of holding this debate and justified the budget alterations as though they were the idea of the party over there. It was the opposition parties that forced a change in the budget to ensure that more money was directed towards fuel poverty, and not the Assembly Government. As a result, Gordon Brown has adjusted the budget. The only people behind are the Labour Party, so listen and ensure that you take these issues on board.

The first fundamental issue that everyone accepts is that the eradication of fuel poverty is essential to improve the quality of life of all people. This fits well with the

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary

Jones, Ieuan Wyn
 Law, Peter
 Lloyd, David
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

Motion (NDM2750): to propose that

Cynnig (NDM2750): cynnig bod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. deplores the fact that at least 1,500 people died of cold-weather related illnesses in Wales during the relatively mild winter of 2004-05;

1. yn gresynu at y ffaith bod o leiaf 1,500 o bobl wedi marw o afiechydon cysylltiedig â thywydd oer yng Nghymru yn ystod gaeaf cymharol fwyn 2004-05;

2. notes that the Welsh Assembly has failed to develop Welsh fuel poverty indicators and calls on the Welsh Assembly Government to:

2. yn nodi bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi methu â datblygu dangosyddion tlodi tanwydd i Gymru ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) compile suitable fuel poverty indicators and a national strategy for the identification of those unable to afford to heat their homes and bring these for the approval of the National Assembly within four months;

a) lunio dangosyddion tlodi tanwydd addas a strategaeth genedlaethol er mwyn canfod y sawl sy'n methu â fforddio cynhesu eu cartrefi a dod â'r strategaeth a'r dangosyddion hyn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w cymeradwyo o fewn pedwar mis;

b) review its fuel poverty strategy to:

b) adolygu ei strategaeth tlodi tanwydd i:

i) include a flexible home energy efficiency scheme that will more effectively target those most at risk to fuel poverty, especially those with few fuel options;

i) gynnwys cynllun effeithlonrwydd ynni cartref a fydd yn targedu'n fwy effeithiol y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi tanwydd, yn enwedig y rhai sydd ag ychydig o ddewis o ran ynni;

ii) include implementation of micro-generation projects for households not connected to the gas network;

ii) cynnwys rhoi prosiectau microgynhyrchu ar waith ar gyfer cartrefi nad ydynt wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy;

iii) call on local authorities to prioritise the fuel poor when implementing the Welsh housing quality standard;

iii) galw ar awdurdodau lleol i flaenoriaethu'r bobl dlawd o ran tanwydd wrth roi safon ansawdd tai Cymru ar waith;

c) make representation to the UK Government to:

c) cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i:

i) devolve the necessary powers that will ensure that all new properties are energy efficient;

i) ddatganoli'r pwerau angenrheidiol i sicrhau bod pob eiddo newydd yn effeithlon o ran ynni;

- | | |
|---|--|
| <p>ii) <i>consider extending winter fuel payments to other vulnerable groups;</i></p> <p>iii) <i>maximise the income of the fuel poor;</i></p> <p>iv) <i>guarantee security of energy supplies for Wales.</i></p> | <p>ii) <i>ystyried ehangu'r taliadau tanwydd gaeaf i grwpiau eraill sy'n agored i niwed;</i></p> <p>iii) <i>sicrhau bod gan bobl dlawd o ran tanwydd gymaint o incwm ag y bo modd;</i></p> <p>iv) <i>gwarantu sicrwydd cyflenwadau ynni i Gymru.</i></p> |
|---|--|

*Cynnig (NDM2750): O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Motion (NDM2750): For 28, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion defeated.*

Cynnig Trefniadol Procedural Motion

The Deputy Presiding Officer: With regard to the indicative time allowed for the debate on NHS dentistry, acting under Standing Order No. 6.21(ii), I invite the Business Minister to propose an extension of Plenary of half an hour.

Y Dirprwy Lywydd: O ran yr amser dangosol a roddir i'r ddadl ar ddeintyddiaeth y GIG, a chan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 6.21(ii), yr wyf yn gwahodd y Trefnydd i gynnig ymestyn y Cyfarfod Llawn o hanner awr.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales, under Standing Order No. 6.21(ii) extends Plenary today by half an hour.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.21(ii) yn ymestyn y cyfarfod heddiw o hanner awr.

The Deputy Presiding Officer: Are there 10 Members in favour of the motion? I see that there are. I therefore call for a vote.

Y Dirprwy Lywydd: A oes 10 Aelod o blaid y cynnig? Gwelaf fod. Yr wyf felly'n galw am bleidlais.

Cynnig: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 3.

Motion: For 48, Abstain 0, Against 3.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Lewis, Huw
Neagle, Lynne
Wood, Leanne

Derbyniwyd y cynnig.

Motion carried.

**Deintyddiaeth y GIG
NHS Dentistry**

<p>Motion (NDM2754): to propose that <i>the National Assembly for Wales:</i></p> <p><i>welcomes the additional access to NHS dentistry created as a result of personal dental service pilot schemes.</i></p>	<p>Cynnig (NDM2754): cynnig bod <i>Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</i></p> <p><i>yn croesawu'r llwybr ychwanegol at ddeintyddiaeth y GIG a grewyd yn sgîl cynlluniau peilot y gwasanaeth deintyddol personol.</i></p>
<p>Amendment 1 in the name of Jocelyn Davies. Delete all after 'Wales' and replace with:</p> <p><i>deplores the lack of progress made by the Welsh Assembly Government since 1999 in improving access to NHS dental services.</i></p>	<p>Gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies. Dileu popeth ar ôl 'Cymru' a rhoi yn ei le:</p> <p><i>yn gresynu at y diffyg cynnydd a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ers 1999 o ran gwella mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG.</i></p>
<p>Amendment 2 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:</p> <p><i>, but deplores the fact that less than half the population are registered with an NHS dentist.</i></p>	<p>Gwelliant 2 yn enw Lisa Francis. Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:</p> <p><i>, ond yn gresynu'n fawr fod llai na hanner y boblogaeth wedi'u cofrestru gydag un o ddeintyddion y GIG.</i></p>
<p>Amendment 3 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:</p> <p><i>notes that the percentage of adults registered with an NHS dentist is at an all-time low.</i></p>	<p>Gwelliant 3 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p> <p><i>yn nodi bod canran yr oedolion sydd wedi'u cofrestru gydag un o ddeintyddion y GIG yn is nag a fu erioed.</i></p>
<p>Amendment 4 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:</p> <p><i>calls on the Assembly Government to endorse the Prime Minister's belief that everyone should have access to an NHS dentist.</i></p>	<p>Gwelliant 4 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p> <p><i>yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ategu cred Prif Weinidog Prydain y dylai pawb allu mynd at un o ddeintyddion y GIG.</i></p>
<p>Amendment 5 in the name of Lisa Francis. Add a new point to the end of the motion:</p> <p><i>endorses the view of the BDA's Welsh chairman that the new contract is a massive missed opportunity.</i></p>	<p>Gwelliant 5 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p> <p><i>yn ategu barn cadeirydd Cymru'r BDA mai enghraifft o golli cyfle anferth yw'r contract newydd.</i></p>
<p>Amendment 6 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:</p>	<p>Gwelliant 6 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p>

believes that access to NHS dental services is a fundamental right for all. yn credu bod mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG yn hawl sylfaenol i bawb.

Amendment 7 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion: Gwelliant 7 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

regrets the lack of focus in the new contract on preventative work and calls for good dental health to be incentivised as a core function of units of dental activity. yn gresynu at ddiffyg ffocws y contract newydd ar waith ataliol ac yn galw am wneud cymell iechyd deintyddol da yn un o swyddogaethau craidd unedau gweithgarwch deintyddol.

Amendment 8 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion: Gwelliant 8 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Assembly Government to develop a dental workforce plan that increases the use of allied dental professions. yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu cynllun ar gyfer gweithlu deintyddol sy'n cynyddu'r defnydd o broffesiynau deintyddol perthynol.

Amendment 9 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion: Gwelliant 9 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Assembly Government to take emergency action on dental provision in rural Wales. yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i weithredu ar frys gyda golwg ar y ddarpariaeth ddeintyddol yn y Gymru wledig.

Amendment 10 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion: Gwelliant 10 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Assembly Government to take immediate action to avert the crisis in child dental health in Wales. yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i weithredu'n ddi-oed er mwyn osgoi'r argyfwng yn iechyd deintyddol plant yng Nghymru.

Amendment 11 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion: Gwelliant 11 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that the new contract in its unamended form is not a Welsh solution, but a continuation of the 'drill and fill' treadmill of treatment. yn credu nad ateb Cymreig yw'r contract newydd ar ei ffurf gysefin, ond ei fod yn hytrach yn barhad o'r un hen driniaeth 'drilio a llenwi'.

Amendment 12 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion: Gwelliant 12 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Welsh Assembly Government to explain what action it has taken to improve access to NHS dentistry in Wales. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i esbonio pa gamau a gymerwyd ganddi i wella mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yng

Nghymru.

The Deputy Presiding Officer: Due to the number of speakers—I am sorry to have to do this—I have to limit individual speeches to three minutes after the opening speakers have proposed the motion and the amendments.

I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies, amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of Lisa Francis, and amendments 6, 7, 8, 9, 10, 11 and 12 in the name of Kirsty Williams.

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): I propose that

the National Assembly for Wales:

welcomes the additional access to NHS dentistry created as a result of personal dental service pilot schemes. (NDM2754)

I understand, from personal experience, the frustration of those who find themselves without an NHS dentist, but this is not an issue that affects Wales alone or something that has happened in just the last year. The problems associated with NHS dentistry are long-standing and are experienced throughout the United Kingdom. The reforms that we are implementing in April represent one of the biggest sets of changes to dentistry since 1948 and seek to address the inadequate dental contract that we inherited from the previous Conservative regime.

Already, £5.3 million has been made available to improve access to NHS dentistry and to support the implementation of the new contract and the associated reforms. Some of this money was targeted at improving access to dental care in those areas where problems have been experienced. This money, for example, helped to support the creation of a bursary scheme in Ceredigion, which saw its first dental student begin her studies last September. In Pembrokeshire the additional resources were used to employ a salaried dentist to treat unregistered patients in the locality. This is an innovative approach that we are determined to see replicated throughout Wales.

Y Dirprwy Lywydd: Oherwydd nifer y siaradwyr—mae'n flin gennyf orfod gwneud hyn—bydd yn rhaid imi gyfyngu'r areithiau unigol i dri munud ar ôl i'r siaradwyr agoriadol gynnig y cynnig a'r gwelliannau.

Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw Lisa Francis, a gwelliannau 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12 yn enw Kirsty Williams.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Cynigiad fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn croesawu'r llwybr ychwanegol at ddeintyddiaeth y GIG a grewyd yn sgîl cynlluniau peilot y gwasanaeth deintyddol personol. (NDM2754)

Yr wyf yn deall, o brofiad personol, rwystredigaeth y rhai nad oes ganddynt ddeintydd gyda'r GIG, ond nid yw'n fater sy'n effeithio ar Gymru'n unig nac yn rhywbeth sydd newydd godi y llynedd. Mae'r problemau sy'n gysylltiedig â deintyddiaeth y GIG yn bodoli ers tro byd ac yn cael eu profi ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r diwygiadau a ddaw i rym yn Ebrill yn un o'r pecynnau mwyaf o newidiadau i ddeintyddiaeth ers 1948 ac yn ceisio gwella'r contract deintyddol anfoddhaol a etifeddwyd gan y gyfundrefn Geidwadol flaenorol.

Eisoed, mae £5.3 miliwn wedi'i roi i wella mynediad at ddeintyddiaeth y GIG a chefnogi gweithredu'r contract newydd a'r diwygiadau cysylltiedig. Cafodd peth o'r arian hwn ei dargedu at wella mynediad at ofal deintyddol yn yr ardaloedd hynny lle y cafwyd problemau. Mae'r arian hwn wedi helpu, er enghraifft, i greu cynllun bwrsariaeth yng Ngheredigion a welodd ei fyfyrwr deintyddol cyntaf yn dechrau ei hastudiaethau ym mis Medi. Yn sir Benfro, defnyddiwyd yr adnoddau ychwanegol i gyflogi deintydd cyflogedig i drin cleifion a oedd heb gofrestru yn yr ardal. Mae hwn yn ddull arloesol yr ydym yn benderfynol o'i weld yn cael ei ailadrodd ledled Cymru.

The Welsh Assembly Government's spending on NHS dentistry has gone from £77 million in 2003-04 to £82 million in 2004-05. There are 111 more dentists carrying out NHS work in Wales today than when the Assembly was established. We continue to support 50 vocational trainees in Wales each year and have increased the number of undergraduate dentistry students in Wales by 17 per cent.

The innovative schemes that we are supporting, such as the fissure sealant programme, which to date has been funded to the tune of £2 million, and the Welsh dental initiative, are targeting areas of special need, either in terms of the oral health of particularly vulnerable groups or where access problems are most difficult. Since its inception, almost £7 million has been allocated through the Welsh dental initiative grant schemes to dentists in Wales. In the last two years alone the Welsh dental initiative has supported the opening of 12 new practices and the expansion of 47 others.

In April last year, ahead of the new dental contract, I made an additional £5 million available to help with the roll-out of pilot personal dental service schemes across Wales. Pilot PDS schemes are based on the proposed new dental contract and provide the necessary flexibility in working practices that dentists have been asking for. They allow dentists and local health boards who wish to move more quickly towards the new arrangements to do so. PDS also enables dentists to treat patients on a much more personalised basis, concentrating on preventative and quality treatment work, and so ends the present treadmill whereby dentists are paid a range of over 400 different fees to generate their income.

Rhodri Glyn Thomas: You referred to the increasing number of dentists who are being trained and who are qualifying, but the problem is that you have no way of retaining those people in the NHS. Indeed, after they have qualified, you have no way of ensuring that they enter the NHS. Have you given any

Mae gwariant Llywodraeth y Cynulliad ar ddeintyddiaeth y GIG wedi cynyddu o £77 miliwn yn 2003-04 i £82 miliwn yn 2004-05. Mae 111 yn fwy o ddeintyddion yn cyflawni gwaith y GIG yng Nghymru heddiw na phan sefydlwyd y Cynulliad. Yr ydym yn parhau i gefnogi 50 o hyfforddeion galwedigaethol yng Nghymru bob blwyddyn ac wedi codi nifer y myfyrwyr deintyddol israddedig yng Nghymru 17 y cant.

Mae'r cynlluniau arloesol yr ydym yn eu cefnogi, fel y rhaglen selio holltau sydd, hyd yma, wedi derbyn cyllid o £2 miliwn, a menter ddeintyddol Cymru, yn targedu ardaloedd lle y mae angen arbennig, naill ai o ran iechyd y geg ymhlith grwpiau arbennig o agored i niwed neu lle y mae'r problemau o ran mynediad ar eu gwaethaf. Ers ei sefydlu, mae bron £7 miliwn wedi ei ddyrannu drwy grantiau'r fenter ddeintyddol i ddeintyddion yng Nghymru. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn unig, mae cynllun deintyddol Cymru wedi cefnogi agor 12 deintyddfa newydd ac ehangu 47 o rai eraill.

Ym mis Ebrill y llynedd, cyn darparu'r contract deintyddol newydd, rhoddais £5 miliwn ychwanegol i helpu i gyflwyno cynlluniau peilot y gwasanaeth deintyddol personol ar draws Cymru. Mae cynlluniau peilot y GDP yn seiliedig ar y contract deintyddol newydd arfaethedig ac yn cynnig yr hyblygrwydd angenrheidiol o ran arferion gweithio y mae deintyddion wedi bod yn galw amdano. Maent yn caniatáu i ddeintyddion a byrddau iechyd lleol sydd am symud yn gynt tuag at y trefniadau newydd wneud hynny. Mae'r GDP hefyd yn caniatáu i ddeintyddion drin cleifion ar sail lawer mwy personol, gan ganolbwyntio ar waith ataliol a thriniaeth o safon, a thrwy hynny'n gwneud i ffwrdd â'r drefn lafurus bresennol lle y mae deintyddion yn cael eu talu drwy amrywiaeth o fwy na 400 o ffioedd gwahanol i gynhyrchu eu hincwm.

Rhodri Glyn Thomas: Cyfeiriasoch at nifer cynyddol y deintyddion sy'n cael eu hyfforddi ac sy'n cymhwyso, ond y broblem yw na wyddoch sut i gadw'r bobl hyn yn y GIG. Yn wir, ar ôl iddynt gymhwyso, ni allwch sicrhau eu bod yn mynd i weithio gyda'r GIG o gwbl. A ydych wedi ystyried

thought to how students who have been trained and who have qualified because of public investment in their education can be drawn into and, hopefully, retained in the NHS?

Brian Gibbons: There is no question that the single most decisive reason why dentists do not join or do not stay in the NHS is the present unacceptable contractual arrangements of dentists. That is why fundamental reform of the dental contract is so important. If we change the contract, dentists will come back to the NHS.

The personal dental service has proved particularly successful since its roll-out, with 75 new schemes going live, incorporating over 186 dentists. Across Wales, to date, PDS has resulted in the registration of an additional 75,000 patients, as well as securing NHS provision for over 327,000 patients. In addition, some 20 further applications are currently with Assembly officials awaiting approval and an estimated 70 further proposals are being worked on by local health boards for submission.

The additional available NHS places are to be welcomed, particularly in the light of the recently released statistical data, which showed that the registration figures for children in Wales rose by over 12 per cent over the last five years and registration for adults has increased in Conwy, Powys, Ceredigion, Swansea, Caerphilly, Blaenau Gwent, Torfaen and Newport.

5.10 p.m.

Eleanor Burnham: Do you have any statistics that assert whether the new dentists that you are hoping for will be from the UK or Wales or whether, if they are from abroad, they will have linguistic difficulties and so on? Have you considered to what extent your tuition fees are having an impact? For instance, in the North Wales Regional Committee meeting just before Christmas, to which you were invited, we heard that the average debt for a graduate of dentistry is about £35,000. Do you not think that, as a Government, you have scored an own goal on

sut y gallwch sicrhau bod myfyrwyr sydd wedi eu hyfforddi ac a gymhwysodd o ganlyniad i fuddsoddiad cyhoeddus yn eu haddysg yn cael eu denu i weithio ac aros, gobeithio, yn y GIG?

Brian Gibbons: Yn ddiamheuol, y rheswm pennaf pam nad yw deintyddion yn dewis gweithio neu aros yn y GIG yw'r trefniadau contract annerbiniol ar gyfer deintyddion ar hyn o bryd. Dyna pam y mae cymaint o angen diwygio'r contract deintyddol yn sylfaenol. Os newidiwn y contract, daw deintyddion yn ôl i'r GIG.

Mae'r gwasanaeth deintyddol personol wedi bod yn llwyddiant arbennig ers ei gyflwyno, gyda 75 o gynlluniau newydd mewn grym, ac yn cynnwys dros 186 o ddeintyddion. Ar draws Cymru, hyd yma, mae'r GDP wedi arwain at gofrestru 75,000 o gleifion ychwanegol, yn ogystal â sicrhau darpariaeth GIG i dros 327,000 o gleifion. Yn ogystal, mae tua 20 o geisiadau pellach ar hyn o bryd yn nwylo swyddogion y Cynulliad yn aros i'w cymeradwyo ac mae tua 70 o gynigion pellach yn cael eu drafftio gan fyrddau iechyd lleol ar gyfer eu cyflwyno.

Dylid croesawu'r lleoedd ychwanegol o dan y GIG, yn enwedig yng ngoleuni'r data ystadegol a ryddhawyd yn ddiweddar, a ddangosodd fod y ffigurau cofrestru ar gyfer plant yng Nghymru wedi codi dros 12 y cant yn y pum mlynedd diwethaf a bod nifer yr oedolion yn cofrestru wedi cynyddu yng Nghonwy, Powys, Ceredigion, Abertawe, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen a Chasnewydd.

Eleanor Burnham: A oes gennych unrhyw ystadegau i ddangos a fydd y deintyddion newydd yr ydych yn gobeithio eu recriwtio yn dod o'r DU neu o Gymru, neu, os byddant yn dod o wledydd tramor, a fydd ganddynt anawsterau ieithyddol ac yn y blaen? A ydych wedi ystyried i ba raddau y mae eich ffioedd dysgu yn cael effaith? Er enghraifft, yng nghyfarfod Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru ychydig cyn y Nadolig, y cawsoch wahoddiad i'w fynychu, clywsom fod y ddyled gyfartalog gan rywun yn graddio mewn deintyddiaeth tua £35,000.

that issue?

Brian Gibbons: There is no evidence that the number of people applying for dentistry has gone down. There is more than adequate competition for every dental place at university, so I do not think that there is any basis to your question whatsoever.

There are some exciting developments in terms of major expansion of dental access in north and west Wales, and discussions are ongoing between several local health boards and private companies authorised to provide dental services. This is particularly important, as many of the areas involved are those with the lowest levels of dental access.

Although PDS pilot schemes have proved extremely effective, they should be seen as a forerunner to the new GDS contracts and the permanent PDS agreements, which will come in from 1 April. These will allow new ways of working for all dentists, and will therefore make the new dental contract more attractive. Dentists and LHBs have now received contract values that will form the basis for negotiation for the new arrangements.

The community dental service, CDS, is a salaried service provided by NHS trusts. In the main, it cares for children and adults and children with special needs, providing a safety net service for those who are otherwise unable to gain access to NHS services, particularly emergency services. It also undertakes screening of school children, epidemiological surveys, and provides oral health promotion services.

The Welsh Assembly Government commissioned a review of the community dental service in Wales. The review was set in the context of the recent structural reforms in NHS Wales, called 'Routes to Reform: A Strategy for Primary Dental Care in Wales', and of the implications for dentistry of the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003. The review report

Onid ydych yn meddwl eich bod, fel Llywodraeth, wedi cicio'r bêl i'ch gôl eich hun yn y mater hwn?

Brian Gibbons: Nid oes dim tystiolaeth i ddangos bod llai o bobl yn dewis astudio deintyddiaeth. Mae mwy na digon o gystadleuaeth am bob lle deintyddol yn ein prifysgolion, felly nid wyf yn credu bod dim sail i'ch cwestiwn o gwbl.

Mae rhai datblygiadau cyffrous yn digwydd o ran ehangu mynediad deintyddol yng ngogledd a gorllewin Cymru, ac mae nifer o fyrddau iechyd lleol wrthi'n trafod â chwmnïau preifat sydd wedi eu hawdurdodi i ddarparu gwasanaethau deintyddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig, gan fod llawer o'r ardaloedd dan sylw yn rhai gyda'r lefelau isaf o fynediad at wasanaethau deintyddol.

Er bod cynlluniau peilot y GDP wedi bod yn hynod effeithiol, dylid eu gweld fel rhagflaenwyr y contractau gwasanaeth deintyddol cyffredinol newydd a'r cytundebau GDP parhaol, a ddaw i rym o 1 Ebrill ymlaen. Bydd y rhain yn caniatáu i bob deintydd weithio mewn ffyrdd newydd, ac yn gwneud y contract deintyddol newydd yn fwy atyniadol o'r herwydd. Mae deintyddion a byrddau iechyd lleol bellach wedi derbyn gwerthoedd contract a fydd yn sail i negodi ar gyfer y trefniadau newydd.

Gwasanaeth cyflogedig a ddarperir gan ymddiriedolaethau iechyd y GIG yw'r gwasanaeth deintyddol cymunedol. Mae'n gofalu'n bennaf am blant, ac oedolion a phlant sydd ag anghenion arbennig, gan gynnig gwasanaeth rhwyd arbed i rai na fyddai ganddynt fynediad fel arall at wasanaethau'r GIG, yn enwedig rhai brys. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth sgrinio i blant ysgol, arolygon epidemiolegol, a gwasanaethau hybu iechyd y geg.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu adolygiad o'r gwasanaeth deintyddol cymunedol yng Nghymru. Gosodwyd yr adolygiad yng nghyd-destun y diwygiadau strwythurol diweddar o fewn y GIG yng Nghymru, sef 'Ffyrdd i Ddiwygio: Strategaeth ar gyfer Gofal Deintyddol Sylfaenol yng Nghymru', a hefyd yng nghyd-destun y goblygiadau i ddeintyddiaeth yn sgîl

informed the development of the current consultation paper 'Bridges to the Future: A Consultation on the Future of Salaried Primary Care Dental Services in Wales'. The consultation document highlights, in the context of 'Designed for Life', the key challenges facing the salaried dental services in Wales and offers constructive suggestions on the way forward.

We recognise the essential contribution that the CDS makes to general patient care and health. The skills, experience and dedication of the community dental service workforce is and will remain an important part of general dental provision in Wales.

The new dental contract that we are introducing in Wales is the way forward for NHS dentistry and will provide the necessary flexibility in working practices that dentists have been asking for. It will enable dentists to treat patients more as individuals, concentrating on preventative and quality treatment work where needed, breaking the treadmill that has bedevilled the current contract. The new contract will guarantee dentists an income based on their historic earnings with appropriate annualised uplifts. Dentists will treat patients on the basis of clinical need without having to worry about whether the work they are undertaking generates patient charge income or not.

One of the main benefits of local commissioning for the NHS under the new arrangements is that it will give LHBs increasing influence over how NHS dental services for their areas will be delivered. Historically, when a dentist left the NHS or reduced his or her NHS commitment, the LHB had no power or finance to replace the lost capacity. With local budgets, LHBs retain the funding for NHS dentistry. That will enable LHBs to commission alternative provision when a dentist leaves the area.

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Dylanwadodd adroddiad yr adolygiad ar ddatblygiad y papur ymgynghorol presennol 'Bridges to the Future: A Consultation on the Future of Salaried Primary Care Dental Services in Wales'. Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn tynnu sylw, yng nghyd-destun y 'Cynllun Oes', at y sialensiau allweddol sy'n wynebu'r gwasanaethau deintyddol cyflogedig yng Nghymru ac yn cynnig awgrymiadau adeiladol ynghylch sut i symud ymlaen.

Yr ydym yn cydnabod y cyfraniad hanfodol a wneir gan y gwasanaeth deintyddol cymunedol i ofal ac iechyd cleifion yn gyffredinol. Mae sgiliau, profiad ac ymroddiad gweithlu'r gwasanaeth deintyddol cymunedol yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth ddeintyddol gyffredinol yng Nghymru, a bydd yn parhau'n rhan bwysig ohoni.

Y contract deintyddol newydd yr ydym yn ei gyflwyno yng Nghymru yw'r ffordd ymlaen i ddeintyddiaeth y GIG a bydd yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol o ran arferion gweithio y mae deintyddion wedi bod yn galw amdano. Bydd deintyddion yn gallu trin cleifion yn fwy fel unigolion, gan ganolbwyntio ar yr ochr ataliol a thriniaeth o safon lle y bo angen hynny, gan beri bod y gwaith blinderus sydd wedi bod yn gymaint o felltith i'r contract presennol yn dod i ben. Bydd y contract newydd yn gwarantu incwm i ddeintyddion a fydd yn seiliedig ar eu henillion hanesyddol, gyda chodiadau blynyddol priodol. Bydd deintyddion yn trin cleifion ar sail angen clinigol heb orfod poeni ynghylch a fydd y driniaeth yn cynhyrchu incwm o daliadau cleifion ai peidio.

Un o brif fanteision comisiynu lleol ar gyfer y GIG o dan y trefniadau newydd yw y bydd yn rhoi mwy o rym i fyrddau iechyd lleol ynghylch sut y darperir gwasanaethau deintyddol y GIG yn eu hardaloedd. Yn hanesyddol, pan adawai deintydd y GIG neu pan ddewisai leihau ei ymrwymiad i'r GIG, nid oedd gan y bwrdd iechyd lleol ddim pŵer na chyllid i lenwi'r bwlch mewn capasiti. Gyda chyllidebau lleol, bydd y byrddau iechyd lleol yn cadw'r cyllid ar gyfer deintyddiaeth y GIG. Byddant felly yn gallu comisiynu darpariaeth arall pan fydd deintydd yn gadael yr ardal.

To help ensure that our responsibilities for the health of patients are met, on 3 November last year I announced that this arrangement would be brought forward so that, if any dentist reduced his or her NHS commitment in the run up to the introduction of the new contract in April 2006, the resources would remain with LHBs in order that they could make early provision for alternative services. I see this as a very positive step towards securing and improving access for patients.

I believe that a new dental contract and a reform of services are needed to secure a sustainable NHS future. It will help to provide a new service framework for primary care dentistry, building on the incentives to enable dentists to respond appropriately to clinical need, and removing the unnecessary demands that created the current crisis.

Helen Mary Jones: I propose amendment 1 in the name of Jocelyn Davies. Delete all after 'Wales' and replace with:

deplores the lack of progress made by the Welsh Assembly Government since 1999 in improving access to NHS dental services.

I am glad that we are finally having this debate on this important issue, which I am sure crops up in all our constituency and regional postbags. Of course, we are only having this debate at the insistence of the opposition.

I am disappointed by the derisory, self-congratulatory and complacent tone of the motion as tabled and in much of the Minister's speech. Dr Brian Gibbons is not usually the Government's worst offender in that regard; that increases my disappointment. The motion as it stands insults the Assembly and the public, because it fails to take into account the seriousness of the situation. We have chosen to respond with an equally simple amendment that more accurately reflects the real situation in deploring the lack of progress made by the National Assembly Government since 1999 in improving access to NHS dental services.

I helpu i sicrhau bod ein cyfrifoldebau dros iechyd cleifion yn cael eu cyflawni, ar 3 Tachwedd y llynedd cyhoeddais y byddai'r trefniant hwn yn dod i rym yn gynt fel y byddai'r adnoddau, pe bai unrhyw ddeintydd yn dewis lleihau ei ymrwymiad i'r GIG cyn y deuai'r contract newydd i rym yn Ebrill 2006, yn aros gyda'r byrddau iechyd lleol fel y gallent drefnu'n fuan i ddarparu gwasanaethau eraill. Gwelaf hyn fel cam cadarnhaol iawn ymlaen tuag at sicrhau a gwella mynediad i gleifion.

Credaf fod angen contract deintyddol newydd a diwygiadau i'r gwasanaeth i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r GIG. Bydd yn helpu i ddarparu fframwaith gwasanaeth newydd ar gyfer deintyddiaeth gofal sylfaenol, ac yn cynnig mwy o gymhellion i alluogi deintyddion i ymateb yn briodol i angen clinigol, ac yn dileu'r galwadau diangen sydd wedi creu'r argyfwng presennol.

Helen Mary Jones: Cynigiau welliant 1 yn enw Jocelyn Davies. Dileu popeth ar ôl 'Cymru' a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y diffyg cynnydd a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ers 1999 o ran gwella mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG.

Yr wyf yn falch ein bod o'r diwedd yn cael y ddadl hon am y mater pwysig hwn sydd, yr wyf yn siŵr, yn amlwg yn llythrau pob un ohonom mewn etholaeth a rhanbarth. Wrth gwrs, dim ond am fod yr wrthblaid wedi mynnu hynny yr ydym yn cael y ddadl.

Yr wyf yn siomedig â thôn wawdlyd, hunanglodforus a hunanfodlon y cynnig fel y'i cyflwynwyd ac wedi fy siomi gan lawer o arraith y Gweinidog. Nid Dr Brian Gibbons yw tramgwyddwr gwaethaf y Llywodraeth yn hynny o beth fel rheol; mae hynny'n cynyddu fy siom. Mae'r cynnig fel y mae yn sarhau'r Cynulliad a'r cyhoedd, oherwydd nid yw'n cydnabod difrifoldeb y sefyllfa. Yr ydym wedi dewis ymateb gyda gweliant yr un mor syml sy'n adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn fwy cywir drwy resynu at y diffyg cynnydd a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ers 1999 o ran gwella mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG.

Of course, we are not saying that nothing has been done—obviously, something has. As the Minister said, personal dental service pilot schemes have been effective in the small number of communities that have been lucky enough to have been able to take advantage of them so far. The salaried dentist scheme, of course, is welcome: that is a Plaid Cymru policy that we are delighted to see the Government adopting. There has also been some increase in the number of dentists in training, but Rhodri Glyn Thomas's point as to how we retain those people in the public sector simply has not been addressed. Therefore, something has been done, and although those things are welcome, what is missing is a strategic, overall approach to address the crisis—and it is a crisis.

Rhodri Glyn Thomas: The Minister referred to the increase in the number of dentists serving in the NHS in Wales. However, I received a written answer from him that states that, last year, there were 927 principal dentists serving in Wales. When you take out the people on assignment or who are assistants, there are 927 dentists. That is exactly one dentist less than the number of principal dentists in September 2000. The idea that we have more dentists serving in the NHS at the moment is actually a false statement.

Helen Mary Jones: Indeed, and this is another example of this Government's tendency to use smoke and mirrors, as well as lies, damned lies and statistics when it wants to confuse us.

All Members know, from our regional and constituency postbags, that this is a crisis situation. New patients cannot find NHS treatment anywhere, and existing patients see practices change to private practice, often insisting that patients take out insurance that they can seldom afford. There has been a seemingly endless litany of press stories in recent years about these issues, and we can be fairly sure that the press would not risk making them up. I intended to go through

Wrth gwrs, nid ydym yn dweud nad oes dim wedi cael ei wneud—yn amlwg, gwnaethpwyd rhywbeth. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae cynllun peilot y gwasanaeth deintyddol personol wedi bod yn effeithiol yn y nifer fach o gymunedau sydd wedi bod yn ddigon lwcus i allu manteisio arnynt hyd yma. Mae'r cynllun deintyddion cyflogedig, wrth gwrs, i'w groesawu: mae hynny'n un o bolisiau Plaid Cymru yr ydym yn falch o weld y Llywodraeth yn ei fabwysiadu. Bu rhywfaint o gynnydd hefyd yn nifer y deintyddion sy'n cael eu hyfforddi, ond nid oes sylw wedi cael ei roi i bwynt Rhodri Glyn Thomas ynglŷn â sut y mae cadw'r bobl hynny yn y sector cyhoeddus. Felly, cafodd rhywbeth ei wneud, ac er bod y pethau hynny i'w croesawu, yr hyn sy'n eisiau yw dull strategol, cyffredinol, i fynd i'r afael â'r argyfwng—ac mae'n argyfwng.

Rhodri Glyn Thomas: Cyfeiriodd y Gweinidog at y cynnydd yn nifer y deintyddion sy'n gwasanaethu yn y GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, cefais ateb ysgrifenedig ganddo sy'n datgan bod 927 o ddeintyddion sydd â phractis yn gwasanaethu yng Nghymru y llynedd. Ar ôl tynnu allan y bobl sydd ar aseiniad neu'r cynorthwywyr, mae 927 o ddeintyddion. Mae hynny un deintydd yn union yn llai na nifer y deintyddion â phractis ym mis Medi 2000. Mae'r syniad bod gennym fwy o ddeintyddion yn gwasanaethu yn y GIG ar hyn o bryd yn ddatganiad anghywir mewn gwirionedd.

Helen Mary Jones: Yn wir, ac mae hyn yn enghraifft arall o duedd y Llywodraeth hon i dynnu sylw oddi wrth y broblem, yn ogystal â chelwyddau, celwyddau felltith ac ystadegau pan fydd am ein drysu.

Gŵyr yr Aelodau i gyd, yn ôl y llythyrau a gawn mewn etholaethau a rhanbarthau, fod hon yn sefyllfa o argyfwng. Nid yw cleifion newydd yn gallu dod o hyd i driniaeth GIG yn unman, ac mae cleifion presennol yn gweld practisau yn newid i bractis preifat, gan fynnu yn aml fod cleifion yn prynu yswiriant na allant ei fforddio. Bu cyfres ddiiddiwedd yn ôl pob golwg o storïau yn y wasg dros y blynyddoedd diwethaf am y materion hyn, a gallwn fod yn weddol sicr na

some examples, but, given the pressure on time, I will not do so. However, I refer Members to a report in the Dentistry magazine in December 2005, showing that only four dentists outside south-east Wales were, at that time, taking on new NHS patients, that only a handful of dentists were still accepting children below secondary school age in mid, west and north Wales, and that there were no dentists in Ceredigion, Pembrokeshire or Carmarthenshire taking on new NHS patients. If that is not a crisis, then I do not know what is.

Only 44 per cent of adults and 59 per cent of children, according to the Government's own figures, are registered with an NHS dentist, and that falls much lower in some areas—it is 23 per cent in Pembrokeshire. Does this matter? Imagine a situation wherein we would be content if only 44 per cent of adults were registered with a general practitioner. I do not think so, and I do not need to rehearse the importance of dental services. There are the immediate issues of pain and suffering when somebody has a problem, but there are also the long-term health impacts if problems go untreated, and check ups have the capacity to detect serious diseases early so that they can be dealt with. Five-year-olds in Wales have twice as many missing, decayed or filled teeth as five-year-olds in the south-east of England.

We need to remember that we were promised a solution to this crisis. In 1999, at the Labour Party conference, Tony Blair promised that everyone in these nations, within the next two years, would be able once again to see an NHS dentist. That was the commitment repeated again in the Labour Party's Assembly manifesto in 1999. No-one expects enormous problems to be undone overnight, but we have had almost seven years for those promises, and the Minister cannot keep blaming the Conservatives. I also say to the Conservatives that they cannot teach the Minister any lessons—the rot started under the Conservatives, although there is no doubt that that nice Mr Cameron will soon apologise for this in the same way

fyddai'r wasg yn mentro eu dyfeisio. Yr oeddwn wedi bwriadu mynd drwy rai enghreifftiau, ond, oherwydd prinder amser, ni wnaaf hynny. Fodd bynnag, cyfeiriaf yr Aelodau at adroddiad yn y cylchgrawn Dentistry ym mis Rhagfyr 2005, sy'n dangos mai dim ond pedwar deintydd y tu allan i dde-ddwyrain Cymru a oedd, bryd hynny, yn derbyn cleifion GIG newydd, mai dim ond dyrnaid o ddeintyddion a oedd yn dal i dderbyn plant islaw oed ysgol uwchradd yng nghanolbarth, gorllewin a gogledd Cymru, ac nad oedd dim deintyddion yng Ngheredigion, sir Benfro a sir Gaerfyrddin yn derbyn cleifion GIG newydd. Os nad yw hyn yn argyfwng, ni wn beth sydd.

Dim ond 44 y cant o oedolion a 59 y cant o blant, yn ôl ffigurau'r Llywodraeth ei hun, sy'n gofrestredig gyda deintydd GIG, ac mae hynny'n disgyn lawer yn is mewn rhai ardaloedd—23 y cant ydyw yn sir Benfro. Oes ots am hyn? Dychmygwch sefyllfa lle y byddem yn fodlon pe na bai ond 44 y cant o oedolion yn gofrestredig gyda meddyg teulu. Ni chredaf y byddem, ac nid oes angen imi ailadrodd pwysigrwydd gwasanaethau deintyddol. Rhaid ystyried y boen a'r dioddefaint ar y pryd pan fydd gan rywun broblem, ond mae effeithiau iechyd hirdymor hefyd os na chaiff problemau eu trin, ac mae archwiliadau yn fodd i ganfod clefydau difrifol yn gynnar fel bod modd delio â hwy. Mae gan blant pump oed yng Nghymru gymaint ddwywaith o ddannedd wedi colli, wedi pydru neu wedi cael eu llenwi â phlant pump oed yn ne-ddwyrain Lloegr.

Mae angen inni gofio bod addewid wedi'i wneud y ceid ateb i'r argyfwng hwn. Yn 1999, yng nghynhadledd y Blaid Lafur, addawodd Tony Blair y byddai pawb yn y cenhedloedd hyn, o fewn y ddwy flynedd nesaf, yn gallu gweld deintydd GIG unwaith eto. Cafodd yr ymrwymiad hwnnw ei ailadrodd eto ym manifesto Cynulliad y Blaid Lafur yn 1999. Nid oes neb yn disgwyl i broblemau enfawr gael eu datrys dros nos, ond yr ydym wedi cael bron saith mlynedd i'r addewidion hynny, ac ni all y Gweinidog ddal i feio'r Ceidwadwyr. Dywedaf hefyd wrth y Ceidwadwyr na allant hwy ddysgu dim gwersi i'r Gweinidog—o dan y Ceidwadwyr y dechreuodd y pydredd, er y bydd y dyn clên Mr Cameron yn siŵr o

as he seems to be apologising for every other previously held Conservative policy.

ymddiheuro cyn bo hir am hyn yr un modd ag y mae'n ymddangos ei fod yn ymddiheuro am bob polisi arall yr arferai'r Ceidwadwyr ei arddel.

5.20 p.m.

So, we are facing a crisis—

Felly, yr ydym yn wynebu argyfwng—

Alun Cairns: I draw the Member's attention to the fact that Mr Cameron has not apologised for anything, but he recognises that times have changed.

Alun Cairns: Tynnaf sylw'r Aelod at y ffaith nad yw Mr Cameron wedi ymddiheuro am ddim, ond mae'n cydnabod bod yr oes wedi newid.

Helen Mary Jones: I have heard the sound of apology in much of what he has said, and perhaps it would be more gracious and honest if he were to apologise openly, rather than covertly.

Helen Mary Jones: Yr wyf wedi clywed sŵn ymddiheuro yn llawer o'r hyn y mae wedi ei ddweud, ac efallai y byddai'n fwy graslon a gonest pe bai'n ymddiheuro'n agored, yn hytrach nag yn y dirgel.

NHS dental treatment in Wales is in crisis and the Government's complacency, which is reflected in its motion and in the Minister's statement, is shocking. The proposed new contract will not solve every problem, whatever the Minister says. The Minister knows better than I that dentists are far from happy. In fairness to Brian Gibbons, he is limited in his ability to influence the contract, because the Westminster Government retains most of the power in that regard, but he has shown little appetite to ensure that the new contract reflects specific Welsh conditions and needs. I am most concerned that the Minister does not seem to understand the seriousness of the situation.

Mae triniaeth ddeintyddol o dan y GIG yng Nghymru mewn argyfwng ac mae hunanfodlonrwydd y Llywodraeth, a adlewyrchir yn ei chynnig ac yn natganiad y Gweinidog, yn frawychus. Ni fydd y contract newydd arfaethedig yn datrys pob problem, beth bynnag a ddywed y Gweinidog. Gŵyr y Gweinidog yn well na mi nad yw deintyddion yn hapus o bellffordd. A bod yn deg â Brian Gibbons, mae ei allu i ddylanwadu ar y contract yn gyfyngedig, gan fod Llywodraeth San Steffan yn cadw'r rhan fwyaf o'r grym yn y cyswllt hwnnw, ond nid yw wedi dangos fawr o awydd i sicrhau bod y contract newydd yn adlewyrchu amodau ac anghenion penodol Cymru. Yr wyf yn bryderus nad yw'r Gweinidog fel pe bai'n deall difrifoldeb y sefyllfa.

The Labour Party made definite promises to the people of Wales about NHS dentistry provision which have been comprehensively broken. The current situation makes a mockery of the principle of a comprehensive health service which is free at the point of delivery, to which the Assembly Government is supposed to be committed. It is time for the Minister to apologise for those broken promises, to make amends by accepting the seriousness of the situation, and to develop a strategy to address the problem.

Gwnaeth y Blaid Lafur addewidion pendant i bobl Cymru am ddarpariaeth ddeintyddol GIG sydd wedi cael eu torri'n llwyr. Mae'r sefyllfa gyfredol yn gwneud cyff gwawd o'r egwyddor o wasanaeth iechyd cynhwysfawr sydd am ddim yn y man lle y mae'n cael ei ddarparu, egwyddor y mae Llywodraeth y Cynulliad i fod wedi ymrwymo iddi. Mae'n bryd i'r Gweinidog ymddiheuro am yr addewidion hynny a dorrrwyd, gwneud iawn am hynny drwy dderbyn difrifoldeb y sefyllfa, a datblygu strategaeth i fynd i'r afael â'r broblem.

Jonathan Morgan: I propose the following amendments in the name of Lisa Francis.

Jonathan Morgan: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Lisa Francis. Gwelliant 2:

Amendment 2: add a new point at the end of the motion:

, but deploras the fact that less than half the population are registered with an NHS dentist.

I propose amendment 3. Add a new point at the end of the motion:

notes that the percentage of adults registered with an NHS dentist is at an all-time low.

I propose amendment 4. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Assembly Government to endorse the Prime Minister's belief that everyone should have access to an NHS dentist.

I propose amendment 5. Add a new point to the end of the motion:

endorses the view of the BDA's Welsh chairman that the new contract is a massive missed opportunity.

This is the first occasion in almost seven years, since the advent of devolution, that we have had the opportunity for debating dentistry in a motion proposed by the Government. The only other opportunity was a motion proposed as a minority party debate by Plaid Cymru. This is absolutely shocking when you consider the parlous state of affairs faced by dentists and patients the length and breadth of Wales. It shows the real lack of political priority that the Labour Assembly Government has chosen to place on this crucial part of NHS service delivery. It is disgraceful that it is only now, as we approach the end of the Assembly's second term of office, that the Government has decided to debate this very important matter.

We look forward to supporting every amendment, and I look forward to Labour Party support for amendment 4 in the name of Lisa Francis, which endorses the Prime Minister's view that everyone should have access to an NHS dentist. I look forward to the Labour Party reconfirming the commitment made in its manifesto. I look forward to at least one of our amendments

cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

, ond yn gresynu'n fawr fod llai na hanner y boblogaeth wedi'u cofrestru gydag un o ddeintyddion y GIG.

Cynigiaf welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod canran yr oedolion sydd wedi'u cofrestru gydag un o ddeintyddion y GIG yn is nag a fu erioed.

Cynigiaf welliant 4. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ategu cred Prif Weinidog Prydain y dylai pawb allu mynd at un o ddeintyddion y GIG.

Cynigiaf welliant 5. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn ategu barn cadeirydd Cymru'r BDA mai enghraifft o golli cyfle anferth yw'r contract newydd.

Dyma'r tro cyntaf mewn saith mlynedd bron, ers dyfodiad datganoli, yr ydym wedi cael y cyfle i drafod deintyddiaeth mewn cynnig a gynigir gan y Llywodraeth. Yr unig gyfle arall oedd cynnig a gynigiwyd fel dadl gan blaid leiafrifol a gyflwynwyd gan Blaid Cymru. Mae hyn yn gwbl warthus o ystyried y sefyllfa enbyd sy'n wynebu deintyddion a chleifion ar hyd ac ar led Cymru. Mae'n dangos y diffyg blaenoriaeth wleidyddol wirioneddol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dewis ei rhoi i'r rhan hanfodol hon o ddarparu gwasanaethau'r GIG. Mae'n gywilyddus mai dim ond yn awr, wrth inni nesáu at ddiwedd ail dymor y Cynulliad, y mae'r Llywodraeth wedi penderfynu trafod y mater hynod bwysig hwn.

Edrychwn ymlaen at gefnogi pob gwelliant, ac edrychaf ymlaen at gefnogaeth y Blaid Lafur i welliant 4 yn enw Lisa Francis, sy'n cefnogi barn y Prif Weinidog y dylai pawb allu cael mynediad at ddeintydd GIG. Edrychaf ymlaen at weld y Blaid Lafur yn ailgadarnhau'r ymrwymiad yn ei manifesto. Edrychaf ymlaen at weld o leiaf un o'n gwelliannau'n cael ei basio y prynhawn yma.

being carried this afternoon.

This issue is about access. It is clear that in recent years many dentists have left the NHS and gone into private practice, and that many dentists have deregistered NHS patients. The figures show that between 1997 and 2005, there was a 12.1 per cent reduction in the number of patients registered with an NHS dentist in Wales—that is a difference of almost 196,000 people. The Minister has referred to the PDS scheme, and in a letter to one dentist he stated that 62 schemes had provided almost an additional 60,000 patients. At that rate, if repeated every year, it would take at least another three years for the Assembly Government to return to the level in 1997 when Tony Blair became Prime Minister. This is not an issue with which the Labour Party can be satisfied, nor of which it can be proud.

The figures are stark when you consider the child population. In 1996, 65 per cent of the children of Wales were registered with an NHS dentist. The figure is now below 60 per cent. When you consider the increased levels of tooth decay, particularly among eight to 11-year-olds, it is a massive problem. If we do not resolve this problem, it will store up a huge number of difficulties for those people in decades to come.

The Minister states that the new contract is the solution to every problem. The British Dental Association, as it happens, does not agree with him. Many dentists believe that this contract will be quite difficult to run from an administrative and bureaucratic point of view. Many have told me that they are worried about the administrative pressures that will be placed on them as a result of this contract and that many dentists could be pushed into leaving the NHS for the private sector and schemes such as Denplan, which apparently do all of the administration work for them. Therefore, unless we make it easy for NHS dentists to continue operating under and within the NHS, many will simply leave the NHS and practise in the private sector. We cannot afford to lose NHS dentists, particularly when 22 per cent of dentists in

Mater yn ymwneud â mynediad yw hyn. Mae'n amlwg bod llawer o ddeintyddion wedi gadael y GIG ac wedi mynd i bractis preifat dros y blynyddoedd diwethaf, a bod llawer o ddeintyddion wedi datgofrestru cleifion GIG. Dengys y ffigurau fod gostyngiad o 12.1 y cant wedi bod yn nifer y cleifion sy'n gofrestredig gyda deintydd GIG yng Nghymru rhwng 1997 a 2005—mae hynny'n wahaniaeth o bron 196,000 o bobl. Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at y cynllun gwasanaeth deintyddol personol, ac mewn llythyr at un deintydd dywed fod 62 o gynlluniau wedi darparu bron 60,000 o gleifion ychwanegol. Yn ôl y gyfradd honno, pe câi ei haildrodd bob blwyddyn, byddai'n cymryd o leiaf dair blynedd i Lywodraeth y Cynulliad ddychwelyd i'r lefel yn 1997 pan ddaeth Tony Blair yn Brif Weinidog. Nid yw hwn yn fater y gall y Blaid Lafur fod yn fodlon arno, ac ni all ymfalchio ynddo ychwaith.

Mae'r ffigurau'n druenus pan ystyriwch y boblogaeth o ran plant. Yn 1996, yr oedd 65 y cant o blant Cymru wedi eu cofrestru gyda deintydd GIG. Mae'r ffigur hwnnw yn is na 60 y cant erbyn hyn. Pan ystyriwch y lefelau uwch o bydredd dannedd, yn enwedig ymysg plant wyth i 11 oed, mae'n broblem aruthrol. Os na wnawn ddatrys y broblem hon, bydd yn storio nifer enfawr o anawsterau i'r bobl hynny yn y degawdau i ddod.

Dywed y Gweinidog mai'r contract newydd yw'r ateb i bob problem. Nid yw Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, fel y mae'n digwydd bod, yn cytuno ag ef. Cred llawer o ddeintyddion y bydd y contract hwn yn bur anodd ei redeg o safbwynt gweinyddol a biwrocraidd. Mae llawer wedi dwed wrthyf eu bod yn poeni am y pwysau gweinyddol a roddir arnynt o ganlyniad i'r contract hwn ac y gallai llawer o ddeintyddion gael eu gwthio i adael y GIG a throi at y sector preifat a chynlluniau megis Denplan, sydd yn ôl pob tebyg yn gwneud y gwaith gweinyddol i gyd ar eu rhan. Felly, oni bai ein bod yn ei gwneud yn hawdd i ddeintyddion GIG barhau i weithredu o dan ac o fewn y GIG, bydd llawer yn ymadael â'r GIG ac yn gweithredu yn y sector preifat. Ni allwn fforddio colli deintyddion GIG, yn

Wales are aged between 50 and 59. There is a recruitment time bomb on the horizon, which I do not believe the Minister is aware of or, if he is aware of it, he is not willing to do anything about it. We have a fundamental problem with recruitment and, as a result, we could lose large numbers of dentists, either because of their age bracket—they may want to retire—or because they are sick and tired of the NHS and will go and practise in the private sector.

What concerns me about this more than anything is the lack of aspiration from the Labour Assembly Government. Normally these sorts of things are accompanied by a glossy strategy. I am quite sad that we do not have a glossy strategy on this occasion because no-one seems to know what the Minister's aspirations are. We know what the situation is at the moment, but how many new NHS patients over the next five to 10 years do you want to see with an NHS dentist in Wales? How many more dentists do you think need to be operating within the NHS to get us back to an appropriate level? How many of you support the view of the Prime Minister, who believes in access for all?

I do not believe that we have seen aspiration from the Assembly Government in terms of dentistry. We know what it is trying to do with the contract but nowhere has it set out any ambition whatsoever for NHS dentistry. Given what it said in its manifesto for the Assembly elections, it will not be fulfilling its promises.

Jenny Randerson: I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 6: add a new point at the end of the motion:

believes that access to NHS dental services is a fundamental right for all.

I propose amendment 7. Add a new point at the end of the motion:

regrets the lack of focus in the new contract on preventative work and calls for good

enwedig pan fo 22 y cant o ddeintyddion Cymru rhwng 50 a 59 oed. Mae argyfwng mawr o ran recriwtio yn sicr o'n hwynebu, argyfwng na chredaf fod y Gweinidog yn ymwybodol ohono neu, os yw'n ymwybodol ohono, nad yw'n barod i wneud dim yn ei gylch. Mae gennym broblem sylfaenol gyda recriwtio ac, o ganlyniad, gallem golli nifer fawr o ddeintyddion, un ai oherwydd eu hoedran—efallai y byddant am ymddeol—neu am eu bod wedi hen flino ar y GIG ac y byddant yn mynd i weithredu yn y sector preifat.

Yr hyn sy'n fy mhryderu am hyn yn fwy na dim yw'r diffyg dyhead o du Llywodraeth Lafur y Cynulliad. Fel arfer gyda'r mathau hyn o bethau ceir strategaeth sgleiniog. Yr wyf yn bur drist nad oes gennym strategaeth sgleiniog ar yr achlysur hwn oherwydd nid oes neb yn gwybod yn ôl pob golwg beth yw dyheadau'r Gweinidog. Gwyddom beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd, ond faint o gleifion GIG newydd dros y pump neu'r 10 mlynedd nesaf yr ydych am eu gweld gyda deintydd GIG yng Nghymru? Faint yn rhagor o ddeintyddion yn eich barn chi y mae angen eu gweld yn gweithio yn y GIG er mwyn dod â ni'n ôl i lefel briodol? Faint ohonoch sy'n cefnogi barn Prif Weinidog Prydain, sy'n credu mewn mynediad i bawb?

Ni chredaf ein bod wedi gweld dyhead o du Llywodraeth y Cynulliad o ran deintyddiaeth. Gwyddom beth y mae'n ceisio ei wneud gyda'r contract ond nid yw yn unman wedi nodi dim uchelgais o gwbl o ran deintyddiaeth y GIG. O gofio'r hyn a ddywedodd yn ei maniffesto ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, ni fydd yn cyflawni ei haddewidion.

Jenny Randerson: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 6: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu bod mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG yn hawl sylfaenol i bawb.

Cynigiau welliant 7. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn gresynu at ddiffyg ffocws y contract newydd ar waith ataliol ac yn galw am

dental health to be incentivised as a core function of units of dental activity.

I propose amendment 8. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Assembly Government to develop a dental workforce plan that increases the use of allied dental professions.

I propose amendment 9. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Assembly Government to take emergency action on dental provision in rural Wales.

I propose amendment 10. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Assembly Government to take immediate action to avert the crisis in child dental health in Wales.

I propose amendment 11. Add a new point at the end of the motion:

believes that the new contract in its unamended form is not a Welsh solution, but a continuation of the 'drill and fill' treadmill of treatment.

I propose amendment 12. Add a new point at the end of the motion.

calls on the Welsh Assembly Government to explain what action it has taken to improve access to NHS dentistry in Wales.

Dentistry in Wales is a shambles. Since 1997, Labour has presided over a painful story of dental decay and it is also a postcode lottery. The figures speak for themselves. In a civilised country in the twenty-first century, nothing should excuse the fact that only 35 per cent of children in Merthyr Tydfil are registered with a dentist, while 85.5 per cent are registered in Swansea. Nothing can excuse the fact that only 15.5 per cent of adults are registered in Pembrokeshire but nearly 70 per cent are registered in Swansea

wneud cymell iechyd deintyddol da yn un o swyddogaethau craidd unedau gweithgarwch deintyddol.

Cynigiaf welliant 8. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu cynllun ar gyfer gweithlu deintyddol sy'n cynyddu'r defnydd o broffesiynau deintyddol perthynol.

Cynigiaf welliant 9. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i weithredu ar frys gyda golwg ar y ddarpariaeth ddeintyddol yn y Gymru wledig.

Cynigiaf welliant 10. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i weithredu'n ddi-oed er mwyn osgoi'r argyfwng yn iechyd deintyddol plant yng Nghymru.

Cynigiaf welliant 11. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu nad ateb Cymreig yw'r contract newydd ar ei ffurf gysefin, ond ei fod yn hyrach yn barhad o'r un hen driniaeth 'drilio a llenwi'.

Cynigiaf welliant 12. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i esbonio pa gamau a gymerwyd ganddi i wella mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yng Nghymru.

Mae deintyddiaeth yng Nghymru yn draed moch. Ers 1997, cafwyd hanes poenus o bydredd dannedd dan ofal Llafur ac mae hefyd yn loteri codau post. Mae'r ffigurau'n siarad drostynt eu hunain. Mewn gwlad wâr yn yr unfed ganrif ar hugain, ni ddylai dim esgusodi'r ffaith mai dim ond 35 y cant o blant Merthyr Tudful sy'n gofrestredig gyda deintydd, tra bo 85.5 y cant yn gofrestredig yn Abertawe. Ni all dim esgusodi'r ffaith mai dim ond 15.5 y cant o oedolion sy'n gofrestredig yn sir Benfro ond mae bron 70 y

or that over 60 per cent of adults in Denbighshire are registered but only 22 per cent are registered in Gwynedd. Nothing can excuse the 200,000 drop in the number of people registered with an NHS dentist in the last 10 years. This is a shambles that is getting worse by the day.

I will give you a local example that arrived in the post this week. I helped one of my constituents to get a new NHS dentist last year when his dentist in the Penylan area of Cardiff closed his doors to NHS patients. On 31 December, my constituent and his family received letters from the new dentist saying that he was also shutting his doors to NHS patients. The interesting point is what his dentist said to him. He admitted that the situation was bad and said that it was likely to deteriorate and that, under the new contract, high-quality, preventative care would be difficult to sustain. My constituent, his wife and his teenage son now face a bill of £360 a year if they wish to continue with the same dentist under an insurance scheme.

I recently surveyed all NHS dentists in Wales. I had a very good response rate and they were virtually unanimous in their replies. They believed that the new contract will simply be a new treadmill that replaces the old one.

5.30 p.m.

I am glad that my amendment to allow NHS dentists to focus their work on children in the new contract was accepted at committee but the fact that it was necessary to propose that amendment is appalling. It shows the scarcity of NHS dentists in Wales, hence our amendment 6, which reasserts the fact that access to NHS dentistry is a right for all.

I turn to some specific problems and issues that need to be addressed. Wales has the worst dental health in the UK. Preventative and educational work should be at the top of the agenda. However, there has been a massive fall in the number of children being

cant yn gofrestredig yn Abertawe neu fod dros 60 y cant o oedolion yn sir Ddinbych yn gofrestredig ond mai dim ond 22 y cant sy'n gofrestredig yng Ngwynedd. Ni all dim esgusodi'r gostyngiad o 200,000 yn nifer y bobl sy'n gofrestredig gyda deintydd GIG dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n draed moch ac mae'n gwaethgu bob dydd.

Rhoddaf enghraifft leol ichi a gyrhaeddodd yn y post yr wythnos hon. Helpais un o'm hetholwyr i gael deintydd GIG newydd y llynedd pan gaeodd ei ddeintydd yn ardal Pen-y-lan yng Nghaerdydd ei ddrysau i gleifion y GIG. Ar 31 Rhagfyr, derbyniodd fy etholwr a'i deulu lythyrau oddi wrth y deintydd newydd yn dweud ei fod yntau hefyd yn cau ei ddrysau i gleifion y GIG. Y pwynt diddorol yw'r hyn a ddywedodd ei ddeintydd wrtho. Cyfaddefodd fod y sefyllfa'n wael a dywedodd ei bod yn debygol o waethgu ac, o dan y contract newydd, y byddai gofal ataliol, o safon uchel, yn anodd ei gynnal. Bellach mae fy etholwr, ei wraig a'i fab sydd yn ei ardegau yn wynebu bil o £360 y flwyddyn os ydynt am barhau gyda'r un deintydd o dan gynllun yswiriant.

Yn ddiweddar cynhaliais arolwg o holl ddeintyddion GIG Cymru. Cefais gyfradd ymateb dda iawn ac yr oeddent yn unfrydol fwy neu lai yn eu hymatebion. Credent na fydd y contract newydd yn ddim ond baich blinderus newydd sy'n disodli'r hen un.

Yr wyf yn falch bod fy ngwelliant i ganiatáu i ddeintyddion y GIG ganolbwyntio eu gwaith ar blant yn y contract newydd wedi cael ei dderbyn yn y pwyllgor ond mae'r ffaith ei bod yn angenrheidiol cynnig y gwelliant hwnnw'n warthus. Dengys mor brin yw deintyddion y GIG yng Nghymru, a hynny sydd yn sail i welliant 6 o'n heiddo, sydd yn ailddatgan bod hawl gan bawb i gael mynediad at ddeintyddiaeth y GIG.

Trof at rai problemau a materion penodol y mae angen rhoi sylw iddynt. Yng Nghymru y ceir yr iechyd deintyddol gwaethaf yn y DU. Dylai gwaith ataliol ac addysgol fod ar ben yr agenda. Er hynny, cafwyd gostyngiad aruthrol yn nifer y plant a gaiff eu sgrinio—

screened—130,000 were screened in 1997, but only 80,000 in 2003. The number has almost halved, and this is the country that is home to three of the top 10 UK black spots for tooth decay among five-year-olds. I share the BDA's concern that there is no specific unitive dental activity in the new contract for preventative work. I hope that the Minister will reconsider that, and I regret that the amendment does not have the support of the other opposition parties. I hope that they will rethink their stance on that.

I urge the Minister to break free of the shackles of England and to be bolder and more imaginative in his view on the new contract. I have some suggestions in terms of low-cost preventative work that could be done and implemented quickly to improve the situation. You could employ more salaried dentists for school check-ups, provide toothbrushes and toothpaste for early years children and teach them how to brush their teeth properly, as they do in Scotland, for example, and provide grants for schools for low-sugar snacks.

Specific access problems must be addressed, particularly in rural areas. I suggest, for example, that more salaried and mobile dentists should be employed in those areas. To do that, we need more dentists, and the BDA suggests that the number being trained in Wales, namely 64 per year, is inadequate. We need 74 per year—

Rhodri Glyn Thomas: I have listened to your comments with great interest, and I agree with you in the most part. However, did this problem with dentistry suddenly emerge in 2003, or did it exist between 2000 and 2003? If it did exist then, what did the coalition Government do about it?

Jenny Randerson: I agree that the problem did not improve, despite efforts to do something about it. However, you will find that there were no Liberal Democrats in the

cafodd 130,000 eu sgrinio yn 1997, ond dim ond 80,000 yn 2003. Mae'r nifer wedi haneru bron, a hon yw'r wlad lle y ceir tri o'r 10 man gwaethaf yn y DU o ran pydredd dannedd ymysg rhai pum mlwydd oed. Yr wyf yn rhannu pryder Cymdeithas Ddeintyddol Prydain ynghylch y ffaith nad oes dim gweithgarwch deintyddol cyfunol penodol yn y contract newydd ar gyfer gwaith ataliol. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn ailystyried hynny, ac mae'n ofid i mi nad yw'r gwrthbleidiau eraill yn cefnogi'r gwelliant hwn. Yr wyf yn gobeithio y byddant yn ailystyried eu safbwynt ar hynny.

Yr wyf yn annog y Gweinidog i dorri'n rhydd o hualau Lloegr ac i fod yn fwy beiddgar a dyfeisgar o ran ei farn am y contract newydd. Mae gennyf rai awgrymiadau ar gyfer gwaith ataliol cost isel y gellid ei wneud a'i ddechrau'n fuan i wella'r sefyllfa. Gallech gyflogi mwy o ddeintyddion cyflogedig ar gyfer archwiliadau mewn ysgolion, darparu brwsiau dannedd a phast dannedd ar gyfer plant y blynyddoedd cynnar a'u dysgu sut i frwsio eu dannedd yn iawn, fel y maent yn gwneud yn yr Alban, er enghraifft, a darparu grantiau i ysgolion ar gyfer byrbrydau sydd heb lawer o siwgr.

Rhaid ymdrin â phroblemau penodol sydd yn ymwneud â mynediad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yr wyf yn awgrymu, er enghraifft, y dylid cyflogi rhagor o ddeintyddion cyflogedig a theithiol yn yr ardaloedd hynny. Er mwyn gwneud hynny, mae arnom angen mwy o ddeintyddion, ac mae'r BDA yn awgrymu bod y nifer a hyfforddir yng Nghymru, sef 64 y flwyddyn, yn annigonol. Mae arnom angen 74 y flwyddyn—

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf wedi gwrandao ar eich sylwadau gyda diddordeb mawr, ac yr wyf yn cytuno â chi gan mwyaf. Fodd bynnag, a ddaeth y broblem hon o ran deintyddiaeth i'r amlwg yn sydyn yn 2003, neu a oedd yn bod rhwng 2000 a 2003? Os oedd yn bod bryd hynny, beth a wnaeth y Llywodraeth glymblaid yn ei chylch?

Jenny Randerson: Yr wyf yn cytuno na fu i'r broblem wella, er gwaethaf ymdrechion i wneud rhywbeth yn ei chylch. Fodd bynnag, cewch nad oedd dim Democratiaid

health ministry at that time.

Regretfully, there is also a need to attract foreign dentists. The measures are not in place in Wales to attract them. They are in England, where they are paid additional money for additional training. That is not the case in Wales. The Welsh Assembly Government has also abandoned the scheme to retrain dentists who have had a career break.

Time and again, the story is the same in Wales. Dental health is worse here, and the number of dentists is lower, but the Welsh Assembly Government is slower to deal with any problems that arise. Too little is done too late. There have been few PDS pilots here in comparison with England. There has been no piloting of the units of dental activity funding scheme. We are behind England and Scotland yet again in everything. On the contract, in England, the Department of Health gave dentists information on 2 December; we are still waiting in Wales. We need a bold strategy, Minister. We need therapists and nurses to be trained to widen the dental team, and we need a bold new contract. I would say that we need some sort of strategy, which is what has been lacking so far.

The Deputy Presiding Officer: Before I call the next speaker, I am imposing a strict three-minute limit, which increases to four minutes with interventions. I intend to call the Minister at 5.54 p.m.. Even so, 12 Members wish to speak, and I am sorry to say that half of them will not be able to catch my eye today. I call on Catherine Thomas.

Catherine Thomas: Lack of access to NHS dental care has dominated my postbag in the past 18 months. The situation has caused a great deal of anxiety and concern for many of my constituents, particularly when several dentists in Llanelli have signed up to the Denplan scheme and moved away from the NHS, even though they were trained by the NHS. I have met a number of dentists who

Rhyddfrydol yn y weinyddiaeth iechyd bryd hynny.

Gwaetha'r modd, mae angen denu deintyddion o wledydd tramor hefyd. Nid yw'r mesurau ar waith yng Nghymru i'w denu. Fe'u ceir yn Lloegr, lle y telir arian ychwanegol iddynt am hyfforddiant ychwanegol. Nid felly y mae yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi rhoi'r gorau i'r cynllun i ailhyfforddi deintyddion a gafodd seibiant yn eu gyrfa.

Dro ôl tro, yr un yw'r stori yng Nghymru. Mae iechyd deintyddol yn waeth yma, ac mae nifer y deintyddion yn is, ond mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n arafach wrth ddelio ag unrhyw broblemau sydd yn codi. Gwneir rhy ychydig a hynny'n rhy hwyr. Ychydig o gynlluniau peilot y gwasanaeth deintyddol personol a fu yma o'i gymharu â Lloegr. Ni fu dim rhagbrofi ar unedau'r cynllun ariannu gweithgarwch deintyddol. Yr ydym ar ôl Lloegr a'r Alban ym mhob dim unwaith eto. Ynghylch y contract, yn Lloegr, rhoddodd yr Adran Iechyd wybodaeth i ddeintyddion ar 2 Rhagfyr; yr ydym yn dal i aros yng Nghymru. Mae arnom angen strategaeth feiddgar, Weinidog. Mae angen inni hyfforddi therapyddion a nyrsys er mwyn ehangu'r tîm deintyddol, ac mae arnom angen contract newydd beiddgar. Dywedwn fod arnom angen strategaeth o ryw fath, gan na chafwyd un hyd yma.

Y Dirprwy Lywydd: Cyn imi alw'r siaradwr nesaf, yr wyf yn gosod cyfyngiad pendant o dri munud, a fydd yn codi i bedwar munud os ceir ymyriadau. Yr wyf yn bwriadu galw'r Gweinidog am 5.54 p.m.. Er hynny, mae 12 Aelod yn dymuno siarad, ac mae'n ddrwg gennyf ddweud na fydd eu hanner yn gallu dal fy llygad heddiw. Galwaf ar Catherine Thomas.

Catherine Thomas: Diffyg mynediad at ofal deintyddol y GIG fu'r prif bwnc yn y llythyrau a dderbyniais oddi wrth etholwyr yn y 18 mis diwethaf. Mae'r sefyllfa wedi peri llawer iawn o ofid a phryder i lawer o'm hetholwyr, yn enwedig gan fod sawl deintydd yn Llanelli wedi ymuno â chynllun Denplan ac wedi symud oddi wrth y GIG, er eu bod wedi eu hyfforddi gan y GIG. Cyfarfûm â

better understand their concerns and motivation. What is clear is that no two dental practices are the same. Different dentists have different approaches and attitudes towards the service that they provide.

I pay tribute to those in Llanelli who are committed to providing NHS treatment for their patients and who appreciate the importance of access to it. While it is important to acknowledge concerns that all dentists have raised, particularly in relation to the old contract, I must say that I take a very dim view of some of the correspondence sent to my constituents by certain dentists, putting enormous pressure on patients to sign up to Denplan and stating that there was no guarantee that children would be treated without charge in future. Consequently, a number of my constituents no longer have access to an NHS dentist, either because they cannot afford to sign up to Denplan or because, out of principle, they have refused to do so. There are those who have signed up even though they cannot afford to. Fifteen pounds extra a month for a senior citizen is a great deal of money, and it sometimes means the choice between certain food being bought in the month or signing up to Denplan. That is unacceptable.

There are also those in my constituency who want to sign up to Denplan and cannot do so because the dentist's list is full. So, we now have a situation where there is no NHS or private dental care available. For that reason, I want to acknowledge the important work that has been undertaken by Carmarthenshire Local Health Board. It has done everything it can to work with the Assembly to improve the situation in Llanelli. Through working with dental practices, six surgeries' PDS proposals have now been approved. Furthermore, a bid to the Assembly for the establishment of a five-chair dental practice in Llanelli under the PDS arrangement is close to becoming a reality. That will mean that a significant number of my constituents will soon have access to NHS dental care. Through local commissioning, via the LHB, local needs will start to be met. I must say briefly in the time that is left to me that I will not take lectures, particularly from the Tories, who did nothing other than close dental

sawl deintydd sydd yn deall eu pryderon a'u cymhelliant yn well. Yr hyn sydd yn amlwg yw bod pob practis deintyddol yn wahanol. Mae gan wahanol ddeintyddion wahanol ddulliau o ddelio â'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu a gwahanol agweddau tuag ato.

Yr wyf yn talu teyrnged i'r rhai yn Llanelli sydd wedi ymrwymo i ddarparu triniaeth dan y GIG i'w cleifion ac sydd yn deall mor bwysig yw sicrhau ei bod ar gael. Er ei bod yn bwysig cydnabod pryderon y mae'r holl ddeintyddion wedi eu mynegi, yn enwedig mewn cysylltiad â'r hen contract, rhaid imi ddweud nad oes gennyf fawr o feddwl o rai o'r gohebiaethau sydd wedi eu hanfon at fy etholwyr gan rai deintyddion, sydd yn rhoi pwysau aruthrol ar gleifion i dderbyn Denplan ac yn dweud nad oedd dim sicrwydd y byddai plant yn cael eu trin yn ddi-dâl yn y dyfodol. O ganlyniad, mae nifer o'm hetholwyr nad oes ganddynt fynediad at ddeintydd GIG bellach, un ai am na allant fforddio ymuno â Denplan neu am eu bod wedi gwrthod gwneud hynny, o ran egwyddor. Ceir rhai sydd wedi ymuno er na allant fforddio gwneud hynny. Mae £15 y mis i bensiynwr yn swm mawr o arian, ac mae weithiau'n golygu bod rhaid dewis rhwng prynu rhyw fwyd penodol yn ystod y mis ac ymuno â Denplan. Mae hynny'n annerbyniol.

Ceir rhai yn fy etholaeth hefyd sydd yn dymuno ymuno â Denplan ac sydd heb allu gwneud hynny am fod rhestr y deintydd yn llawn. Felly, mae gennym sefyllfa bellach lle nad oes dim gofal deintyddol ar gael dan y GIG nac yn breifat. Oherwydd hynny, yr wyf yn dymuno cydnabod y gwaith pwysig a wnaeth Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae wedi gwneud hynny a all i weithio gyda'r Cynulliad i wella'r sefyllfa yn Llanelli. Drwy weithio gyda phractisau deintyddol, mae chwe chynnig gan ddeintyddfeydd ar gyfer gwasanaeth deintyddol personol wedi eu cymeradwyo bellach. At hynny, mae cais i'r Cynulliad am sefydlu practis deintyddol pum cadair yn Llanelli dan drefniant gwasanaeth deintyddol personol bron â chael ei wireddu. Drwy hynny, bydd nifer sylweddol o'm hetholwyr yn cael fynediad at ofal deintyddol y GIG cyn hir. Drwy gomisiynu lleol, drwy'r BILL, dechreuir diwallu anghenion lleol. Rhaid imi ddweud yn fyr yn yr amser sydd gennyf ar ôl

schools, which resulted in a shortage of dentists in Wales today. We are—

na chymeraf bregethau, yn enwedig gan y Toriaid, na wnaethant ddim heblaw cau ysgolion deintyddol, a arweiniodd at brinder deintyddion yng Nghymru heddiw. Yr ydym—

The Deputy Presiding Officer: Order. Sadly, your time has run out.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Gwaetha'r modd, mae eich amser wedi dod i ben.

Alun Cairns: Almost a day does not pass without hearing about an NHS dentist that is leaving the health service and moving over to a scheme such as Denplan, which Catherine Thomas and others have mentioned. I will refer to those patients who need domiciliary dental care. In order to prevent a backlash, many of the dentists who switch from NHS care to Denplan or similar private schemes often continue to provide a service to patients, particularly those on benefits or who are students. However, the Denplan scheme often prevents those dentists from continuing to provide domiciliary care for any type of patient. In Porthcawl, where there is no longer an NHS dentist of which I am aware, having researched the situation, I negotiated with one practice to continue providing domiciliary care. In credit to the practice, it agreed, under duress, to provide domiciliary care to existing patients.

Alun Cairns: Prin yr aiff yr un diwrnod heibio pan na chlywir am ddeintydd GIG sydd yn gadael y gwasanaeth iechyd ac yn troi at gynllun fel Denplan, y mae Catherine Thomas ac eraill wedi cyfeirio ato. Cyfeiriaf at y cleifion hynny y mae arnynt angen gofal deintyddol yn y cartref. Er mwyn osgoi ymateb gelyniaethus, mae llawer o'r deintyddion sydd yn troi oddi wrth ofal y GIG at Denplan neu gynlluniau preifat tebyg yn aml yn parhau i gynnig gwasanaeth i gleifion, yn enwedig y rhai sydd yn cael budd-daliadau neu sydd yn fyfyrwyr. Fodd bynnag, mae cynllun Denplan yn aml yn rhwystro'r deintyddion hynny rhag parhau i roi gofal yn y cartref i unrhyw fath o gleifion. Ym Mhorth-cawl, lle nad oes dim un deintydd GIG bellach hyd y gwn, a minnau wedi ymchwilio i'r sefyllfa, negodais ag un practis fel y byddai'n parhau i ddarparu gofal yn y cartref. Er clod i'r practis hwnnw, cytunodd, dan bwysau, i ddarparu gofal yn y cartref i'w gleifion presennol.

However, the difficulty is that elderly or disabled patients, who will need further care, clearly will not be able to receive domiciliary dental care. I have written to the Minister about this; I have asked him to pursue it, and he has responded with bland statements. Many of the policies that the Minister seeks to present is a matter of whistling in the wind in that their effect is miniscule given that many elderly and disabled patients, who are the most vulnerable in society, cannot find treatment with a single dentist because the Denplan scheme will not take them on. Those dentists who provide treatment under the Denplan scheme will not even provide it privately on a domiciliary basis. The Minister needs to address this issue urgently. I have called him to act before, but, until now, he has completely ignored this.

Fodd bynnag, yr anhawster yw ei bod yn amlwg na fydd cleifion oedrannus neu anabl, y bydd arnynt angen gofal pellach, yn gallu cael gofal deintyddol yn y cartref. Yr wyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch hynny; yr wyf wedi gofyn iddo fynd ar ôl y mater, ac ymatebodd drwy roi datganiadau di-ddim. Mae llawer o'r polisiau y mae'r Gweinidog yn ceisio eu cyflwyno'n ofer gan mai prin iawn yw eu heffaith o gofio bod llawer o gleifion oedrannus ac anabl, sef y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, na allant gael triniaeth gan yr un deintydd am na wnaiff cynllun Denplan eu derbyn. Ni wnaiff y deintyddion hynny sydd yn darparu triniaeth dan gynllun Denplan ei rhoi'n breifat yn y cartref hyd yn oed. Rhaid i'r Gweinidog roi sylw i'r mater hwn ar frys. Yr wyf wedi galw arno i weithredu o'r blaen, ond, hyd yma, mae wedi anwybyddu hyn yn llwyr.

5.40 p.m.

Carl Sargeant: I appreciate this opportunity to welcome the PDS scheme, which relates to the provision of dental care in Wales. Some of my constituents are currently finding it impossible to sign up as patients of an NHS dentist. I know that others have been dumped—and ‘dumped’ is the word—by local dentists, having been loyal patients to individual practices for many years. Such a situation is unacceptable, and a scheme that increases access to NHS dental care should be welcomed. I look forward to the expansion of the PDS scheme to Alyn and Deeside at the earliest possible time.

When implemented, the scheme will mean good news for the people of Alyn and Deeside. The local commissioning system central to the PDS scheme means that if a dentist leaves the practice, resources from his or her contract will revert to the local health board. Therefore, the level of NHS dentistry resources will remain constant and will not be affected by a dentist’s individual decision. That has to be good news for patients.

PDS schemes have been great value as a locally negotiated option for NHS dentistry. They offer the potential to provide a local solution to a local problem, and they encourage a community and patient-based approach. This must also be good news for patients, as they have choice.

I have had several meetings, as has my colleague, Sandy Mewies, with Flintshire Local Health Board regarding proposals for implementing a PDS scheme in my constituency, and have made the Minister for Health and Social Services, Brian Gibbons, aware of these proposals. Subject to planning permission and financial funding approval, we will see the establishment of three new super-surgeries in Flintshire, which, together, will give 37,000 local people access to NHS dentists. This is with the Assembly’s

Carl Sargeant: Yr wyf yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn i groesawu'r cynllun gwasanaeth deintyddol personol, sydd yn ymwneud â darparu gofal deintyddol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae rhai o'm hetholwyr yn ei chael yn amhosibl cael eu derbyn fel cleifion gan ddeintydd GIG. Yr wyf yn gwybod bod deintyddion lleol wedi troi eu cefn ar eraill, a hwythau wedi bod yn deyrngar fel cleifion i bractisau neilltuol am flynyddoedd lawer. Mae sefyllfa o'r fath yn annerbyniol, a dylid croesawu cynllun sydd yn ehangu mynediad at ofal deintyddol y GIG. Yr wyf yn edrych ymlaen at weld ehangu'r cynllun gwasanaeth deintyddol personol i gynnwys Alun a Glannau Dyfrdwy pan ddaw'r cyfle cynharaf.

Pan gaiff ei roi ar waith, bydd y cynllun yn newyddion da i bobl Alun a Glannau Dyfrdwy. Oherwydd y system comisiynu lleol sydd yn ganolog yn y cynllun gwasanaeth deintyddol personol, os bydd deintydd yn gadael y practis, bydd yr adnoddau o'i gontract yn mynd yn ôl i goffrau'r bwrdd iechyd lleol. Felly, bydd lefel adnoddau deintyddiaeth y GIG yn aros yn gyson ac ni fydd penderfyniad gan ddeintydd neilltuol yn effeithio arnynt. Mae hynny'n sicr o fod yn newyddion da i gleifion.

Mae cynlluniau gwasanaeth deintyddol personol wedi bod yn werthfawr iawn fel dewis sydd wedi ei negodi'n lleol ar gyfer deintyddiaeth y GIG. Gallant gynnig ateb lleol i broblem leol, ac maent yn hyrwyddo dull gweithredu sydd yn seiliedig ar y gymuned a'r claf. Mae hynny'n sicr o fod yn newyddion da hefyd i gleifion, gan fod dewis ar gael iddynt.

Yr wyf wedi cynnal sawl cyfarfod, fel y mae fy nghyd-Aelod, Sandy Mewies, gyda Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint ynghylch cynigion ar gyfer rhoi cynllun gwasanaeth deintyddol personol ar waith yn fy etholaeth, a rhoddais wybod i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Brian Gibbons, am y cynigion hynny. Ar yr amod y ceir caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth i ddarparu cyllid, gwelwn sefydlu tair deintyddfa fawr newydd yn sir y Fflint, a fydd, gyda'i gilydd, yn cynnig mynediad at

approval. We could have these surgeries up and running by the end of March, if that is successful.

Performance will be closely monitored by Flintshire Local Health Board—

Alun Cairns: Any scheme that will provide additional NHS dentistry to 37,000 people would obviously be welcome. However, what is the net figure—how many patients have lost NHS dentistry, and what is the comparison within that situation?

Carl Sargeant: I am sorry, I do not have the figures to hand for you today. However, what is important is that we have 37,000 new dentistry places in Flintshire.

Sandy Mewies: Perhaps I can help here. This scheme, for which Flintshire Local Health Board must be praised for putting forward, will, if it all comes to fruition, bring up the position in Flintshire at least to what were historic levels of dentistry.

Carl Sargeant: Thank you.

Due to the time limit, I will make my closing remarks. I urge the Minister to speedily approve these proposals to create the new super-surgeries that my constituents in Alyn and Deeside need, so that they can feel the benefit of the Labour PDS initiative as soon as possible. It is not the Minister or Labour Party policies that are responsible for the bad situation that we are in today—it is the dentists that have left and have dropped their patients, thereby taking away service provision from the people who need it, particularly the children of Wales.

Rhodri Glyn Thomas: Gwnaf dri phwynt yn gyflym, gan bod amser yn gwasgu.

Yn gyntaf, os yw'r Gweinidog o ddifrif am gynyddu nifer y deintyddion sy'n gwasanaethu yn y GIG, mae'n rhaid iddo edrych ar y sefyllfa hon lle mae'r pwr

ddeintyddion y GIG i 37,000 o bobl leol. Mae hynny ar yr amod y ceir cymeradwyaeth gan y Cynulliad. Gallai'r deintyddfeydd hynny fod ar waith erbyn diwedd Mawrth, os bydd hynny'n llwyddiannus.

Bydd Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint yn monitro'n fanwl berfformiad—

Alun Cairns: Mae'n amlwg y byddai unrhyw gynllun a fydd yn darparu deintyddiaeth ychwanegol gan y GIG i 37,000 o bobl yn un i'w groesawu. Fodd bynnag, beth yw'r ffigur net—faint o gleifion sydd wedi colli deintyddiaeth y GIG, a beth yw'r gymhariaeth o fewn y sefyllfa honno?

Carl Sargeant: Mae'n ddrwg gennyf, nid yw'r ffigurau wrth law gennyf i'w rhoi i chi heddiw. Fodd bynnag, yr hyn sydd yn bwysig yw bod gennym 37,000 o leoedd newydd mewn deintyddiaeth yn sir y Fflint.

Sandy Mewies: Efallai y gallaf fod o gymorth yn hyn o beth. Bydd y cynllun hwn, y mae Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint i'w ganmol am ei gyflwyno, yn adfer y sefyllfa yn sir y Fflint, os bydd y cyfan yn dwyn ffrwyth, i'r lefelau o ddeintyddiaeth a gafwyd yn y gorffennol o leiaf.

Carl Sargeant: Diolch ichi.

Oherwydd y cyfyngiad amser, rhoddaf fy sylwadau terfynol. Yr wyf yn annog y Gweinidog i gymeradwyo'r cynlluniau hyn yn fuan i greu'r deintyddfeydd mawr newydd hyn y mae ar fy etholwyr yn Alun a Glannau Dyfrdwy eu hangen, fel y gallant gael budd o fenter gwasanaeth deintyddol personol y Blaid Lafur cyn gynted ag y bo modd. Nid y Gweinidog na'r Blaid Lafur sydd yn gyfrifol am y sefyllfa wael yr ydym ynddi heddiw, ond y deintyddion sydd wedi gadael ac wedi troi cefn ar gleifion, gan amddifadu pobl, a phlant Cymru'n enwedig, o ddarpariaeth y gwasanaeth y mae arnynt ei hangen.

Rhodri Glyn Thomas: I will make three brief points, as time is against us.

First, if the Minister is serious about increasing the number of NHS dentists, he has to look at the situation where the public purse pays for training dentists and for

cyhoeddus yn talu i hyfforddi deintyddion ac yn sicrhau eu bod yn derbyn eu cymwysterau gan eu gadael yn rhydd i fynd yn syth i'r sector preifat. Mae'n rhaid bod modd rhoi rhyw fath o amod ar eu hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gwasanaethu am gyfnod yn y GIG ar ôl iddynt gymhwyso.

Yn ail, Weinidog, mae'n rhaid i chi gynnal trafodaethau ar fyrder gyda deintyddion yng Nghymru. Dywedwch eich bod yn hyderus y bydd y cytundeb newydd yn sicrhau bod pobl yn dychwelyd i'r GIG ac yn cael eu denu yno yn y lle cyntaf. Nid dyna'r dystiolaeth sydd yn dod oddi wrth y cyrff sy'n cynrychioli deintyddion yng Nghymru. Mae'n bryderus y bydd mwy a mwy o ddeintyddion yn gadael y GIG ar ôl cyflwyno'r cytundeb newydd.

Yn olaf, fe'ch anogaf, Weinidog, i edrych ar y sefyllfa o ran mynediad plant i ddeintyddiaeth yn y GIG. Nid yw'n dderbyniol bod canran mor uchel o blant Cymru—hyd at 50 y cant—heb y mynediad hwnnw. Gwyddom fod hynny'n esgor ar lawer o broblemau eraill a fydd yn pwysu'n drwm ar y GIG.

Gwenda Thomas: In recent months, several dental practices in my constituency have taken the decision to withdraw from the NHS. One practice in Neath announced that it would pull out of the NHS almost immediately and would only treat those patients who were able to sign up to a private dental scheme, such as Denplan, on a first-come first-served basis. This led to many young, elderly, disadvantaged, disabled and working people being unable to secure a place on these schemes. In my community of Gwauncaegurwen, the local dental practice has also recently announced its intention to pull out of the NHS and to switch to providing care under Denplan and other private schemes. However, I am glad to say—

Jenny Randerson: Thank you for taking my intervention, Gwenda. I share your concerns, but are you aware that there is also a more hidden problem, which is the number of NHS dentists who are continuing in the NHS but are not expanding their lists although they are operating in an area of expanding population, or they are reducing their quantity of NHS

ensuring that they receive their qualifications but which then gives them the freedom to go straight into the private sector. There must surely be some way of placing some kind of condition on their training to ensure that they serve for a period in the NHS on qualification.

Secondly, Minister, you need to hold urgent discussions with dentists in Wales. You tell us that you are confident that the new contract will ensure that people return to the NHS and will be attracted there in the first place. That is not the evidence that we have seen from the organisation representing dentists in Wales. It is concerned that more and more dentists will leave the NHS after the new contract is introduced.

Finally, I urge you, Minister, to look at the situation in terms of access to NHS dentistry for children. It is not acceptable that such a high percentage of children in Wales—up to 50 per cent—do not have that access. We know that that will lead to several other problems that will cause further difficulties for the NHS.

Gwenda Thomas: Yn y misoedd diwethaf, mae sawl practis deintyddol yn fy etholaeth wedi penderfynu tynnu allan o'r GIG. Cyhoeddodd un practis yng Nghastell-nedd y byddai'n tynnu allan o'r GIG ar unwaith bron ac na fyddai ond yn trin y cleifion hynny a oedd yn gallu ymuno â chynllun deintyddol preifat, megis Denplan, ar delerau'r cyntaf i'r felin. Mae hyn wedi golygu nad yw llawer o bobl ifanc, a rhai hŷn, difreintiedig, anabl a phobl sy'n gweithio wedi llwyddo i gael lle ar y cynlluniau hyn. Yn fy nghymuned i yng Ngwauncaegurwen, cyhoeddodd y practis deintyddol lleol ei fwriad yn ddiweddar i adael y GIG a newid i ddarparu gofal o dan Denplan a chynlluniau preifat eraill. Fodd bynnag, yr wyf yn fach o gael dweud—

